

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

49/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

15/07/2024

Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+:

Adroddiad Interim

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-267-2

Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru+:

Adroddiad Interim

Awdur(on): Oliver Allies, Jakob Abekhon, Paula Gallagher,
Endaf Griffiths, Shanti Rao, Simon Tanner.

wavehill

Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Abekhon, J; Gallagher, P; Griffiths, E; Rao, S; Tanner, S. (2024). *Gwerthusiad Ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: Adroddiad Interim*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 49/2024.
Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-twff-swyddi-cymru-plws-adroddiad-interim>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

James Lundie

Uwch Swyddog Ymchwil

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Dull Methodolegol	8
3.	Cyd-destun polisi.....	16
4.	Dyluniad y Rhaglen a'r Gweithredu Arni.....	28
5.	Cynnydd a Pherfformiad TSC+	40
6.	Barn am y Model Cyflenwi.....	62
7.	Canlyniadau / Effeithiau'r Cymorth.....	86
8.	Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion	95
	Adran Cyfeiriadau	103
	Atodiad A – Theori Newid	106
	Atodiad B – Canllaw Trafod – Cyfweiliadau Cwmpasu	107
	Atodiad C – Canllaw Trafod – Cyfweiliad dros y ffôn â chyfranogwr (Cyfranogwyr gweithredol).....	109
	Atodiad D – Canllaw Trafod – Arolwg Cyrchfan Cyfranogwyr (Cyflawnwyr TSC+)	116
	Atodiad E – Canllaw Trafod – Cyfweiliad ansoddol ag ymadawyr cynnar	124
	Atodiad F – Canllaw Trafod – Cyfweiliadau â staff Prif Gyflenwyr TSC+	130
	Atodiad G – Canllaw Trafod – Cyflogwr – dwfn/y broses	134
	Atodiad H – Canllaw Trafod – Cyfweiliadau â Staff Awdurdodau Lleol.....	139
	Atodiad I – Canllaw Trafod – Cyfweiliadau â staff TSC+ Llywodraeth Cymru.....	142

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Sampl gwaith maes cyfranogwyr a'r gyfradd ymateb	10
Tabl 3.1: Data cyrchfannau Blwyddyn 11 dros amser	25
Tabl 4.1: Rhanbarthau gweithredu TSC+	31
Tabl 4.2: Trosolwg o linyddau cymorth TSC+ – ar ddechrau'r rhaglen ym mis Ebrill 2022 ..	34
Tabl 4.3: Model ariannu taliadau TSC+ yn Ebrill 2022 (lansio'r rhaglen)	36
Tabl 5.1: Cofrestriadau i TSC+ yn ôl ethnigrwydd – Ebrill 2022–Hydref 2023	43
Tabl 5.2: Oedran ar adeg cofrestru â TSC+ – Ebrill 2022–Rhagfyr 2023	44
Tabl 5.3: Statws adeg cofrestru fesul darparwr	45
Tabl 5.4: Nifer y cofrestriadau yn ôl rhanbarth – Ebrill 2022–Mawrth 2023	46
Tabl 5.5: Cyfrwng (iaith) cynnal gweithgareddau dysgu TSC+	50
Tabl 5.6: Cyfradd cwblhau yn ôl nodweddion	52
Tabl 5.7: Canlyniadau cadarnhaol – Ebrill 2022–Mawrth 2023	55
Tabl 5.8: Canlyniadau cadarnhaol – Ebrill 2022–Hydref 2023	59

Rhestr ffigurau

Ffigur 1.1: Model tri llinyn TSC+	6
Ffigur 2.1: Nifer y cyflogwyr a gafodd eu cyfweld ym mhob sector	11
Ffigur 3.1: Canran amcangyfrifedig y bobl ifanc 16–18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, 2010–2022	23
Ffigur 3.2: Cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru, rhwng Mehefin 2010 a Mehefin 2023	24
Ffigur 3.2a a b: Cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru yn ôl rhyw, rhwng Mehefin 2010 a Mehefin 2023	25
Ffigur 3.3: Canran yr ymatebwyr i arolwg cyrchfan Blwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET fesul awdurdod lleol (2021 a 2022)	33
Ffigur 5.1: Nifer cofrestriadau TSC+ bob mis – Ebrill 2022–Hydref 2023	41
Ffigur 5.2: Cofrestriadau, ymadawiadau a llwyth achosion TSC+ dros amser	42
Ffigur 5.3: Yr oedran yr oedd cyfranogwyr TSC+ wedi gadael yr ysgol – Ebrill 2022–Hydref 2023	45
Ffigur 5.4: Canran cyfranogwyr TSC+ a phoblogaeth pobl ifanc 16-19 oed fesul awdurdod lleol – Ebrill 2022–Hydref 2023	47

Ffigur 5.5: Canran gweithgareddau dysgu TSC+ sy'n weithredol, yn ôl disgrifydd, blwyddyn ariannol 2022-23	49
Ffigur 5.6: Oriau dysgu gwirioneddol mewn canolfan (cyfanswm) ar gyfer y cyfranogwyr hynny oedd â dyddiad gorffen ac a gofrestrodd rhwng Mai 2022 a Hydref 2023	51
Ffigur 5.7: Canran y cyfranogwyr a gwblhaodd raglen TSC+ a sicrhaodd ganlyniadau cadarnhaol, yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022–Mawrth 2023	57
Ffigur 5.8: Dadansoddiad o ddata perfformiad cyhoeddedig fesul chwarter– Ebrill 2022–Medi 2023	58
Ffigur 6.1: Disgwyliadau mwyaf cyffredin am TSC+ yr oedd gan ddysgwyr.....	73
Ffigur 7.1: Effeithiau cymryd rhan yn TSC+ ar ragolygon swyddi cyfranogwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar	87
Ffigur 7.2: Canran y dysgwyr a ymatebodd i ddatganiadau cadarnhaol ynghylch newidiadau i'w hiechyd meddwl neu eu llesiant o gymharu â chyn cymryd rhan yn TSC+	88
Ffigur 7.3: Sefyllfa bresennol unigolion nad ydynt bellach yn cael cymorth gan y rhaglen...	90

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AAD	Anawsterau ac/neu anableddau dysgu
ALI	Awdurdod Lleol
APS	Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth
ARR	Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio
ARWAP	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CDU	Cynllun Dysgu Unigol
CWFW	Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru
EPC	Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd
FfCChC	Fframwaith Credydau a Chymwysterau (CQFW)
LLWR	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
MI	Gwybodaeth reoli
NEET	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
OCA	Oriau Cyswllt dan Arweiniad
RAG	Grŵp Cynghori ar Ymchwil
SFR	Cyfes datganiadau ystadegol cyntaf
TPAP	Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi
TSC+	Twf Swyddi Cymru+ (<i>Jobs Growth Wales+</i>)
WEMWBS	Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin
YEPF	Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid
YPG	Gwarant i Bobl Ifanc

1. Cyflwyniad

- 1.0 Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) yn darparu hyfforddiant, datblygiad a chymorth cyflogadwyedd unigol i bobl ifanc 16-18 oed¹ yr asesir eu bod yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar yr adeg yr oeddent wedi dechrau rhaglen TSC+.
- 1.1 Lansiodd rhaglen TSC+ ym mis Ebrill 2022 a bwriedir iddi redeg tan 2026. Cynlluniwyd y rhaglen i fwrw ymlaen ag elfennau gorau dwy raglen gyflogadwyedd blaenorol, sef:
- [Hyfforddeiaethau](#), a oedd yn cefnogi pobl ifanc 16-18 oed NEET i ennill sgiliau, cymwysterau a phrofiad i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch neu i gyflogaeth, gan gynnwys prentisiaeth.
 - [Twf Swyddi Cymru 2](#) (TSC 2), a oedd yn cefnogi pobl ifanc ddi-waith 16-24 oed trwy roi profiad gwaith iddynt am gyfnod o chwe mis. Roedd yn rhaid i'r lleoliad profiad gwaith dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n uwch a hynny am rhwng 25 a 40 awr yr wythnos (gyda Llywodraeth Cymru yn talu hyd at 50 y cant o'r cyflog am gyfnod y lleoliad hwnnw).
- 1.2 Cytunwyd ar dymor gweithredu o bedair blynedd i raglen TSC+, gydag opsiwn ar gyfer dwy flynedd ychwanegol hyd at 31 Mawrth 2028. Disgwylir i'r rhaglen gael cyllideb gyffredinol o rhwng £100 miliwn a £200 miliwn, sy'n gyfwerth â chyllid o tua £25 miliwn y flwyddyn.
- 1.3 Caiff comisiynau'r rhaglen ei dyfarnu bob blwyddyn i Brif Gontractwyr sydd wedi'u penodi i weithredu mewn pedwar rhanbarth (neu Lot) yng Nghymru.
- 1.4 Ar adeg ei lansio'n wreiddiol ym mis Ebrill 2022, defnyddiai TSC+ system atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio (wedi'i redeg gan Gyrfa Cymru) sy'n cynnig un pwynt mynediad Cymru gyfan i gael cymorth cyflogadwyedd. Yn ddiweddarach, newidiwyd hyn i atgyfeiriadau i'r rhaglen hefyd ddod drwy Gontractwyr a thrwy Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yn ychwanegol at drwy Cymru'n Gweithio.
- 1.5 Rhoddir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, mewn Canolfannau Gwaith Lleol, yn swyddfeydd Contractwyr, neu mewn lleoliadau allgymorth cymunedol yn ogystal â thros y ffôn ac ar-lein.

¹ Cafodd y grŵp oedran oedd yn gymwys ar gyfer TSC+ ei ymestyn i 19 oed ym mis Ionawr 2023.

- 1.6 Mae cynghorwyr yn helpu drwy nodi rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cael mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn seiliedig ar amgylchiadau a dyheadau unigolion, mae cynghorwyr gyrfa hyfforddedig yn nodi'r ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn i symud ymlaen.
- 1.7 Ar ôl i berson ifanc gael eu hatgyfeirio i TSC+, mae natur a maint eu rhwystrau yn sail i ba llyn (Ymgysylltu, Datblygu neu Gyflogaeth) o raglen TSC+ y cânt eu rhoi ynddo (Ffigur 1.1).
- 1.8 Mae tri llynyn TSC+ yn adlewyrchu lefelau gwahanol yr ymyriadau sydd ar gael i ateb gwahanol anghenion unigolion, a'r llynynnau hynny yn gysylltiedig â'u pellter o addysg brif ffrwd neu gyflogaeth fel yr aseswyd ar adeg eu hatgyfeirio.

Ffigur 1.1: Model tri llynyn TSC+



Y gwerthusiad

- 1.9 Ym mis Gorffennaf 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o TSC+, sef yn benodol i:
- Olrhain a chofnodi nifer y rhai a oedd ar y rhaglen rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2024 (gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchoddedig — i'w hadrodd yn flynyddol).
 - Cynnal asesiad blynyddol ar ganlyniadau'r rhaglen, gan gymharu canlyniadau yn ôl grwpiau nodweddion gwarchoddedig a'r iaith Gymraeg.
 - Cynnal gwerthusiad proses y rhaglen.
 - Sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith y rhaglen.²

² Mae asesiad o effaith TSC+ i'w gynnal fel rhan o gontract ar wahân.

1.10 Gwneir y gwerthusiad mewn tri cham. Cynhaliwyd y cam cwmpasu cychwynnol rhwng Awst a Rhagfyr 2022 a lluniwyd adroddiad cwmpasu mewnol ar ei ddiwedd. Mae'r cam interim (y cam hwn) yn pwysu ar brif elfennau'r adroddiad cwmpasu tra hefyd yn anelu at roi gwybodaeth amserol a chadarn i Lywodraeth Cymru am y broses a'r nifer a fanteisiodd ar raglen TSC+ yn y flwyddyn gyntaf (2022/23) a'r ail flwyddyn (2023/24) er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o fireinio'r rhaglen wrth i'r ddarpariaeth fynd rhagddi. Disgwylir i gam olaf y gwerthusiad ddechrau yng ngwanwyn 2024, gan roi'r cyfle i ddadansoddi cynnydd a llwyddiant TSC+ dros gyfnod hwy o amser, cynnal dadansoddiad mwy trylwyr o'r canlyniadau a gyflawnwyd, ac ymgysylltu â'r cyfranogwyr hynny a fethodd â sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

1.11 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn nodi dull methodolegol y gwerthusiad ac yn pwysu a mesur y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn.
- Mae **Pennod 3** yn crynhoi'r cyd-destun polisi a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ar gyfer TSC+ a fersiynau blaenorol y rhaglen.
- Ym **Mhennod 4** ceir trosolwg o ddyluniad rhaglen TSC+, gan ystyried sut y'i gweithredwyd, ac yn manylu ar addasiadau a wnaed i'r model cyflenwi ym mis Ionawr 2023.
- Mae **Pennod 5** yn adolygu cynnydd a pherfformiad rhaglen TSC+ dros amser.
- Ym **Mhennod 6** ceir dadansoddiad o farn cyfranogwyr TSC+, rhanddeiliaid a chyflogwyr am y model cyflenwi.
- Dadansodda **Pennod 7** y canlyniadau a'r effeithiau yr adroddwyd amdanynt sy'n deillio o'r cymorth.
- Mae **Pennod 8** yn crynhoi canfyddiadau cam hwn y gwerthusiad ac yn rhoi cyfres o argymhellion.

2. Dull Methodolegol

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dulliau a'r gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd hyd yma. Yn ogystal, mae'n adfyfrio ar y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dull.

Dadansoddi dogfennau'r prosiect

2.2 Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys adolygu amryw o ddogfennau allweddol, gan gynnwys achos busnes y rhaglen, asesiad effaith integredig, proffiliau buddiolwyr, sawl fersiwn o [fanyleb y rhaglen](#), [canfyddiadau](#) o gyfres o ymweliadau monitro a gynhaliwyd gan Estyn, a nodiadau'r gweithdy cyntaf ar y Theori Newid.

Cyfweliadau cwmpasu

2.3 Cynhaliwyd y cyfweliadau cwmpasu rhwng mis Awst a mis Hydref 2022, a'u pwrpas oedd ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i archwilio'r rhesymeg y tu ôl i raglen TSC+, elfennau penodol ei chynllun, a'r gwersi a ddysgwyd ar ddechrau ei chynnal. Ymhellach, roedd y cyfweliadau yn gyfle hefyd i drafod blaenoriaethau'r ymchwil. Cyfrannodd y cyfweliadau cwmpasu hefyd at fireinio'r Theori Newid³ a'r fframwaith gwerthuso.

2.4 Cynhaliwyd 26 cyfweliad cwmpasu⁴ gyda 37 o aelodau allweddol tîm TSC+ ledled Gyrfa Cymru (n=2) a Llywodraeth Cymru (n=11) (gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â dylunio a rheoli contractau'r gwasanaeth), pob un o'r Prif Gontractwyr (n=5), cynrychiolwyr Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (n=2), a sampl o Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) mewn chwech o awdurdodau lleol ledled Cymru.⁵

Cyfweliadau â rhanddeiliaid

2.5 Ar gyfer cam interim y gwerthusiad, cynhaliwyd cyfweliadau â thri grŵp o randdeiliaid, sef:

- Staff Llywodraeth Cymru (n=14) a oedd wedi bod yn rhan o ddylunio, rheoli a monitro cytundebau'r rhaglen yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â pholisi cyflogadwyedd.

³ Gellir gweld y Theori Newid yn Atodiad A yr adroddiad.

⁴ Roedd y cyfweliadau'n cynnwys cymysgedd o gyfweliadau un-i-un a chyfweliadau grŵp.

⁵ Roedd y rhain yn cynnwys Ynys Môn, Ceredigion, Gwynedd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Cynhelir cyfweliadau â'r holl Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yng nghamau diweddarach y gwerthusiad.

- Cynrychiolwyr y Contractwyr a'r Is-contractwyr (n=27) sy'n ymwneud â rheoli a chynnal y rhaglen.
- Cynrychiolwyr awdurdodau lleol — gan amlaf y rheiny sydd yn rôl y Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd (sydd fel arfer yn darparu arweinyddiaeth weithredol ar gyfer y [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid](#)⁶ ar lefel awdurdod lleol). Cyfwelwyd cyfanswm o 23 o gynrychiolwyr awdurdodau lleol o 17 (o'r 22) ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a gwahoddwyd pob awdurdod lleol i gymryd rhan.

2.6 Cynhaliwyd cyfweiliadau yn rhithwir ac archwiliwyd y prosesau sy'n gysylltiedig â'r model cyflenwi a'r cymorth amrywiol a gynigir trwy bob llinyn. Roedd y cyfweiliadau wedi adfyfrio ar strwythurau rheoli a llywodraethu'r rhaglen yn ogystal â theithiau pobl ifanc drwy'r rhaglen, gan gynnwys ystyried y mathau o ganlyniadau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni. Gellir gweld y canllawiau trafod ar gyfer yr holl gyfweiliadau yn Atodiadau B–I.

Gwaith maes â chyfranogwyr

2.7 Cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn â thri grŵp o gyfranogwyr:

- Cyfranogwyr sydd wrthi nawr yn cael cymorth trwy TSC+ (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel '**cyfranogwyr gweithredol**').
- Cyfranogwyr sydd wedi cwblhau TSC+ ac wedi sicrhau cyrchfan gadarnhaol (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel '**cyflawnwyr**')⁷.
- Cyfranogwyr a oedd wedi gadael y rhaglen yn 'gynnar' (mewn llai na 12 wythnos), cyn sicrhau cyrchfan gadarnhaol (cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel '**ymadawyr cynnar**').

2.8 Yn nyluniad methodolegol gwreiddiol y gwerthusiad, cynigiwyd y byddai 150 o gyfranogwyr yn cael eu cynnwys drwy gydol y gwerthusiad cyfan (yn y gwaith maes interim a'r cam olaf ill dau). Trwy'r ymarfer cwmpasu ar gyfer y gwaith maes penderfynwyd y byddai dyblu maint y sampl yn ddefnyddiol i gynhyrchu corff

⁶ Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPPF) yn fecanwaith systematig i nodi ac ymateb i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, sydd yn NEET ac/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yn trefnu partneriaeth leol sy'n eu cynorthwyo i ystyried darlun cyffredinol y ddarpariaeth a sut y gallant gydweithio'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn ardal eu hawdurdod lleol.

⁷ Oherwydd diffyg cipolwg llawn ar y data a gasglwyd ar gyfranogwyr, bydd gwaith gwerthuso terfynol yn cynnal cyfweiliadau â chyfranogwyr sydd wedi cwblhau TSC+ ond nad ydynt wedi sicrhau cyrchfan gadarnhaol.

tystiolaeth mwy o faint, ac felly, tystiolaeth gadarnach ar gyfer dadansoddi ymateb yn ôl sefyllfa cyfranogwr ac yn ôl Prif Gontractwr.⁸ Cynlluniwyd y ffrâm sampl ar sail y cyfranogwyr gweithredol a'r cyflawnwyr er mwyn adlewyrchu cyfran y cyfranogwyr gweithredol a chyflawnwyr yn y rhaglen ar adeg y gwaith maes. Cafodd cyfweiliadau â chyfranogwyr eu gosod mewn haenau fel a ganlyn:

- Cyfranogwyr gweithredol (60 y cant) a chyflawnwyr (40 y cant) yn seiliedig ar ddadansoddiad cyfrannol o gyfranogwyr gweithredol a chyflawnwyr ar adeg cynllunio'r gwaith maes (Ebrill 2023).⁹
- Yn ôl Prif Gontractwr — gyda chyfranogwyr yr holl Gontractwyr yr ymgysylltwyd â nhw yn gymesur â'r proffiliau cyfredol.
- Rhoi cwota i bob haeniad i sicrhau bod o leiaf pum ymatebwr o bob un o'r grwpiau cyfranogwyr gweithredol a chyflawnwyr ar gyfer pob Prif Gontractwr.

2.9 O ragweld heriau i gysylltu ag ymadawyr cynnar y rhaglen, cynigiwyd cynnal 25 o gyfweiliadau ag ymadawyr cynnar, yn ddelfrydol wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws y pum Prif Gontractwr.

2.10 Yn y pen draw, ymgysylltwyd yn llwyddiannus â chyfranogwyr dros y ffôn, gan gyfweld â 218 o gyfranogwyr presennol neu gyn-gyfranogwyr. Roedd recriwtio gormod o 'ymadawyr cynnar' yn y sampl yn gysylltiedig â chyfyngiadau yn y dull samplu ac ymgysylltu, a thrafodir hyn maes o law yn yr adran hon o dan Cyfyngiadau Methodolegol.

Tabl 2.1: Sampl gwaith maes cyfranogwyr a'r gyfradd ymateb

Statws y cyfranogwr	Sampl ¹⁰	Nifer y cysylltwyd â nhw	Nifer yn optio allan	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
Cyfranogwyr gweithredol	586	563	16	93	17%
Cyflawnwyr	751	430	1	69	16%

⁸ Y rhain oedd y prif Gontractwyr ym mhob un o'r pum rhanbarth a oedd yn goruchwylio neu'n arwain y gwaith cyflawni drwy amrywiaeth o bartneriaid wedi'u his-gontractio ac a oedd yn gyfrifol am adrodd ar gyflawni TSC+ i Lywodraeth Cymru.

⁹ Y canran terfynol a sicrhawyd oedd 57 y cant o gyfranogwyr gweithredol (targed 60 y cant) a 43 y cant o gyflawnwyr (targed 40 y cant).


¹⁰ Sylwer bod nifer fach o gyfranogwyr wedi hunanddatgan eu bod wedi'u rhestru'n anghywir, e.e. wedi'u rhestru i fod yn weithredol ond eu bod mewn gwirionedd wedi cwblhau'r rhaglen, ac felly cawsant eu hadleoli wedyn i'r rhestr sampl gywir. Felly, gall rhai cyfranogwyr ymddangos mewn mwy nag un sampl.

Statws y cyfranogwr	Sampl ¹⁰	Nifer y cysylltwyd â nhw	Nifer yn optio allan	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb
Ymadawyr cynnar	1,882	305	5	56	18%
Cyfanswm	3,219	1,298	22	218	17%

Gwaith maes â chyflogwyr

2.11 Cynhaliwyd cyfweiliadau â sampl o gyflogwyr a oedd wedi ymgysylltu â chyfranogwyr TSC+ i gael eu barn nhw am y rhaglen. Gofynnwyd i gontractwyr nodi rhestr hir o gyflogwyr a oedd wedi cydsynio i ni gysylltu â nhw at ddibenion gwerthuso. Roedd y 102 o gyflogwyr a ddewiswyd yn cynnig lleoliadau gwaith i gyfranogwyr TSC+ ac/neu roeddent wedi recriwtio cyfranogwyr o raglen TSC+ i rolau â chymhorthdal. Cysylltodd Wavehill ag 80 o'r cyflogwyr hyn i ofyn am gael cyfweiliadau. Yn y diwedd, cynhaliwyd 24 o gyfweiliadau â chyflogwyr (30 y cant). Mae 58 y cant o'r cyflogwyr yn gweithredu yn y sectorau Addysg, y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden.

Ffigur 2.1: Nifer y cyflogwyr a gafodd eu cyfweld ym mhob sector



Ffynhonnell: cyfweiliadau Wavehill â chyflogwyr (n=24)

Gwybodaeth Reoli

2.12 Rhoddodd y Contractwyr wybodaeth reoli ddienw am gyfranogwyr y rhaglen i Wavehill rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2023. Roedd y data a roddwyd yn ddata ar gyfer yr holl gyfranogwyr a oedd wedi cofrestru â'r rhaglen ers ei lansio ym mis

Ebrill 2022. Mae dadansoddi gwybodaeth reoli wedi ategu data perfformiad cyhoeddedig, gan gynnig manylder ychwanegol mewn perthynas â phatrymau ymgysylltu daearyddol a pherfformiad a chynnydd dros amser. Yn Rhagfyr 2023 darparodd Llywodraeth Cymru ddata perfformiad y rhaglen gyfan ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2022-Mawrth 2023. Dadansoddwyd cyfuniad o'r set ddata hon a'i gyflwyno yn Adran 5 yr adroddiad hwn. Mae natur y data a gasglwyd trwy wybodaeth reoli hefyd wedi bod yn sail i ddyluniad y fframwaith drafft ar effaith ar gyfer TSC+.¹¹

Grŵp Cyngori ar Ymchwil

- 2.13 Mae Promo Cymru yn bartneriaid dan gontract i dîm gwerthuso Wavehill¹² gan fod â chyfrifoldeb penodol am recriwtio, rheoli a chefnogi Grŵp Cyngori ar Ymchwil (RAG) o bobl ifanc sy'n adlewyrchu'r garfan darged. Ymgysylltodd Promo ag unigolion â nodweddion gwarchoddedig i sicrhau eu bod yn ffocws i'r ymchwil, a recriwtiwyd chwe pherson ifanc (o 17 o geisiadau) i gynghori'r tîm gwerthuso. Cafodd ei hysbysebu'n ddwyieithog drwy wefan Promo Cymru, ffrydiau Twitter ac Instagram. Roedd yr hysbyseb yn rhoi manylion y rôl a'r disgwyliad ac yn cadarnhau y byddai cyfranogwyr yn cael y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r swm cyfatebol mewn taleb o'u dewis am gymryd rhan.
- 2.14 Gofynnwyd i ddarpar aelodau'r Grŵp gyflwyno ffurflen mynegi diddordeb ac yna cysylltodd staff Promo Cymru â nhw i asesu eu haddasrwydd, eu diddordeb a'u dymuniadau o ran cymryd rhan.
- 2.15 Cynlluniwyd pedwar sesiwn gweithdy ar gyfer y Grŵp Cyngori ar Ymchwil, dan arweiniad Promo rhwng mis Mawrth a Rhagfyr 2023. Yn y pen draw, cynhaliwyd saith sesiwn gweithdy, gyda'r cynnydd yn eu nifer yn adlewyrchu'r angen i atgyfnerthu ymgysylltiad cyfranogwyr a meithrin ymdeimlad o barhad ac ymrwymiad i'r gwerthusiad. Soniodd y gweithdai am y materion canlynol:
- Sylwadau ar ba mor berthnasol a phriodol oedd marchnata rhaglen TSC+ gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y wefan a chynnwys fideo.

¹¹ Disgwylir i'r fframwaith effaith gael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad terfynol.

¹² Cysylltodd Wavehill â Promo Cymru i fod yn rhan o'r tîm gwerthuso wrth ddatblygu'r ymateb i'r gwahoddiad i dendro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022.

- Adolygiad o'r amserlenni cyfweld cyfranogwyr i roi cyngor ar eiriad diwygiedig a ffocws cwestiynau, gan arwain at fireinio'r holiaduron a ddefnyddir yn y gwaith maes.
- Sylwebaeth ar brofiad pobl ifanc o'r farchnad lafur a'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael.
- Adolygu a rhoi sylwadau ar y canfyddiadau a gododd o'r cyfweiliadau â chyfranogwyr i gefnogi dadansoddi a dehongli'r canfyddiadau i'w cynnwys yn yr adroddiad interim hwn.

2.16 Anfonodd Promo Cymru adroddiadau am y gweithdai a oedd yn dangos y prif fewnwelediadau o'r sesiynau, gan lunio adroddiad llawn ym mis Rhagfyr 2023 ar ganlyniadau'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil. Arweiniodd y rhain at rai newidiadau i'r offer ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dilyn sylwadau ar eiriad y cwestiynau neu ba mor berthnasol oedd yr opsiynau ymateb i bobl ifanc sy'n debygol o fod yn ymgysylltu â'r rhaglen. Cyfeiriwyd y mewnwedelediadau a gafwyd ar farchnata'r rhaglen at staff Llywodraeth Cymru, gan sôn am adborth cadarnhaol ar y cynnwys yn ogystal ag awgrymiadau ynghylch defnyddio opsiynau fideo amgen ar gyfer marchnata yn y dyfodol.

Cyfyngiadau methodolegol

- 2.17 Llwyddwyd i ragori ar y nifer targed o gyfranogwyr i gymryd rhan yn y gwerthusiad; fodd bynnag, roedd hi'n her i'r gwerthusiad ymgysylltu â phroffil cynrychioliadol o gyfranogwyr TSC+ o ran anghenion/rhwystrau. Mynegwyd pryderon gan rai Contractwyr ynghylch y dull mwyaf priodol o ymgysylltu â chyfranogwyr, o ystyried y rhwystrau (gorbryder a phryderon iechyd meddwl, er enghraifft) a oedd gan rai o'r cyfranogwyr. Mewn ymateb, cynigiwyd dull hyblyg o ymgysylltu â chyfranogwyr (dros y ffôn, wyneb yn wyneb, a grŵp ffocws). Er y gofynnwyd (gan Contractwyr) am amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu ac y darparwyd modd (gan y gwerthuswyr) i gynnal yr arolwg drwy'r dulliau hynny, (yn y pen draw) ymgysylltwyd â'r holl gyfranogwyr dros y ffôn oherwydd mai dyna oedd y dull cysylltu o ddewis.
- 2.18 Gofynnwyd i contractwyr ddarparu manylion cysylltu llawn ar gyfer pobl ifanc a oedd wedi cytuno i gymryd rhan yn y gwerthusiad fel rhan o'u cofrestru â TSC+ o Ebrill 2022. Gofynnwyd am fanylion cyswllt cyfranogwyr ar gyfer tri grŵp: cyfranogwyr gweithredol, cyflawnwyr, ac ymadawyr cynnar.

- 2.19 Arweiniodd pryderon ynghylch cynnwys rhai cyfranogwyr yn y gwerthusiad at amharodrwydd ymhlith rhai Contractwyr i roi holl ddata cyfranogwyr ar gyfer samplu ar hap i'r gwaith maes. Roedd y rhain yn cynnwys rhai pryderon diogelu ynghylch cynnwys pobl ifanc benodol sy'n agored i niwed. O ganlyniad, rhoddodd Contractwyr set ddata yn adlewyrchu'r tri grŵp hyn o gyfranogwyr a gymerodd ran ers i'r rhaglen ddechrau yn Ebrill 2022 a oedd wedi rhoi caniatâd i fod yn rhan o'r gwaith gwerthuso. Roedd rhai Contractwyr wedi rhoi data'r holl gyfranogwyr cymwys, tra bod Contractwyr eraill wedi cynnig sampl. Dewiswyd y cyfranogwyr ar hap o'r 'rhestr hir' o gysylltiadau a ddarparwyd. Yn y senario olaf mae risg o duedd dethol.
- 2.20 Roedd rhywfaint o anghysondeb yn y data cysylltu a ddarparwyd ar gyfer cyfranogwyr yr arolwg, megis nad oedd sefyllfa'r unigolion ar ôl cysylltu â nhw drwy'r arolwg (e.e. unigolyn yn credu ei fod wedi gadael y rhaglen) bob amser yn adlewyrchu'r disgrifiad ohonynt gan y Contractwr (eu bod yn dal wedi'u cofnodi fel cyfranogwr gweithredol oherwydd na dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth o newid sefyllfa gan y Contractwyr). Heb fynediad llawn ar y pryd at ddata gwybodaeth reoli'r Contractwyr, nid oedd yn bosibl gwirio sefyllfa cyfranogwr yn erbyn y set ddata honno.
- 2.21 Tanseiliwyd cywirdeb y disgrifiad o gyfranogwyr hefyd gan yr amser a aeth heibio rhwng derbyn data cyfranogwyr a dechrau'r gwaith maes (ac yn ystod y cyfnod hwnnw mae'n bosibl bod rhai cyfranogwyr a gofnodwyd yn 'weithredol' wedi trosglwyddo i fod yn 'gyflawnwyr' neu 'ymadawyr cynnar'). Mae hyn oherwydd natur yr ymyriad(au) a ddarparwyd gan TSC+, sef i ddigwydd dros nifer o wythnosau a misoedd. Derbyniwyd y manylion cyswllt cyntaf gan Contractwyr ym mis Ebrill 2023; fodd bynnag, roedd manylion cyswllt cychwynnol yn dal i gael eu darparu ym mis Awst 2023. Arweiniodd hyn at ohirio'r gwaith maes, a hwn wedi dechrau yn y pen draw ym mis Awst 2023.
- 2.22 O ganlyniad, cynlluniwyd yr arolwg mewn modd a fyddai'n galluogi pennu sefyllfa cyfranogwr yn erbyn y tri chategori fel rhan o gyflwyniad yr arolwg. Roedd categorieiddio cyfranogwyr felly yn hunangofnodedig ac mae her o ran gallu asesu cywirdeb yr hunanddisgrifio oherwydd y bwlch amser.
- 2.23 Nid oedd y wybodaeth reoli ar gyfer y rhaglen ar gael i'r gwerthuswyr tan fis Tachwedd 2023. Roedd yr oedi cyn cael y data hwnnw'n ymwneud yn bennaf â

chymhlethdodau'r modd y cânt eu cadw yng nghronfa ddata LLWR (a byddai wedi golygu bod angen i Lywodraeth Cymru lunio adroddiadau lluosog i gael y wybodaeth angenrheidiol). Yn lle hynny, cafwyd gwybodaeth reoli ddiennw gan bob un o'r Contractwyr. Ar ôl derbyn y data hynny daeth yn amlwg bod cyfran sylweddol o 'ymadawyr cynnar' (y rheiny a oedd wedi cymryd rhan yn TSC+ am lai na 12 wythnos) wedi cael canlyniadau cadarnhaol (e.e. roedd 58 y cant o'r cyfranogwyr a gofrestrodd yn y llinyn Ymgysylltu ac a gofnododd ganlyniad cadarnhaol wedi cofrestru ar y rhaglen am ddau fis neu lai).

- 2.24 Roedd y fanyleb rhaglen wreiddiol wedi nodi bod disgwyl cynnal rhaglenni cymorth am 12 wythnos. Er nad oedd yn orchmynnol, roedd y tîm gwerthuso wedi disgwyl y byddai angen cymorth am y cyfnod amser hwn neu am fwy na hynny er mwyn i gyfranogwyr allu symud ymlaen (yn enwedig gan fod ymgynghoriadau wedi amlygu mwy o anghenion na'r disgwyl o dan y targed). Tybiwyd felly bod y rhai a oedd wedi ymwneud â'r rhaglen am lai na 12 wythnos wedi gadael yn gynnar. O ystyried nifer yr achosion o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y garfan hon, roeddent yn y pen draw yn gynrychiolaeth wael o unigolion a allai fod wedi cael profiad anffafriol o'r rhaglen (sef un bwriad o ddewis y grŵp targed 'ymadawyr cynnar').
- 2.25 Ar gyfer gwaith maes yn y dyfodol, bydd mynediad at wybodaeth reoli ar gyfer unigolion yn galluogi sefydlu fframiau sampl sy'n targedu tri grŵp o 'ymadawyr' yn benodol: y rhai a adawodd â chanlyniad cadarnhaol, y rhai â chanlyniad niwtral, a'r rhai â chanlyniad negyddol.¹³ Yna gellid cysylltu'r dystiolaeth a gasglwyd yn ôl i'r wybodaeth reoli er mwyn ategu'r wybodaeth a gasglwyd drwy waith maes.

¹³ Mae diffiniadau o'r canlyniadau hyn i'w gweld yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

3. Cyd-destun polisi

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r cyd-destun polisi a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ar gyfer TSC+ a fersiynau blaenorol y rhaglen.

Cyd-destun polisi

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TPAP) a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPF)

- 3.2 Yn y cyfnod cyn rhaglen gyntaf Twf Swyddi Cymru, roedd Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012–16) Llywodraeth Cymru wedi nodi tri amcan allweddol, sef: atal tlodi, helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau, a lliniaru effaith tlodi. Rhan allweddol o'r cynllun hwnnw oedd ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- 3.3 Yn fuan ar ôl lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu ar gyfer [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid](#) (YEPF). Roedd y fframwaith yn nodi dull newydd o gefnogi pobl ifanc sydd yn NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, a cheisiodd ymateb i bryderon eang bod diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed hwn neu eu bod yn methu â rhoi anghenion pobl ifanc yn gyntaf. Mae i'r fframwaith chwe elfen allweddol:
- nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio
 - gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth
 - prosesau olrhain a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc
 - sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
 - atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth
 - gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.
- 3.4 Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid oedd y prif elfennau sylfaenol a oedd yn sail i gyflenwi'r rhaglenni Hyfforddeiaethau a dau iteriad blaenorol Twf Swyddi Cymru (a TSC+ wedi pwysu'n helaeth arnynt). Dylanwadwyd ar gynllun rhaglen wreiddiol TSC hefyd gan gefndir dirwasgiad y DU 2008–2009, lle'r oedd tystiolaeth wedi dangos bod y dirwasgiad

(a'r effeithiau cysylltiedig) wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc o gymharu â grwpiau oedran eraill, ac erbyn 2012 roedd bron chwarter o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith.¹⁴

- 3.5 Yn 2017 cyflwynodd y strategaeth genedlaethol [Ffyniant i Bawb](#) y nod i adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, unedig a chysylltiedig. Mae cyflogadwyedd yn thema graidd yn y strategaeth, gyda dull integredig a chydweithredol sy'n rhoi pobl wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau gwell. Ymhellach, mae'r strategaeth Ffyniant i Bawb yn nodi cyfres o gamau gweithredu sy'n sail i'r thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu, gan gynnwys "datblygu cynllun cyflogadwyedd newydd i Gymru gan ganolbwyntio ar yr anghenion amrywiol sydd gan unigolion, ac ymateb i'r anghenion penodol sydd gan bob rhan o'r wlad o ran sgiliau."
- 3.6 Amlinellodd [Cynllun Cyflogadwyedd](#) 2018 sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cymorth cyflogadwyedd mewn ffordd ddoeth a chydgyssylltiedig drwy'r canlynol:
- Darparu cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra i'r unigolyn.
 - Pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, cefnogi eu staff a darparu gwaith teg.
 - Ymateb i'r bylchau presennol o ran sgiliau a'r bylchau a ragwelir.
 - Paratoi ar gyfer newid sylfaenol ym myd gwaith.

COVID-19

- 3.7 Ar 23 Mawrth 2020, mewn ymateb i bandemig COVID-19, cafodd y cyhoedd ym Mhrydain gyfarwyddyd gan y Prif Weinidog i aros gartref heblaw at ddibenion penodol. Dros y cyfnod dilynol o 15 mis, gweithredwyd cyfyngiadau ar symud a phellter cymdeithasol, er bod y rheoliadau'n amrywio ar gyfnodau gwahanol.
- 3.8 Cyhoeddwyd tystiolaeth o effeithiau negyddol y pandemig gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn eu hadroddiad [lechyd Cyhoeddus Cymru \(2022\) 'Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir: Dull Asesu Effaith Lles Meddyliol'](#). Roedd hwn wedi tynnu sylw at y gydnabyddiaeth y bydd effeithiau

¹⁴ Ipsos MORI, Wavehill & Wiserd (2016) Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru – Adroddiad Terfynol, Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

negyddol COVID-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn cael effaith fwy parhaol, yn enwedig ar bobl ifanc a'r rhai mewn cyflogaeth ansicr ac ar gyflog isel.

- 3.9 Mae'r [Cynllun Adnewyddu a Diwygio Ôl-16 a Phontio](#) (2023) yn nodi'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda darparwyr addysg ôl-16 i gefnogi dysgwyr y tu hwnt i bandemig COVID-19 fel rhan o'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio: sef cefnogi lles a dilyniant dysgwyr. Amlinella'r cynllun hwn y dull a ddefnyddia'r Llywodraeth dros y tair blynedd nesaf i lunio a gweithredu cymorth. Mewn cydweithrediad â'r prosiect Dysgwyr sy'n Agored i Niwed ac o Dan Anfantais, bydd y cynllun pontio yn helpu'r grwpiau hynny a oedd eisoes dan anfantais ond a gafodd eu heffeithio'n anghymesur ymhellach yn sgil y tarfu ar addysg a hyfforddiant ôl-16 oherwydd COVID-19.

Gwarant i Bobl Ifanc

- 3.10 Yn y [Cynllun Cyflogadwyedd](#) ym mis Mawrth 2022 nododd Llywodraeth Cymru y byddai TSC+ yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwireddu'r Warrant i Bobl Ifanc (YPG) yn ogystal â chyflawni'r Garreg Filltir Genedlaethol berthnasol.¹⁵
- 3.11 Y Warrant i Bobl Ifanc yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru y gall pawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant a chymorth i gael gwaith neu ddod yn hunangyflogedig. Ei nod yw lleddfu'r trawsnewid anodd i'r farchnad lafur y gall pobl ifanc eu hwynebu yn dilyn pandemig COVID-19, gan fod hwnnw wedi effeithio ar addysg, sgiliau ac iechyd a llesiant pobl ifanc.
- 3.12 Mae hefyd yn ceisio creu model a llwybr cyflogadwyedd clir, syml a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc Cymru yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau economi decach a mwy cynhwysol i bawb. Mae dulliau cymorth cyflogadwyedd ochr yn ochr â TSC+ yn cynnwys:
- adnoddau ar wefan Gyrfa Cymru
 - pwynt mynediad diduedd drwy Cymru'n Gweithio
 - olrhain/adrodd i'r rheiny sy'n defnyddio Gwarant i Bobl Ifanc trwy Cymru'n Gweithio
 - cymorth i ddod o hyd i brentisiaeth

¹⁵ Mae hwn yn cyfeirio at Garreg Filltir 22, sef bod o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Gweler [Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#) i gael rhagor o wybodaeth am y cerrig milltir a'u cyd-destun.

- rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol (gan gynnwys Cymunedau am Waith a Mwy)
- cymorth hunangyflogaeth — Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru
- rhaglenni partner, gan gynnwys rhai gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac awdurdodau lleol
- Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cynnal gweithgaredd penodol sy'n cefnogi sgiliau pobl ifanc yn ogystal â mynediad i addysg a chyflogaeth.¹⁶

3.13 Cyhoeddwyd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid diwygiedig [ym mis Medi 2022](#) a'r fframwaith wedi'i gryfhau gyda'r nod o sicrhau:

- bod rhagor o bobl ifanc yn symud ymlaen i gyrchfan sy'n iawn iddynt hwy ar ôl gadael yr ysgol, boed hynny i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- bod pobl ifanc yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref
- bod gan bobl ifanc iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ystyrlon iddynt hwy, a lle maent yn teimlo eu bod ar y llwybr cywir

Cyd-destun strategol

3.14 Ceir cyd-destun strategol allweddol pellach ar gyfer y gwerthusiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.15 Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021–2026: diweddariad](#) yn cynnwys yr ymrwymiad i ddarparu swyddi da, sgiliau perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi newydd. Mae'r diweddariad yn nodi tair carreg filltir cyflogadwyedd¹⁷ i'w cyflawni erbyn 2050:

- cael o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant .
- dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cyfranogi yn y farchnad lafur; a

¹⁶ Mae hyn yn cynnwys creu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Penodol i Bobl Ifanc; datblygu Mapiau Ffordd Sgiliau/Canllawiau Llwybrau Dysgwyr; sut i ganfod Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd; cronfeydd data Profiadau Gwaith; cynnal uwchgynadleddau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc; a chysylltu ysgolion a cholegau a chynnal sesiynau ymgysylltu amrywiol gyda phobl ifanc ar eu profiadau bywyd.

¹⁷ Gweler [Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#) i gael rhagor o wybodaeth am y cerrig milltir a'u cyd-destun.

- dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.
- 3.16 Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant cenedlaethol a rennir a ddeddfwyd yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) \(2015\)](#). Un o'r saith nod hyn yw Cymru Lewyrchus (sy'n anelu at ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus). Felly, bydd yn bwysig i'r gwerthusiad asesu'r aliniad strategol hwn a chyfraniadau'r rhaglen i'r nodau hyn.
- 3.17 Mae [Cymru Can](#) yn nodi strategaeth ar gyfer 2023–2030 a'r weledigaeth hirdymor, sef bod Cymru yn lle gwell i fyw ynnddi a bod ganddi ddyfodol disglair ac optimistaidd – yn ffyniannus, yn gynhwysol ac yn wyrdd. Wrth gyflawni'r weledigaeth hon mae pum gweledigaeth gan gynnwys creu economi llesiant sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf.
- 3.18 Disgwylir y bydd TSC+ yn creu amodau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ac, felly, yn cyd-fynd â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#). Nod graidd yn y strategaeth yw “datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle” (Cymraeg 2050: 32).
- 3.19 Mae'n nodi tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth a nodir yn y strategaeth, sef:
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (gan gynnwys yn y gweithle).
 - Creu amodau ffafriol — isadeiledd a chyd-destun (gan gynnwys cymuned ac economi).
- 3.20 Roedd [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol](#) (REAP) i Gymru wedi amlinellu nifer o nodau cyflogadwyedd i'w cwblhau erbyn Ebrill 2023 mewn perthynas â gwell hygyrchedd, gwell canlyniadau i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a chynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i'r holl staff a myfyrwyr, lle eir i'r afael ag aflonyddu hiliol a gwahaniaethu.

- 3.21 Mae [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (ARWAP) yn nodi gweledigaeth o “Gymru sy’n wrth-hiliaeth” erbyn 2030, gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) ac mae’n anelu at wneud newid mesuradwy i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig drwy fynd i’r afael â hiliaeth. Canolbwyntia’r cynllun ar chwe maes lle mae pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn profi hiliaeth, sef bywyd bob dydd, darpariaeth gwasanaethau, y gweithle, swyddi a chyfleoedd, diffyg modelau rôl gweladwy mewn safleoedd o rym, a bod yn ffoadur neu’n geisiwr lloches. O ran cyflogadwyedd a sgiliau, cydnabu’r cynllun yr angen i gymryd camau pellach i fynd i’r afael â hiliaeth strwythurol a systemig sy’n atal pobl rhag cael mynediad at y rhagolygon sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth sy’n bodoli yng Nghymru.
- 3.22 Mae’r ymdrechion hyn tuag at gydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach gan ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i Fodel Cymdeithasol o Anabledd ar draws polisïau a darpariaeth gwasanaethau drwy fynd i’r afael â’r rhwystrau i bobl anabl rhag cael mynediad i’w rhaglenni cyflogadwyedd a chymryd rhan ynddynt.
- 3.23 Mae anabledd yn nhermau model cymdeithasol yn canolbwyntio’n ehangach ar yr anghydraddoldeb, anfantais, dadrymuso neu wahaniaethu y gall pobl â namau eu profi oherwydd rhwystrau i fynediad a chynhwysiant ond sydd yn wahanol i’w nam. Os caiff y rhwystrau eu dileu, yna caiff yr anabledd ei ddileu.
- 3.24 Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19](#), sy’n ymchwilio i effaith COVID-19 ar bobl anabl yng Nghymru ac yn galw am weithredu ar unwaith i ailddatgan yr ymrwymiad i Fodel Cymdeithasol o Anabledd.
- 3.25 Ym mis Mai 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Gynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026](#), a oedd yn amlinellu agenda strategol i ddatblygu a gweithredu polisi anabledd dysgu ar gyfer tymor y llywodraeth hyd at 2026. Mae’n cynnwys ymrwymïadau penodol ynghylch addysg, cyflogaeth a sgiliau¹⁸ sy’n ceisio sicrhau mynediad i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol at wasanaethau a chymorth, gan gynnwys prentisiaethau â chymorth fel rhan o fecanwaith ar gyfer cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu.

¹⁸ Gweler Themâu Allweddol 5 a 6 yng [Nghynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#).

Tueddiadau yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET

3.26 Defnyddir tair prif ffynhonnell ddata i ddeall nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru, sef:

- Cyfres datganiadau ystadegol cyntaf (SFR).
- Cyfres yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS).
- Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru.

3.27 Ystyria Llywodraeth Cymru mai cyfres SFR sy'n rhoi'r amcangyfrifon mwyaf cadarn o bobl ifanc NEET.¹⁹ Mae'r amcangyfrifon a gyhoeddir yn y SFR yn fesur o gyfran y bobl ifanc NEET ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac maent yn deillio o gyfuno ystod o ffynonellau.

- Cyfrifiadau cofrestriadau ysgol ar gyfer:
 - ysgolion o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (Llywodraeth Cymru)
 - addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (Llywodraeth Cymru)
 - addysg uwch o Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Brifysgol Agored.
- Amcangyfrifon poblogaeth ar ddiwedd y flwyddyn galendr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru).
- Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a ddefnyddir i amcangyfrif y rhai nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant sy'n ddi-waith neu'n anweithgar ac mae'n ymwneud â'r holl flwyddyn y cyfeirir ati.


Data cyfres datganiadau ystadegol cyntaf (SFR)

3.28 Mae Ffigur 3.1 isod yn cyflwyno dadansoddiad o ddata'r SFR dros amser (ers 2010) ac mae'n dangos, er gwaethaf cynnydd sydyn (anomaledd yn 2021), bod cyfran y dynion 16-18 oed sy'n NEET wedi gostwng yn raddol dros amser o 14.4 y cant yn 2011 i 11.2 y cant yn 2022. Ymhlith merched, mae'r gwrthwyneb yn wir, gyda chyfraddau menywod NEET 16-18 oed bron yn dyblu dros y cyfnod 2016–22 o 8.4 y cant i 15.5 y cant. O ran newid rhifiadol, mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif o 8,100 o fenywod 16–18 oed sy'n NEET yng Nghymru yn 2022 o gymharu â 4,300 yn 2016

¹⁹ Gweler <https://www.llyw.cymru/deall-y-gwahanol-ffynonellau-ystadegau-ar-bobl-ifanc-nad-ydynt-mewn-addysg-cyflogaeth-na-hyfforddiant-neet-yng-nghymru> i gael rhagor o fanylion.

(cynnydd o 3,800). Ar draws y ddau ryw amcangyfrifwyd bod 14,400 o bobl ifanc 16-18 oed yn NEET yn 2022 o gymharu â'r lefel isaf o 10,600 yn 2017, cynnydd o 35.8 y cant.

Ffigur 3.1: Canran amcangyfrifedig y bobl ifanc 16–18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, 2010–2022



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ONS o'r Boblogaeth a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a data'r Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)²⁰


3.29 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon, ysgogwyd rhaglen gyntaf Twf Swyddi Cymru gan gynnydd sylweddol yng nghyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2012, dengys Ffigur 3.2 isod fod bron i un o bob pedwar o'r holl bobl ifanc 16-24 oed yn ddi-waith. Mae cyfraddau diweithdra ymhlith y garfan oedran hon wedi gostwng dros amser i'r graddau nes bod llai nag un o bob 10 o bobl ifanc 16-24 oed wedi'u cofrestru'n ddi-waith yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) wedi aros yn fwy cyson; fodd bynnag, o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2018 cynyddodd y rhain o 18.2 y cant i 22.8 y cant yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023. Gyda'i gilydd, mae'r cynnydd hwn wedi'i wrthbwyso gan ostyngiadau mewn diweithdra ond maent yn awgrymu deinameg newidiol ymhlith pobl ifanc nad ydynt yn economaidd weithgar.

²⁰ Mae datganiad Llywodraeth Cymru o'r data diweddaraf i'w weld yn [Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2022 \(dros dro\) | LLYW.CYMRU](#).

3.30 Mae Ffigurau 3.2a a 3.2b yn cyflwyno'r proffiliau yn ôl rhyw. Maent yn dangos sut y bu gostyngiad cyson ymhlith dynion yn y gyfran ohonynt sy'n ddi-waith o bron i 25 y cant yn 2011 i 11.4 y cant. I'r gwrthwyneb, cynyddodd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn raddol o 11.5 y cant yn 2011 i 21.8 y cant yn 2022. Ymhlith merched, roedd bron i hanner naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr) yn 2013. Ers 2013 bu gostyngiad cyson, yn enwedig felly ar gyfer cyfraddau diweithdra. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod tua 31 y cant o gyfranogwyr naill ai'n ddi-waith (7.3 y cant) neu'n economaidd anweithgar (23.8 y cant).

3.31 Gyda'i gilydd, mae'r siartiau hyn yn dangos bod anweithgarwch economaidd (ac eithrio'r rhai sy'n fyfyrwyr) yn gynyddol gyffredin ar draws y ddau ryw yn y garfan oedran 16-24, gan efelychu lefelau cynyddol ledled y DU. Mae cyflyrau iechyd hirdymor gan gynnwys iechyd meddwl gwael yn achos cynyddol dros yr anweithgarwch hwn ymhlith y grŵp oedran hwn.²¹


Ffigur 3.2: Cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru, rhwng Mehefin 2010 a Mehefin 2023



Ffynhonnell: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

²¹ Gweler gwaith a wnaed gan Sefydliad Resolution sy'n tynnu sylw at lefelau sy'n cynyddu o iechyd meddwl gwael ymysg pobl 16–24 oed ([We've only just begun • Resolution Foundation](#)) yn ogystal â diweddariadau ar y farchnad lafur gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth ([Labour Market Briefing March 2024](#)).

Ffigur 3.2a a 3.2b: Cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16-24 oed yng Nghymru yn ôl rhyw, rhwng Mehefin 2010 a Mehefin 2023



Ffynhonnell: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru

3.32 Mae Arolwg Cyrchfannau Blwyddyn 11 yn rhoi cipolwg ar gyrchfannau pobl ifanc dros amser o ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Cynhelir yr arolwg ar ddiwedd Hydref ac mae'n rhoi dealltwriaeth o gyrchfan gychwynnol pobl ifanc ar ôl Blwyddyn 11. Mae Tabl 3.1 isod yn cyflwyno patrymau cyrchfannau dros amser. Mae'r rhan fwyaf yn gymharol sefydlog; fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ffigur NEET yn 2022 (y flwyddyn ddiweddaraf y mae tystiolaeth ar gael ar ei chyfer) wedi cynyddu 0.5 pwynt canran o 1.6 y cant i 2.1 y cant.

Tabl 3.1: Data cyrchfannau Blwyddyn 11 dros amser²²

Blwyddyn	Parhau mewn addysg (amser llawn a rhan-amser)	Hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith – statws cyflogedig ac anghyflogedig ²³	Cyflogedig – arall	Gwyddys eu bod yn NEET	Dim ymateb i'r arolwg	Wedi gadael yr ardal
2022	88.4%	4.4%	3.4%	2.1%	1.0%	0.7%
2021	88.9%	5.0%	2.8%	1.6%	1.1%	0.5%
2020	90.5%	4.4%	2.0%	1.7%	0.9%	0.5%
2019	88.4%	5.7%	2.5%	1.8%	1.1%	0.6%
2018	86.6%	5.5%	2.3%	1.6%	3.5%	0.5%
2017	88.5%	6.4%	2.3%	1.6%	0.5%	0.7%


Ffynhonnell: Cyrchfannau Disgyblion (2017–22) Gyrfa Cymru

²² <https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/hynt-disgyblion>.

²³ Mae hyn yn cynnwys prentisiaethau a mathau eraill o ddysgu yn y gwaith

3.33 Cyflwynir dadansoddiad o arolwg cyrchfannau Blwyddyn 11 ar lefel awdurdod lleol yn Ffigur 3.3 isod. Mae'n dangos bod cyfraddau'r ymatebwyr y gwyddys eu bod yn NEET ar eu huchaf yn ardaloedd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Ynys Môn a Chaerffili a bod y gyfran y gwyddys ei bod yn NEET wedi cynyddu yn y mwyafrif helaeth o ardaloedd awdurdodau lleol o gymharu â 2021.

Ffigur 3.3: Canran yr ymatebwyr i arolwg cyrchfan Blwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET fesul awdurdod lleol (2021 a 2022)



Ffynhonnell: Arolwg Cyrchfannau Blwyddyn 11, Gyrfa Cymru

Crynodeb o'r Adran

- Mae ffocws clir a chyson ym mholisi Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru.
- Mae tystiolaeth o gynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru yn y 12 mis hyd at Hydref 2022. Mae cyfran gynyddol o'r grŵp NEET hwnnw yn unigolion sy'n cael eu dosbarthu'n economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr), gyda llai yn cael eu dosbarthu'n ddi-waith, sy'n adlewyrchu'r cynnydd mewn lefelau salwch hirdymor (gan gynnwys iechyd meddwl gwael) ymhlith pobl ifanc.
- Mae proffil rhywedd y bobl ifanc sy'n NEET hefyd yn newid. Yn y data diweddaraf, mae mwy o fenywod 16-18 oed na dynion ifanc yn NEET, gyda chyfran y bobl ifanc NEET wedi dyblu bron (o 8.4 y cant i 15.5 y cant o 2016-2022).

4. Dyluniad y Rhaglen a'r Gweithredu Arni

Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r adran hon yn adolygu dyluniad TSC+ a sut y'i gweithredwyd ac yn amlinellu sut mae dyluniad y rhaglen yn adlewyrchu iteriadau blaenorol Twf Swyddi Cymru a Hyfforddeiaethau.

Gwreiddiau rhaglen TSC+

- 4.2 Yn wreiddiol, nod TSC+ oedd darparu rhaglen gyfannol, bwrpasol i asesu anghenion parhaus a chymorth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, a'r rhaglen wedyn wedi'i hehangu i 16–19 oed yn 2023 i adlewyrchu'r cymhlethdodau uwch yn yr anghenion a ddangoswyd gan gyfranogwyr ar adeg ymuno â'r rhaglen. Cynlluniwyd TSC+ i adeiladu ar elfennau gorau rhaglenni cyflogadwyedd tebyg, sef Hyfforddeiaethau, a dau iteriad cynharach o raglen Twf Swyddi Cymru (TSC).

Hyfforddeiaethau

- 4.3 Roedd [y Rhaglen Hyfforddeiaethau yng Nghymru](#) wedi ceisio lleihau cyfran y bobl ifanc 16–19 oed yng Nghymru sy'n cael eu dosbarthu yn NEET, gan hybu eu cael i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach, a chynyddu hyder a chymhelliant cyfranogwyr.
- 4.4 Roedd y cyllid cychwynnol ar gyfer y Rhaglen Hyfforddeiaethau wedi rhedeg o 2011–2015 a gwelwyd ei fod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i ba mor barod i waith oedd y rheiny a gymerodd ran, yn ogystal â rhagori ar lawer o'i dargedau. Roedd datblygiad TSC+ wedi pwysu ar ganfyddiadau gwerthusiad a ddangosodd fod angen mwy o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth, yn ogystal â gwell ffocws ar ymgysylltu â chyflogwyr i sicrhau nifer digonol o leoliadau gwaith da, mwy o gydweithio ymhlith darparwyr, ac ymestyn hyd cymorth llai dwys i bobl ifanc.
- 4.5 Dangosodd gwerthusiad dilynol ar raglen Hyfforddeiaethau 2016–2019²⁴ amcangyfrifon cadarnhaol o werth net presennol y rhaglen, gyda bron i draean o'r cyfranogwyr wedi sicrhau cyflogaeth. Fodd bynnag, cydnabu'r gwerthusiad terfynol, er bod mwy o hyblygrwydd i'w weld yn y model cyflenwi diwygiedig, bod lle o hyd i ystwytho'r cynnig hwn ymhellach, ac mai parhau oedd yr angen i wella ymgysylltiad cyflogwyr.

²⁴ Gweler [y Rhaglen Hyfforddeiaethau yng Nghymru](#) i gael rhagor o fanylion am y gwerthusiad a'i ganfyddiadau.

TSC

- 4.6 Ceisiodd y [rhaglen TSC](#) wreiddiol ymgysylltu â phobl ifanc ddi-waith mewn grŵp oedran ehangach (16-24 oed) na'r Hyfforddeiaethau (a oedd yn rhedeg ar yr un pryd) a ffocws oedran presennol TSC+. Nod y rhaglen wreiddiol oedd rhoi profiad gwaith gwerthfawr i bobl ifanc am gyfnod o chwe mis wedi'i dalu ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu uwch, wedi'i gefnogi gan gymhorthdal cyflog. Fe'i lansiodd yn Ebrill 2012 yn erbyn cefndir o ddirwasgiad, lle'r oedd pryderon ynghylch effaith hirdymor diweithdra ifanc yn sylweddol, a pharhaodd y rhaglen hon tan 2015.
- 4.7 Cafodd TSC ei lunio a'i roi ar waith o fewn amserlen dynn ac er ei fod wedi llwyddo i gyflawni nifer fawr o ganlyniadau swyddi, eto cafodd ei gyfyngu gan ei gymhlethdod (roedd iddo bedwar maes cyflawni) yn ogystal â materion yn ymwneud â difuddiant (a oedd yn ymwneud [yn rhannol] â pharamedrau eang yn gysylltiedig â chymhwysedd cyfranogwyr ar gyfer y rhaglen).²⁵

TSC 2

- 4.8 Lansiodd [TSC 2](#) yn 2016 gan fod â strwythur cyflawni symlach o gymharu â strwythur y TSC cyntaf (i leihau cymhlethdod), a gostyngiad yn lefel y cymhorthdal cyflog (i helpu i leihau lefelau difuddiant). Bu'n llwyddiant mawr, ond roedd y llwyddiant hwnnw wedi'i ganoli ar y rhai oedd agosaf at y farchnad lafur, heb gynnig cymorth cofleidiol i'r rhai a fu'n aflwyddiannus wrth sicrhau cyflogaeth. Roedd y rheiny a oedd yn aflwyddiannus gan amlaf yn bobl ifanc a oedd angen cymorth ychwanegol i wella eu cyflogadwyedd a bod yn 'barod am swydd'.

Cymorth Swyddi Cymru

- 4.9 Ceisiodd Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r materion a nodwyd (ymysg eraill) drwy ddatblygu rhaglen gyflogadwyedd flaenllaw newydd ar gyfer pob oed – Cymorth Swyddi Cymru. Roedd hon yn rhaglen genedlaethol a gynlluniwyd i gefnogi pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau ac ennill y sgiliau i gael cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd da ac aros ynndi. Roedd y rhaglen i gynnwys cyfres o linyddau (gan gynnwys rhai ar gyfer Ymgysylltu leuenctid a Hyfforddiant leuenctid i'r rheiny a oedd yn 16-18 oed ar adeg cofrestru). Roedd i fod i'w lansio ym mis Ebrill 2020, ond

²⁵ Gweler [Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru: Crynodeb \(ioe.ac.uk\)](#) i gael rhagor o fanylion am ganfyddiadau'r gwerthusiad.

arweiniodd heriau yn gysylltiedig â chaffael cyflenwyr gwasanaethau ar gyfer y rhaglen honno yn y pen draw at ailgynllunio'r model cyflenwi a chyflwyno TSC+.

TSC+

- 4.10 Ceisiodd TSC+ ddefnyddio elfennau gorau'r rhaglenni Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru uchod i roi cynnig o gyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, neu hunangyflogaeth i bob person ifanc y mae'n gweithio ag ef, yn ogystal â phhecyn cymorth cyfannol wedi'i deilwra ar yr un pryd i bobl ifanc sydd yn NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Mae'n ceisio darparu cynnig cyflogadwyedd i bobl ifanc yng Nghymru yn unol â'r Warrant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPF).
- 4.11 Caiff comisiynau'r rhaglen eu dyfarnu yn flynyddol. Mae contractwyr ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth wedi'u penodi o'r canlynol, gyda'r partneriaethau'n cytuno ar fanylion y trefniadau rhanbarthol:
- ACT
 - Coleg Cambria
 - Grŵp Llandrillo Menai (GLIM)
 - Sgiliau Itec
 - Coleg Sir Benfro.
- 4.12 Mae Tabl 4.1 yn dangos rhanbarthau gweithredu TSC+ a chyfran ragamcanol y cyfranogwyr i'w cefnogi gan bob rhanbarth.
- 4.13 Daeth rhaglen TSC+ i rym ar 1 Ebrill 2022 ar gyfer pobl ifanc newydd oedd am ddechrau. Ar y cychwyn, cafodd y rhaglen fudd o drosglwyddo cyfranogwyr presennol o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau i TSC+, ac mae dadansoddi'r wybodaeth reoli yn awgrymu bod tua 1,800 o bobl ifanc wedi trosglwyddo i'r rhaglen o Hyfforddeiaethau.²⁶

²⁶ Yn seiliedig ar nifer y cyfranogwyr a gofrestrodd ar y rhaglen ar 1 Ebrill 2022 ar draws yr holl Contractwyr.

Tabl 4.1: Rhanbarthau gweithredu TSC+

Lot rhanbarthol	Rhanbarth	Ardaloedd awdurdodau lleol sydd yn y rhanbarth	Prif Gontractwyr darparu	Canran y cyfranogwyr	Canran cyfanswm poblogaeth pobl 16–19 oed
Lot 1	Y Gogledd	Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Wrecsam	ACT, GLIM, a Choleg Cambria	12%	20%
Lot 2	Y De-orllewin a'r Canolbarth	Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe, Ceredigion, Powys	Coleg Sir Benfro, ACT, ac Itec	25%	29%
Lot 3	Canol y De	Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg	ACT ac Itec	38%	33%
Lot 4	Y De-ddwyrain	Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen	ACT ac Itec	25%	17%

Ffynhonnell: Manyleb rhaglen wreiddiol TSC+. Data poblogaeth o Gyfrifiad 2021 drwy Nomis, Hawlfraint y Goron.

Model cyflenwi TSC+

Atgyfeirio i TSC+

- 4.14 Pan gafodd ei lansio'n wreiddiol ym mis Ebrill 2022, roedd TSC+ yn gweithredu system atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio (wedi'i gynnal gan Gyrfa Cymru), sef y pwynt mynediad ledled Cymru gyfan i gael cymorth cyflogadwyedd. Ar y pryd, nid oedd unrhyw lwybrau atgyfeirio eraill i'r rhaglen yn bosibl. Y rhesymeg y tu ôl i'r model atgyfeirio oedd ei fod yn galluogi darpar gyfranogwyr i siarad â chynghorwyr gyrfa hyfforddedig ynghylch cyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu rhag cael gwaith neu fynd i addysg neu hyfforddiant ac aros ynddynt.
- 4.15 Rhoddir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, mewn Canolfannau Gwaith Lleol, neu leoliadau allgymorth cymunedol yn ogystal â thros y ffôn ac ar-lein. Fel y nodwyd uchod, nid gan Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yn unig y daw cyngor.

- 4.16 Mae cynghorwyr yn helpu drwy nodi rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cael mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn seiliedig ar amgylchiadau a dyheadau unigolion, mae cynghorwyr hyfforddedig ar yrfaeodded yn nodi'r ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn i wneud cynnydd.
- 4.17 Mae'r gwaith o nodi rhwystrau ac anghenion y bobl ifanc yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio (ARR) sydd – gan ddefnyddio arweiniad a chanllawiau – yn defnyddio 'asesiad categorïau' am amgylchiadau unigolyn, ynghyd â'u rhwystrau, i ddangos addasrwydd atgyfeirio i TSC+ (yn hytrach na llwybrau cyflogadwyedd eraill).
- 4.18 Mae'r asesiad hefyd yn mesur pellter unigolyn o'r farchnad lafur a'r cymorth tebygol sydd ei angen i hwyluso'r broses o drosglwyddo i waith. Mae'r dangosyddion hyn (e.e. hyd diweithdra, cyfrifoldebau gofalu, statws o ran cartref) yn seiliedig ar ymchwil academaidd.²⁷ Os caiff y person ifanc ei atgyfeirio i TSC+, bydd yr asesiad hwn yn rhoi gwybod i ba llyn (Ymgysylltu, Datblygu neu Gyflogaeth) y caiff ei roi ynddo.
- 4.19 Mae tri llyn TSC+ yn adlewyrchu lefelau gwahanol yr ymyriadau sydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol yr unigolion a'r ymyriadau hynny yn gysylltiedig â'u pellter o addysg brif ffrwd neu gyflogaeth fel yr aseswyd wrth eu hatgyfeirio.
- 4.20 Ers haf 2022, mae pobl ifanc 16-18 oed cymwys wedi gallu atgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r rhaglen heb gysylltu â Cymru'n Gweithio i gael eu hasesu ar gyfer mynediad i'r rhaglen (atgyfeiriadau uniongyrchol). Gwnaed hyn i wella mynediad i TSC+ ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd 'anoddaf eu cyrraedd' ac nad oeddent yn ymgysylltu drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio. Caiff yr atgyfeiriadau uniongyrchol hyn eu hasesu gan Contractwyr sy'n defnyddio eu hoffer eu hunain i asesu anghenion, sef offer wedi'i lunio yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau asesiad cyson ac effeithiol.
- 4.21 Ar gyfer pob unigolyn sy'n dod i mewn i TSC+, disgwylir i'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, neu asesiad y Contractwr (pan fydd atgyfeirio uniongyrchol yn digwydd), nodi'r canlynol:
- Anghenion dysgu ac/neu anghenion datblygu'r person ifanc.

²⁷ Gweler Brown, C., Rueda, P., Battle, I. & Sallán, J. (2021). Introduction to the special issue: a conceptual framework for researching the risks to early leaving, [Journal of Education and Work, 34:7-8, 723-739](#) i gael crynodeb ddefnyddiol.

- Unrhyw rwystr(au) sy'n atal y person ifanc rhag cymryd rhan mewn dysgu pellach ac/neu symud ymlaen i gyflogaeth a'r rheiny i gael sylw fel rhan o'u Cynllun Dysgu Unigol (CDU).
- Tystiolaeth allweddol o angen y mae'n rhaid i Gontractwyr TSC+ ei hystyried wrth greu CDU y person ifanc ac adolygiadau cynnydd dilynol.

4.22 Mae Tabl 4.2 yn rhoi trosolwg o natur y cymorth a gynigir ar gyfer pob un o linyddau'r rhaglen ar adeg lansio'r rhaglen (Ebrill 2022).

Tabl 4.2: Trosolwg o llynnau cymorth TSC+ – ar ddechrau'r rhaglen ym mis Ebrill 2022

	Llinyn Ymgysylltu	Llinyn Datblygu	Llinyn Cyflogaeth
Yn addas ar gyfer pobl ifanc sydd:	<ul style="list-style-type: none"> • Angen cadarnhau/rhoi cyd-destun i ffocws galwedigaethol er mwyn cefnogi mynediad i ddysgu pellach neu gyflogaeth (gan gynnwys prentisiaeth); ac/neu • Â rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn astudiaethau ar Lefel 1 	<ul style="list-style-type: none"> • Â ffocws galwedigaethol; ac • Yn gallu dilyn rhaglen astudio sy'n arwain at gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 ond wedi'i asesu i fod yn rhywun nad yw'n gallu astudio i Lefel 3 neu uwch 	<ul style="list-style-type: none"> • Â ffocws galwedigaethol; ac • Yn barod am swydd
Cefnogaeth gweithiwr arweiniol yn darparu:	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Gweithgareddau cefnogi dysgu a datblygu fel y rhestrir yn y CDU, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cyfleoedd dysgu yn lleoliad darparwr TSC+ ○ Treialon gwaith byr ○ Lleoliadau gwaith lleol (hyd at bedair wythnos) ○ Prosiectau cymunedol ○ Gwaith gwirfoddol. • Cynnig cymwysterau sy'n berthnasol i'r llinyn Ymgysylltu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Gweithgareddau cefnogi dysgu a datblygu fel y rhestrir yn y CDU, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Cyfleoedd dysgu yn lleoliad darparwr TSC+ ○ Lleoliadau/treialon gwaith yn lleol ○ Prosiectau cymunedol ○ Gwaith gwirfoddol. • Cynnig cymwysterau sy'n berthnasol i'r llinyn Datblygu • Caiff y cyfranogwyr eu hasesu i'w galluogi i fynd yn eu blaenau i'r llinyn Cyflogaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Cefnogi dysgu a datblygu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy • Cyfleoedd cyflogaeth sydd â chymhorthdal cyflog. <p>Bydd cyfranogwyr wedi dod o hyd i gyflogwr cefnogol o fewn 10 wythnos i ymuno â'r llinyn hwn.</p>
Cymorth ariannol:	Lwfans hyfforddi £30 yr wythnos	Lwfans hyfforddi £55 yr wythnos	Lwfans hyfforddi £55 yr wythnos

Ffynhonnell: wedi'i addasu o fanyleb rhaglen TSC+ (Medi 2021 – fersiwn 1.2)

Llywodraethu

- 4.23 Penodir Rheolwr Contract o Lywodraeth Cymru i bob Contractwr i fod yn bwynt cyswllt penodol iddynt hwy. Rôl y Rheolwr Contract yw adolygu perfformiad y Contractwr a sicrhau herio a chymorth priodol i alluogi rhoi cymorth effeithiol i gynnal rhaglen TSC+. Cynhelir Cyfarfodydd Adolygu Contractau bob chwarter. Mae rheoli contractau yn gysylltiedig â throthwyon perfformiad ar gyfer canlyniadau cyrchfan cadarnhaol. Targed pob Contractwr yw sicrhau canlyniadau cyrchfan cadarnhaol ar gyfer o leiaf 60 y cant o'r holl gyfranogwyr (a 75 y cant ar gyfer cyfranogwyr sydd wedi cofrestru yn llinyn Cyflogaeth y rhaglen).
- 4.24 Er bod y model rheoli contractau wedi'i gynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth, roedd hefyd yn ceisio bod yn sail i waith partneriaeth cydweithredol rhwng Contractwyr ar draws darpariaethau'r rhanbarthau. Yn ogystal, gan gydnabod bod nifer o Gontractwyr yn gweithredu o fewn yr un ddaearyddiaeth, ceisiodd Llywodraeth Cymru osgoi unrhyw gystadleuaeth drwy ddylunio contractau o amgylch dyraniadau cyllid i gyrraedd eu targedau priodol. Ategwyd hyn drwy gyflwyno cytundebau cydweithio, a'r rhain wedi'u llunio rhwng pob grŵp rhanbarthol o Gontractwyr i gefnogi cydweithio cadarnhaol ym mhob rhanbarth (Lot).
- 4.25 Cynhelir cyfarfodydd gan rwydwaith y contractwyr yn rheolaidd, yn aml bob 4-6 wythnos fel arfer, lle rhennir arferion da a heriau. Roedd dileu natur gystadleuol contractau yn fwriadol yn ceisio annog y bartneriaeth hon a gweithgarwch cydweithredu ymhlith y Contractwyr.

Model ariannu

- 4.26 Mae'r costau (ac felly'r dyraniad cyllid) o gynnal rhaglen TSC+ wedi deillio o ddata hanesyddol ar y nifer a oedd wedi manteisio ar ddarpariaeth Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru ar draws rhanbarthau Cymru ar gyfer 2017/18 a 2018/19.
- 4.27 Ar gyfer pob blwyddyn gontract, mae'r Contractwr yn cael dyraniadau wedi'u proffilio gan y Contractwr yn gategorïau ar gyfer Cyflenwi, Cymorthdaliadau Cyflog, a Chostau Cynnal hyd at uchafswm gwerth y dyraniad.
- 4.28 Mae taliadau i Gontractwyr yn seiliedig ar Oriau Cyswllt dan Arweiniad (OCA), sef nifer yr oriau cyswllt yn addysgu, hyfforddi neu asesu ar gyfer gweithgaredd dysgu penodol. Mae Uned Dysgu (UD) yn fesur a ddefnyddir yn y model ariannu taliadau ar gyfer cyfrifo taliadau yn seiliedig ar faint o OCA a gynhaliwyd. Ymhellach, caent

eu rhoi ar gyfer pawb sy'n ymgysylltu â'r rhaglen. Mae'r model ariannu wedi'i nodi yn Nhabl 4.3 isod.

Tabl 4.3: Model ariannu taliadau TSC+ yn Ebrill 2022 (lansio'r rhaglen)

Llinyn	Ymsefydlu a chynefino cyfranogwyr	Darpariaeth bob mis	
		Mewn canolfan	Mewn gweithle
Ymgysylltu	3 Uned Dysgu	1 Uned Dysgu am bob 3 awr o OCA	1 Uned Dysgu am bob 8 awr o OCA
Datblygu			
	3 Uned Dysgu	1 Uned Dysgu am bob 4 awr o OCA	1 Uned Dysgu am gyflogaeth â chymhorthdal cyflog am bob 13 awr o OCA
Cyflogaeth			

Ffynhonnell: Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+, fersiwn 1.2 (Ebrill 2022)

Cymhorthdal cyflog am gyflogi

4.29 Pan fo cyfranogwr wedi sicrhau cyflogaeth drwy llinyn Cyflogaeth TSC+, bydd cyflogwyr yn cael ad-daliad cymhorthdal cyflog ar gyfer cyfranogwyr TSC+ sy'n gyfwerth â chwe mis (26 wythnos) ar 50 y cant o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Addasiadau i fodel cyflenwi TSC+

4.30 Ym mis Ionawr 2023 cynigiwyd cyfres o newidiadau i raglen TSC+²⁸ mewn ymateb i adborth Contractwyr yn dilyn rhoi'r rhaglen ar waith. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch y cynnydd mewn lefelau anghenion yr oedd Contractwyr yn eu gweld yn y bobl ifanc a oedd yn cyflwyno iddynt erbyn hynny. Roeddent hwy (Contractwyr) yn glir bod y garfan sy'n cael ei hatgyfeirio at y rhaglen nawr yn llawer mwy tebygol o fod yn addas ar gyfer y llinyn Ymgysylltu yn unig (oherwydd y pellter posibl o'r farchnad lafur a gyflwynwyd ganddynt).

4.31 Golygai hyn fod gan ymgeiswyr anghenion a rhwystrau llawer mwy cymhleth, a'r Contractwyr a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn cytuno bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r effeithiau andwyol ar bobl ifanc yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 yn ogystal â'u mynediad cyfyngedig i leoliadau addysgol ffurfiol yn ystod y cyfnodau hynny.

²⁸ Llywodraeth Cymru (2023) Hysbysiad newid rhaglen TSC+ – Fersiwn Terfynol, 12 Ionawr 2023 (heb ei gyhoeddi).

- 4.32 Roedd pryderon gan Gontractwyr mewn cyfweiliadau cwmpasu ei bod yn bosibl na fyddai cynllun y rhaglen ers y cyfnod cyn y pandemig yn adlewyrchu'n ddigonol y cynnydd mewn rhwystrau a chymhlethdod o ran y materion y mae'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu nawr os ydynt yn dymuno dod o hyd i waith, neu eu hansicrwydd ynghylch opsiynau eu cam nesaf. Felly, er bod mwy o angen am y cymorth y mae'r rhaglen yn ei ddarparu, mae'r anghenion y mae'n mynd i'r afael â nhw hefyd yn debygol o fod yn fwy cymhleth. O ganlyniad, roedd Contractwyr yn disgwyl, a gwelwyd hyn, y byddai cymorth yn cymryd mwy o amser i'w ddarparu na'r 12 wythnos a ragwelwyd cyn y pandemig, gyda data gwybodaeth reoli yn dangos ar gyfartaledd bod Contractwyr yn gweithio gyda chyfranogwyr am tua 26 wythnos yn y llinyn Ymgysylltu.
- 4.33 Ym misoedd cyntaf y rhaglen bu llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl gan Cymru'n Gweithio i TSC+. Ar y pryd credwyd bod hyn yn adlewyrchu lefel uchel o swyddi gwag yn y sectorau manwerthu a lletygarwch, a hynny'n golygu bod llawer o bobl ifanc yn dod o hyd i waith yn haws nag o'r blaen. Fodd bynnag, mae llawer o rolau yn y sectorau hyn yn ansicr ac yn talu'n gymharol isel ac, felly, nid ydynt yn cynnig yr un rhagolygon na chymorth â TSC+.
- 4.34 Nodwyd hefyd na fyddai llawer o'r bobl ifanc oedd â'r lefelau angen uchaf o reidrwydd yn mynd at Cymru'n Gweithio'n uniongyrchol eu hunain, ac yn aml mae angen cymorth ac allgymorth mwy gweithredol i wneud y cysylltiad cyntaf â Cymru'n Gweithio.
- 4.35 Roedd hyn yn broblematic i Gontractwyr oherwydd bod cynllun eu modelau cyflenwi yn seiliedig ar ragor o atgyfeiriadau nag a gafwyd, ac ymhlith y rhai a atgyfeiriwyd disgwyliid achosion llai cymhleth a oedd â llai o rwystrau i'w datrys mewn carfannau yn agosach at y farchnad lafur. Mae hyn yn golygu bod y costau cyflenwi disgwylid yn ystod y cyfnod gweithredu wedi bod yn uwch gyda llai o gofrestriadau neu lai o drosglwyddo i'r llinynnau Datblygu a Chyflogaeth na'r disgwyl.
- 4.36 Roedd pryderon hefyd ymhlith Contractwyr fod yr hinsawdd economaidd a'r argyfwng costau byw yn rhoi pwysau ychwanegol ar hyfywedd ariannol tymor hwy cynnal y rhaglen. Teimlwyd y byddai'r argyfwng costau byw yn arbennig yn rhoi pwysau cynyddol ar bobl ifanc i ddod o hyd i waith cyflogedig yn syth oherwydd y pwysau ariannol a wynebir gan eu haelwyd eu hunain.

- 4.37 Roedd pryderon hefyd y gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen, neu y byddai pobl ifanc yn teimlo dan bwysau i dderbyn cyfleoedd cyflogaeth eraill y tu allan i'r rhaglen a oedd yn cynnig tâl uwch na lwfans hyfforddi TSC+.
- 4.38 Yn erbyn y cyd-destun hwnnw, cynigiwyd y newidiadau canlynol (ynghyd â dechrau atgyfeirio uniongyrchol, a oedd wedi dod cyn y diwygiadau hyn) gan eu rhoi ar waith rhwng mis Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023, gyda rhai mesurau talu wedi'u hôl-ddyddio i ddechrau'r rhaglen yn Ebrill 2022:
- Ehangu 'Gweithgareddau Cyfoethogi' ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen y nodwyd eu bod yn debygol o elwa o ymyriad i:
 - Hyrwyddo eu lles, ac/neu
 - Rhoi hwb i'w hymgysylltiad ac i'w cymell i aros yn y rhaglen ac/neu symud ymlaen â'r rhaglen ddysgu pan allent fod mewn perygl o ymddieithrio neu roi'r gorau iddi.
 - Cyflwyno gweithgaredd ymgysylltu cyn dechrau ar y rhaglen o'r enw 'Bydd Barod/Get Ready' ar gyfer pobl ifanc y mae'r Contractwr wedi'u hasesu i fod:
 - Angen cyflwyniad llai ffurfiol i ddysgu, ac
 - Angen cymorth i symud ymlaen i ddysgu mwy ffurfiol.
 - Cynnydd yng nghyfradd y Lwfans Hyfforddi a rhoi'r gorau i'r gofyniad i ddysgwyr dalu cyfraniad tuag at gostau teithio:
 - Ar gyfer llinynnau Ymgysylltu, Datblygu, a Chyflogaeth (pan nad ydynt eto wedi dechrau cyflogaeth â chymhorthdal cyflog), cânt lwfans hyfforddi llawn o £60 pan fo cyfranogwyr wedi mynychu am o leiaf 30 awr mewn unrhyw gyfnod o saith diwrnod (bydd unrhyw bresenoldeb sy'n llai na 30 awr ar sail pro rata). Mae hyn yn golygu dyblu'r lwfans hyfforddi ar gyfer y rhai yn y llinyn Ymgysylltu ac yn bum punt yr wythnos yn fwy i'r rheiny yn y llinynnau eraill.
 - Darparu pryd o fwyd am ddim am fynychu diwrnod neu ran o ddiwrnod hyd at uchafswm o £3 y diwrnod.
 - Cynyddu cyfradd yr Unedau Dysgu (UD) sy'n daladwy ar gyfer Ffi Ymsefydlu ar gyfer y llinyn Ymgysylltu:

- Byddai gan contractwyr hawl i 12 uned dysgu am bob cyfranogwr yr ymsefydlwyd ar gyfer y llinyn Ymgysylltu. Cyn y cynnig hwn (ond yn dilyn cyhoeddi manyleb wreiddiol TSC+), deellir bod y gyfradd ar gyfer cofrestriadau ym mhob maes wedi cynyddu o dri UD i chwe UD am bob cyfranogwr a ymsefydlwyd. Felly, o'i gymharu â'r fanyleb wreiddiol, mae hyn yn cynrychioli pedair gwaith y gost fesul ymsefydlu a nodir ym manyleb Ebrill 2022 (o dri UD i 12).
- Byddai'r taliadau'n cael eu hôl-ddyddio i fis Ebrill 2022.
- Ymestyn y cymwysterau a ganiateir ar gyfer llinyn Datblygu TSC+ i ganiatáu derbyn cymwysterau Lefel 2 Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (CQFW) (yn ychwanegol at gymwysterau Lefel 1 y [Fframwaith Credydau a Chymwysterau \[CQFW\]](#)).
- Ymestyn yr ystod oedran y mae pobl ifanc yn gymwys i gofrestru â'r rhaglen o 18 oed i 19 oed.

Crynodeb o'r Adran

- Mae cynllun a dyluniad y rhaglen wedi ystyried canfyddiadau a phrofiad cynnal fersiynau blaenorol o Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Hyfforddeiaethau.
- Mae perthynas waith agos gyda'r Contractwyr a gaffaelwyd i gynnal y rhaglen wedi arwain at ddeialog ddefnyddiol ac wedi llywio addasiadau i gynllun y rhaglen ar ôl ei rhoi ar waith.
- Mae addasiadau i'r dull gweithredu wedi digwydd yn bennaf yn sgil y ffaith fod mwy o gymhlethdod na'r hyn a ragwelwyd yn yr anghenion a welwyd ymhlith y garfan o gyfranogwyr cymwys, a hynny o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn ogystal â'r argyfwng costau byw a'r pwysau cysylltiedig ar gyfranogwyr cymwys a'u haelwydydd.
- Mae'r addasiadau wedi arwain at gynnydd sylweddol (pedwarplyg) yn y gwariant sy'n gysylltiedig â'r taliad ymsefydlu ar gyfer cofrestru cyfranogwyr yn llinyn Ymgysylltu'r rhaglen.

5. Cynnydd a Pherfformiad TSC+

Cyflwyniad

5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno cynnydd a pherfformiad rhaglen TSC+. Wrth wneud hynny mae'n pwysu ar sawl ffynhonnell o ran tystiolaeth:

- **Ystadegau swyddogol sydd wedi'u cyhoeddi am raglen TSC+** (ar gael [yma](#)) ynghylch cynnydd yn erbyn cyfres o ganlyniadau lefel uchel yn ystod y cyfnod Ebrill 2022–Mawrth 2023.
- **Ystadegau ychwanegol am y rhaglen gyfan** wedi'u rhannu gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi tystiolaeth atodol y tu ôl i'r setiau data cyhoeddedig ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022–Mawrth 2023.
- **Data gwybodaeth reoli (MI) y contractwyr**,²⁹ mae hwn yn rhoi darlun manwl o berfformiad a chynnydd dros amser yn ogystal â thystiolaeth newydd o gynnydd hyd at (ac yn cynnwys) Hydref 2023 o ddechrau'r rhaglen (yn Ebrill 2022).³⁰ Wrth gynnig darlun mwy diweddar i berfformiad y rhaglen, mae'r set ddata hon yn cynnig arwyddion o lwyddiant ac effaith yr addasiadau i TSC+ yn gynnar yn 2023. Sylwer mai data dros dro yw'r rhain ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth reoli sy'n ymwneud yn benodol â chanlyniadau cyfranogwyr o Goleg Cambria.

Perfformiad dros amser

5.2 Mae Ffigur 5.1 isod yn rhoi trosolwg o'r cofrestriadau ar raglen TSC+ dros amser gan ddefnyddio **data gwybodaeth reoli'r Contractwyr**.

5.3 Dengys y siart mai'r cyfnod prysuraf yn nifer y cofrestriadau yw mis Gorffennaf bob blwyddyn (yn unol â chwblhau blwyddyn academaidd). Mae'r uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2022, ac er iddo fod yn sylweddol ar y pryd mae'n llai amlwg na'r hyn a gafwyd ym mis Gorffennaf 2023 pan gofrestrwyd bron i saith gwaith nifer cyfranogwyr TSC+ o gymharu â mis Mehefin 2023 (a mwy na 2.5 gwaith y nifer a gofrestrwyd ym mis Gorffennaf 2022). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â


²⁹ Derbyniwyd data gwybodaeth reoli gan ACT ar ddiwedd Tachwedd 2023. Derbyniwyd data gwybodaeth reoli gan ITEC, Coleg Sir Benfro, a GLIM yn gynnar ym mis Rhagfyr 2023. Derbyniwyd data gwybodaeth reoli Coleg Cambria ym mis Mawrth 2024. Cafodd y data ym mhob achos ei echdynnu yn ystod y mis y cyrhaeddodd Wavehill.

³⁰ Mae data ar gyfer Coleg Cambria yn dechrau o 2 Mai 2022, gyda'r holl Gontractwyr eraill yn cynnwys data am gofrestriadau o adeg lansio'r rhaglen (Ebrill 2022). Mae data'r wybodaeth reoli wedi'i ddadansoddi ar gyfer cofrestriadau hyd at (ac yn cynnwys) Hydref 2023 ar wahân i Goleg Cambria, gan mai'r dyddiad cofrestru diweddaraf yn eu data yw 11 Medi 2023.

TSC+ yn dod yn fwy sefydledig fel rhaglen a'r addasiadau a wnaed (yn benodol y ddarpariaeth a gynigir drwy Bydd Barod/Get Ready, sy'n cefnogi myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, ac a ddefnyddiwyd gan rai Contractwyr yn lle'r rhaglen flaenorol Haf Hwylus/ Summer Sorted³¹).

- 5.4 Ymddengys hefyd fod cynnydd llai amlwg mewn ymgysylltiad ym mis Hydref y ddwy flwyddyn academaidd, sydd o bosibl yn gysylltiedig â myfyrwyr ôl-16 yn rhoi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod hanner tymor yr Hydref (sef adeg a gydnabyddir yn eang yn y flwyddyn academaidd pan fydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau iddi) a throsglwyddo i raglen TSC+. Ar wahân i'r misoedd brig, prin yw'r dystiolaeth o gynnydd cyffredinol yn y cyfraddau cofrestru ar y rhaglen tan fis Gorffennaf 2023 (pan gafwyd y nifer uchaf o gofrestrïadau misol yn y rhaglen ers lansio'r rhaglen yn nhri o'r pedwar mis).
- 5.5 Pan ddadansoddir oedran ac amseriad cofrestru yn erbyn y niferoedd amcangyfrifedig o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET (fel y nodir yn Adran 3), amcangyfrifir bod TSC+ yn ymgysylltu â thua thraean o bobl ifanc NEET (16–18 oed) yng Nghymru (mewn cyfnod o 12 mis c.4,500/14,300).

Ffigur 5.1: Nifer cofrestrïadau TSC+ bob mis – Ebrill 2022–Hydref 2023



Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli'r Contractwyr³²


³¹ Rhaglen wedi'i thargedu at ddysgwyr Haen 4 a oedd wedi'i chynnal mewn rhai ardaloedd dros gyfnod yr haf pan nad oedd pobl ifanc yn yr ysgol.

³² Sylwer bod y cyfansymiau ar gyfer Ebrill 2022 yn cynnwys cyfranogwyr a drosglwyddodd ran o'r ffordd drwy eu taith o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau.

5.6 Yn ôl **ystadegau swyddogol**,³³ cofrestrodd 5,330 o bobl ifanc â rhaglen TSC+ yn ystod blwyddyn ariannol 2022–23 (Ebrill 2022–Mawrth 2023). Ar ddiwedd y cyfnod hwn, roedd 2,115 o raglenni dysgu yn parhau (sef y llwyth achosion presennol o gyfranogwyr). Dadansodda Ffigur 5.2 isod gofrestriadau ymuno ac ymadawiadau o TSC+ dros amser a dengys bod llwyth achosion wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth hyd at fis Gorffennaf 2023 cyn i'r nifer mawr a ymunodd yn y mis hwnnw gynyddu'r niferoedd a gymerai ran yn TSC+. Arhosodd y niferoedd hynny ar lefel uwch nag yn y flwyddyn flaenorol (tua 2,800 o gyfranogwyr o gymharu â chyfartaledd o tua 1,900 yn ystod blwyddyn ariannol Ebrill 2022–Mawrth 2023).

5.7 Dechreuodd yr addasiad i ganiatáu atgyfeiriadau uniongyrchol i'r rhaglen yn haf 2022. Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru, roedd atgyfeiriadau uniongyrchol yn 28 y cant (1,485/5,330) o'r holl gofrestriadau ym mlwyddyn ariannol Ebrill 2022–Mawrth 2023, sy'n dangos pwysigrwydd cynnar y llwybr hwn i'r rhaglen, tra bod atgyfeiriadau o'r Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) ond yn un y cant yn ystod yr un cyfnod amser. Fodd bynnag, cofnodwyd llawer o atgyfeiriadau gan y Cydlynwyr i fod yn atgyfeiriadau uniongyrchol gan Gontractwyr, tra bod yn well gan rai Cydlynwyr yn dal atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio (yn hytrach nag yn uniongyrchol i Gontractwyr). Felly mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o gyfanswm nifer yr atgyfeiriadau gan Gydlynwyr.

Ffigur 5.2: Cofrestriadau, ymadawiadau a llwyth achosion TSC+ dros amser



Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli'r Contractwyr

³³ Data gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru.

Proffil y cyfranogwyr

- 5.8 O'r rheiny a gofrestrodd ar y rhaglen ym mlwyddyn ariannol 2022–23, nododd 52.6 y cant eu bod yn wryw, 46.9 y cant eu bod yn fenyw, a 0.4 y cant yn nodi eu bod yn 'arall'. O ddadansoddi gwybodaeth reoli'r Contractwyr, gwelir rhywfaint o amrywiaeth yn y proffil rhyw fesul Contractwr, gyda chyfran y cyfranogwyr benywaidd yn amrywio o 43 y cant yn GLIM i 52 y cant yng Ngholeg Cambria.
- 5.9 Ar draws blwyddyn ariannol 2022–23, datganodd bron i chwarter (24 y cant, 1,260/5,330) o gyfranogwyr TSC+ ryw fath o amhariad/anawsterau o'i gymharu â 12.7 y cant o boblogaeth gyffredinol pobl ifanc 15-19 oed a 15.7 y cant o unigolion 20 i 24 oed.³⁴ Gan amlaf, roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:
- Dyslecsia (5.8 y cant o'r cofrestrïadau).
 - Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (4.6 y cant o'r cofrestrïadau).
 - Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (3.6 y cant o'r cofrestrïadau).
 - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) (3.3 y cant o'r cofrestrïadau).
- 5.10 Ymhlith y cyfranogwyr a gofrestrodd yn ystod y cyfnod Ebrill 2022–Hydref 2023, ac eithrio pan na nodwyd ethnigrwydd neu pan nad oedd yn hysbys (n=110), disgrifiodd 94.0 y cant eu hunain i fod yn wyn. Cyflwynir dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl ethnigrwydd yn Nhabl 5.1 isod (o gymharu â phoblogaeth 16–19 oed Cymru) ac mae'n awgrymu bod y rhai sy'n cymryd rhan yn TSC+ yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd na'r boblogaeth 16-19 oed gyffredinol yng Nghymru.

Tabl 5.1: Cofrestrïadau i TSC+ yn ôl ethnigrwydd – Ebrill 2022–Hydref 2023

Pob grŵp ethnig	Gwybodaeth reoli TSC+	Poblogaeth 16–19 oed Cymru
Gwyn (Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig/Arall)	94.0%	90.3%
Du	1.3%	1.4%
Asiaidd	1.3%	4.3%
Cymysg	1.8%	2.8%
Arall	1.6%	1.3%

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr, Data am y boblogaeth o Gyfrifiad 2021

³⁴ Data cyfrifiad 2021.

- 5.11 O blith yr holl gyfranogwyr yn y **data o wybodaeth reoli'r Contractwyr**, cofnodwyd bod 18 y cant (1,685/9,263) a gofrestrodd ers dechrau'r rhaglen yn siaradwyr Cymraeg (wyth y cant [731/9,263] ohonynt yn rhugl). Mae dadansoddi gwybodaeth reoli'r Contractwyr yn nodi bod siaradwyr Cymraeg wedi dod yn fwyfwy cyffredin ymhlith cyfranogwyr rhaglen TSC+ dros amser, gydag 20 y cant (937/4,636) o'r rhai a gofrestrodd ym mlwyddyn galendr 2023 wedi'u cofnodi yn siaradwyr Cymraeg o gymharu ag 16 y cant (748/4,627) o'r rhai a gofrestrodd yn 2022.
- 5.12 Roedd dros dri chwarter o gyfranogwyr rhaglen TSC+ yn 16 neu 17 oed ar adeg cofrestru ar y rhaglen. Roedd tua phedwar y cant o'r cyfranogwyr yn 19 oed ar adeg cofrestru. Mae'r ffigur hwn yn parhau'n gyson o'i ddadansoddi fesul blwyddyn (2022 a 2023). Er y gallai hyn i ddechrau arni awgrymu cofrestriadau anghymwys yn 2022 (pan nad oedd y rhai 19 oed yn gallu cofrestru ar gyfer TSC+), y sail iddo mewn gwirionedd yw'r broses trosglwyddo cyfranogwyr Hyfforddeiaethau i'r rhaglen a'r rheiny wedi troi'n 19 oed yn ystod eu cyfnod â'r rhaglen Hyfforddeiaethau ac, felly, trosglwyddo a chofrestru i TSC+ yn 19 oed.

Tabl 5.2: Oedran ar adeg cofrestru â TSC+ – Ebrill 2022–Rhagfyr 2023

Oedran ar adeg cofrestru	N	%
20	1	0%
19	353	4%
18	1,326	14%
17	2,866	31%
16	4,386	47%
15	331	4%

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr

- 5.13 Mae set ddata gwybodaeth reoli'r Contractwyr yn gofyn am gofnodi hyd y diweithdra ar adeg cofrestru ar raglen TSC+. Roedd ychydig dros hanner y cyfranogwyr (53 y cant, 4,849/9,117) wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor byr (sef yn NEET am lai na chwe mis), gyda 47 y cant wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor hir (NEET am fwy na chwe mis). Mae patrwm clir yn nosbarthiad hyd diweithdra yn ôl oedran, yn gysylltiedig â'r ffaith bod pobl ifanc yn cael eu dynodi gyntaf yn NEET (os ydynt yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar [ac eithrio myfyrwyr]) o 16 oed. Er enghraifft, disgrifiwyd 60 y cant (2,640/4,375) o gyfranogwyr 16 oed ar adeg cofrestru i fod yn ddi-waith tymor byr, o gymharu â 43 y cant (559/1,310) o'r rhai 18 oed ar adeg cofrestru.

5.14 O'u dadansoddi yn ôl blwyddyn cofrestru, roedd y rhai a oedd wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor hir ar adeg cofrestru wedi cynyddu dros amser. Yn 2023 roedd 50 y cant o'r rhai a gofrestrodd wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor hir ar adeg cofrestru, o gymharu â 44 y cant o'r rhai a gofrestrodd yn ystod 2022.


Tabl 5.3: Statws adeg cofrestru fesul darparwr

Statws	Hyfforddiant GLIM	ACT	Coleg Sir Benfro	Itec	Coleg Cambria
Yn ddi-waith tymor byr	46.0%	56.0%	81.4%	37.7%	70.8%
Yn ddi-waith tymor hir	54.0%	43.9%	18.6%	62.3%	29.2%

Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr

5.15 Roedd Contractwyr hefyd wedi cofnodi'r oedran y gadawodd y cyfranogwyr yr ysgol a hyn yn dangos bod traean y cyfranogwyr wedi gadael yr ysgol yn 15 oed neu'n gynharach, gyda phedwar y cant wedi gadael yr ysgol erbyn eu bod yn 14 oed. Gyda'i gilydd, mae'r data hwn yn dangos bod tua hanner y cyfranogwyr wedi bod allan o addysg am gyfnod sylweddol o amser.

Ffigur 5.3: Yr oedran yr oedd cyfranogwyr TSC+ wedi gadael yr ysgol – Ebrill 2022–Hydref 2023



Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr (N=8,857)

Lleoliad daearyddol

5.16 Yn Nhabl 5.4 isod, dangosir nifer y rhaglenni dysgu a ddechreuwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022–23 fesul rhanbarth.

Tabl 5.4: Nifer y cofrestriadau yn ôl rhanbarth – Ebrill 2022–Mawrth 2023


Rhanbarth cartref	Cofrestriadau (rhaglenni dysgu)		Cyfran y targed ³⁵		Poblogaeth 16–19 oed	
	N	%	%	%		
Y Gogledd	640	12%	12%	20%		
Canol y De	1,605	30%	38%	33%		
Y De-ddwyrain	1,325	25%	29%	17%		
Y De-orllewin a'r Canolbarth	1,760	33%	25%	29%		

Ffynhonnell: Ystadegau'r rhaglen gyfan, Llywodraeth Cymru; data am y boblogaeth o Gyfrifiad 2021

- 5.17 Yn Ffigur 5.4 isod, cyflwynir lleoliad daearyddol cyfranogwyr TSC+ fesul awdurdod lleol yn ôl gwybodaeth reoli'r Contractwyr fel cyfran o gyfanswm y cyfranogwyr ledled Cymru. Yna caiff y data ei gymharu â nifer cyfrannol yr holl bobl ifanc 16–19 oed sy'n byw yng Nghymru.
- 5.18 Dengys y dadansoddiad mai pobl ifanc Caerdydd sy'n cyfrif am y canran fwyaf o holl gyfranogwyr TSC+, gan gyfrif am 11.5 y cant. Fodd bynnag, o gymharu â chyfran y boblogaeth 16–19 oed yng Nghymru, mae'r rhai o'r oedran hwnnw o Gaerdydd, Sir y Fflint, Powys, Gwynedd, a Wrecsam wedi'u tangynrychioli (o gymharu â'u cyfran o'r grŵp oedran 16-19) ymhlith y rhai a ymgysylltwyd gan TSC+. I'r gwrthwyneb, mae preswylwyr Torfaen, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, a Merthyr Tudful wedi'u gorgynrychioli ymhlith holl gyfranogwyr TSC+ o gymharu â chyfran y boblogaeth 16–19 oed. Mae gor-gynrychiolaeth y rheiny sy'n byw yn Nhorfaen yn arbennig o amlwg, gyda phobl ifanc 16–19 oed sy'n byw yno yn cynrychioli 7.5 y cant o gyfranogwyr rhaglen TSC+ ond eto'n cynrychioli dim ond 2.8 y cant o gyfanswm y boblogaeth o bobl ifanc 16–19 oed yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae'r rhai sy'n byw ym Mhowys yn cyfrif am 1.2 y cant o gyfranogwyr TSC+, ac eto mae cyfanswm y boblogaeth ymhlith pobl ifanc 16–19 oed yn cynrychioli 3.6 y cant o'r garfan oedran honno ledled Cymru. O gymharu'r dadansoddiadau cyfrannol, amcangyfrifir bod person ifanc 16-19 oed yn Nhorfaen ychydig o dan wyth gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru yn TSC+ nag yw un sy'n byw ym Mhowys.

³⁵ O Adran A9, Dogfen Manyleb rhaglen TSC+.

Ffigur 5.4: Canran cyfranogwyr TSC+ a phoblogaeth pobl ifanc 16-19 oed fesul awdurdod lleol – Ebrill 2022–Hydref 2023



Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr

Cymorth TSC

5.19 O blith y cyfranogwyr,³⁶ yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23, roedd 3,195 o gyfranogwyr wedi cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu, sef 60 y cant o'r holl rai a ddechreuodd. Pan gaiff data mwy diweddar ei gynnwys (hyd at Hydref 2023) mae'r ffigur hwnnw'n cynyddu i ddwy ran o dair (65 y cant) wedi'u cofrestru yn llinyn Ymgysylltu TSC+, tra bod ychydig dros draean (34 y cant) wedi'u cofrestru yn y llinyn Datblygu. Roedd un y cant o'r cyfranogwyr wedi'u cofrestru yn llinyn Cyflogaeth rhaglen TSC+ (hyd at Hydref 2023). Mae proffil cofrestru'r llinynnau fesul Contractwr yn amrywio rhywfaint, gyda 57 y cant o'r rhai a gofrestrwyd gan ACT

³⁶ Ac eithrio data Coleg Cambria.

wedi cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu o gymharu â 78 y cant o'r rhai a gofrestrwyd gan Itec.³⁷ Adlewyrchwyd yr amrywiadau hynny yn y gyfran a oedd wedi cofrestru yn y llinyn Datblygu, gydag ychydig iawn o wahaniaeth yn nifer y cyfranogwyr a oedd wedi cofrestru yn llinyn Cyflogaeth y rhaglen fesul Contractwr.


Gweithgareddau dysgu

- 5.20 Gall pob cyfranogwr gofrestru ar gyfer sawl gweithgaredd dysgu, ac mae dadansoddiad o ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen gyfan yn dangos bod pob dysgwr ar gyfartaledd ym mlwyddyn ariannol 2022/23 wedi cofrestru ar ychydig dros ddau weithgaredd. Mae cyfranogwyr yn gadael neu'n trosglwyddo o tua un o bob chwe gweithgaredd (yn hytrach na'u cwblhau) (a hyn yn cynyddu i fwy nag un o bob tri ar gyfer cyfranogwyr darpariaeth GLIM).
- 5.21 Mae Ffigur 5.5 isod yn cyflwyno'r math o weithgarwch a gyflawnwyd gan gyfranogwyr TSC+ yn seiliedig ar nifer y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022–23. Er mai ychydig o gyfranogwyr sy'n cofrestru ar llinyn Cyflogaeth y rhaglen, mae'r data'n dangos mai gweithgarwch chwilio am swydd yw'r ddarpariaeth ddysgu a gynhelir amlaf, ac yn agos wedyn ceir gweithgareddau dysgu sy'n arwain at gymhwyster a darpariaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles personol unigolyn.
- 5.22 Yn ôl datganiad ystadegol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod, o'r 11,675 o weithgareddau dysgu a gofnodwyd yn 2022–23, roedd 3,195 (27 y cant) ohonynt yn gysylltiedig â chymwysterau a reoleiddir sydd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata [Cymwysterau yng Nghymru](#). Y tri chymhwyster uchaf oedd:
- Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel Mynediad City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)
 - Tystysgrif Lefel 1 ETCAL mewn Cyflwyniad i Baratoi ar gyfer Gwasanaeth Milwrol
 - Dyfarniad Lefel 1 City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd.³⁸

³⁷ Ibid.

³⁸ [Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2022 i Mawrth 2023](#).

Ffigur 5.5: Canran gweithgareddau dysgu TSC+ sy'n weithredol, yn ôl disgrifydd, blwyddyn ariannol 2022-23³⁹



Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru; Sylfaen= 11,675

Darpariaeth Gymraeg

5.23 Nododd y dadansoddiad o broffil y cyfranogwyr yn gynharach yn yr adran hon fod 18 y cant o gyfranogwyr wedi'u cofnodi'n siaradwyr Cymraeg, gydag wyth y cant yn rhugl. Mae Tabl 5.6 isod yn dangos bod ychydig dros 11 y cant o weithgareddau dysgu wedi cynnwys darpariaeth Gymraeg, tra bod bron i 15 y cant o weithgareddau sy'n gysylltiedig â chymwysterau wedi cynnwys darpariaeth Gymraeg.

³⁹ Dylid nodi nad oedd unrhyw ddisgrifydd wedi'i gofnodi ar gyfer 23 y cant (2,685/11,675) o'r gweithgareddau dysgu.

Tabl 5.5: Cyfrwng (iaith) cynnal gweithgareddau dysgu TSC+


Cyfrwng y ddarpariaeth	% y gweithgareddau dysgu gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol (2022–23)	% y cymwysterau gweithredol yn ystod y flwyddyn ariannol (2022–23)
Saesneg yn unig	88.8%	85.4%
Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg	10.2%	13.1%
Llawer iawn o ddysgu cyfrwng Cymraeg	0.6%	0.9%
Dwyieithog	0.3%	0.5%
Cymraeg yn unig	-	0.0%
Cyfanswm (n)	11,675	3,195

Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru

Hyd y cymorth

5.24 Mae'r siart isod yn rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth i ni o ddwyyster y cymorth y mae cyfranogwyr yn ei gael trwy ddadansoddi nifer yr oriau dysgu mewn canolfan fesul cyfranogwr ar gyfer eu holl amser yn y rhaglen ers cofrestru, hyd at Hydref 2023. Data ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau'r rhaglen yn unig a gyflwynir yn y siart (sef y rheiny a gofnodwyd i fod â dyddiad gadael yng ngwybodaeth reoli'r Contractwyr, ac eithrio'r rheiny a gofrestrodd ym mis Ebrill 2022 ac, felly, yn debygol o fod wedi trosglwyddo ran o'r ffordd trwy eu taith o'r rhaglen Hyfforddeiaethau). Nifer cyfartalog cymedrig oriau dysgu mewn canolfan ar gyfer y garfan hon yw 339 awr, tra bod ychydig llai na chwarter (23 y cant) wedi cael dros 500 o oriau dysgu yn rhoi cymorth iddynt mewn canolfan.

Ffigur 5.6: Oriau dysgu gwirioneddol mewn canolfan (cyfanswm) ar gyfer y cyfranogwyr hynny oedd â dyddiad gorffen ac a gofrestrodd rhwng Mai 2022 a Hydref 2023



Ffynhonnell: Data gwybodaeth reoli'r Contractwyr (N=4,543)

Cyfraddau cwblhau

- 5.25 Cyfeirir at ymgysylltiad pob cyfranogwr yn TSC+ fel gweithgarwch 'rhaglen ddysgu', gan fod cyfranogwr yn ymuno â rhaglen ddysgu ac/neu ddatblygu. Mae'r ymadrodd 'rhaglenni wedi gorffen' yn cynnwys y rhai na wnaethant gwblhau neu ddiweddu cyfres gynlluniedig o weithgareddau, cyrsiau neu brofiadau. Caiff y gyfran na chwblhaodd eu cyfrif o nifer y gweithgareddau, cyrsiau neu brofiadau a orffennodd minws nifer y gweithgareddau, cyrsiau neu brofiadau a gwblhawyd. Felly, mae cwblhau yn cyfeirio at y cyfranogwyr hynny sy'n gorffen/cwblhau cyfres o gyrsiau neu ymyriadau i gyflawni nod penodol. Mae'r rhain yn unigol i anghenion y person ifanc.
- 5.26 Mae cyfraddau cwblhau (canran y gweithgareddau, cyrsiau neu brofiadau a ddaeth i ben ac sydd wedi'u nodi i fod yn rhai a gwblhawyd) yn dangos mymryn o amrywio fesul rhanbarth. Ymhlith y rhai sy'n datgan anhawster dysgu neu anabledd, mae cyfraddau cwblhau ychydig yn is (59 y cant) nag ar draws yr holl gyfranogwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 (66 y cant) ac yn benodol ar gyfer y rhai sy'n adrodd am anhawster dysgu (57 y cant).

Tabl 5.6: Cyfradd cwblhau yn ôl nodweddion

Categori/nodwedd	Gweithgareddau, cyrsiau a phrofiadau			
	Dechrau	Gorffen	Cwblhau	Cyfradd gwblhau
Rhanbarth Cymru				
Y Gogledd	640	425	270	64%
Canol y De	1,605	960	630	66%
De-ddwyrain	1,325	715	465	65%
De-orllewin	1,760	1,115	765	69%
Anhysbys/tu allan i Gymru	5	[c]	[c]	-
Y cyfan	5,330	3,220	2,140	66%
Prif anhawster dysgu neu anabled				
Anabl (yn effeithio ar ddysgu)	605	365	220	60%
AAD – math yn anhysbys	5	0	0	-
Anhawster dysgu	655	385	220	57%
Amherthnasol / ddim yn anabl	4,060	2,470	1,700	69%

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru

Canlyniadau a chyrchfannau

- 5.27 Pennir canlyniadau, ac a ydynt yn ganlyniad cadarnhaol, niwtral neu negyddol, yn ôl cyrchfan y dysgwr o fewn pedair wythnos i adael y rhaglen.
- 5.28 I ddysgwyr yn y llinynnau Ymgysylltu a Datblygu, canlyniad cadarnhaol yw naill symud ymlaen i addysg ar lefel uwch, symud ymlaen i gyflogaeth (llawn amser, rhan-amser neu hunangyflogaeth) neu symud ymlaen i brentisiaeth. I ddysgwyr yn y llinyn Cyflogaeth canlyniad cadarnhaol yw naill ai symud ymlaen i gyflogaeth (llawn amser, rhan-amser [16 awr neu fwy bob wythnos] neu hunangyflogaeth), symud ymlaen i addysg ar lefel uwch, neu symud ymlaen i brentisiaeth.⁴⁰
- 5.29 I ddysgwyr anabl, dosbarthir cyflogaeth am lai na 16 awr yr wythnos hefyd i fod yn ganlyniad cadarnhaol.
- 5.30 Mae achosion o chwilio am waith/yn ddi-waith ac achosion lle na wyddys y cyrchfan o fewn pedair wythnos yn cael eu dosbarthu fel canlyniadau negyddol.
- 5.31 Canlyniadau niwtral yw gwaith gwirfoddol, dysgu pellach ar yr un lefel neu lefel is, cyflogaeth am lai na 16 awr yr wythnos, a'r categori cyrchfannau 'eraill'. Mae dysgwyr sydd â'r canlyniadau hyn yn cael eu heithrio o'r enwadur wrth gyfrifo

⁴⁰ Gweler <https://www.llyw.cymru/ystadegau-twff-swyddi-cymru-ebrill-2022-i-mawrth-2023-html> i gael rhagor o fanylion.

cyfraddau canlyniadau cadarnhaol.⁴¹ Mae pob Contractwr wedi cael targed i sicrhau canlyniadau cyrchfan cadarnhaol ar gyfer o leiaf 60 y cant o'r cyfranogwyr (a 75 y cant o'r cyfranogwyr sydd wedi cofrestru yn llinyn Cyflogaeth y rhaglen).

- 5.32 Dengys canlyniadau yn ystadegau Twf Swyddi Cymru+ (Ebrill 2022–Mawrth 2023) fod cyfanswm o 3,220 o raglenni TSC+ wedi gorffen yn ystod blwyddyn ariannol 2022–23, ac o'r rhain cwblhawyd 2,140 ohonynt (66 y cant). O'r rhaglenni a orffennodd, cafodd 58 y cant o ymadawyr ganlyniad cadarnhaol yn seiliedig ar eu cyrchfan o fewn pedair wythnos i adael y rhaglen, sydd fymryn yn fyr o'r targed.
- 5.33 Wrth archwilio gwybodaeth reoli a ddarparwyd gan Contractwyr ar gyfer yr un cyfnod, nododd y gwerthusiad 3,596 o raglenni TSC+ a oedd hefyd wedi gorffen gyda chyfradd canlyniadau cadarnhaol o 58 y cant.⁴² Mae Tabl 5.7 isod yn dangos patrymau canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau fel y'u cyhoeddwyd yn y datganiad ystadegol gan eu cymharu â data sydd ar gael o wybodaeth reoli'r Contractwyr ar gyfer yr un cyfnod. Mae gwybodaeth reoli'r Contractwyr yn cynnwys meysydd ychwanegol a gafodd eu rhoi ar brawf i archwilio tueddiadau a chymharu grwpiau.
- 5.34 Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar wybodaeth reoli'r Contractwyr. Defnyddiwyd profion chi-sgwâr i gymharu dosbarthiad nodweddiadol y cyfranogwyr oedd â chanlyniadau cadarnhaol (canlyniadau a arsylwyd) a dosbarthiad cyffredinol y cyfranogwyr (canlyniadau disgwylidig). Canfu'r dadansoddiad hwn, ar gyfer rhai nodweddion (oedran, gallu i siarad Cymraeg, y cymhwyster uchaf, a hyd bod yn NEET) fod gwahaniaeth sylweddol rhwng dosbarthiad nodweddiadol yr ymatebwyr sydd â chanlyniadau cadarnhaol a phoblogaeth gyffredinol yr ymatebwyr. Cynhyrchwyd model atchweliad logistaidd hefyd i bennu'r berthynas rhwng nodweddion allweddol a'r tebygolrwydd o gael canlyniad cadarnhaol. Cyfrifwyd cymarebau ods i fesur maint effaith o gymharu â nodwedd waelodlin.
- 5.35 Ar gyfer pob nodwedd isod lle gwelwyd effaith ystadegol arwyddocaol, mae'r sampl fwyaf wedi'i dangos mewn print trwm a'i defnyddio fel y nodwedd waelodlin ar gyfer yr atchweliad logistaidd. Mae gwerthoedd y cymarebau ods yn dangos y

⁴¹ Ibid.

⁴² Mae'r gwahaniaeth yn y data rhwng y wybodaeth reoli ac ystadegau cyhoeddedig TSC+ yn debygol o ymwneud â'r ffaith bod ystadegau cyhoeddedig yn deillio o 'rewi' data gwybodaeth reoli yn fisol, tra bod data gwybodaeth reoli 'byw' yn debygol o fod wedi'u casglu ar adeg ychydig yn wahanol. Gan fod diweddarau ac ychwanegu cofnodion yn digwydd yn gyson, bydd y ddau adeg casglu a dadansoddi data yn y pen draw yn cynhyrchu canlyniadau gwahanol.

tebygolrwydd cymharol o gael canlyniad cadarnhaol o gymharu â'r categori mewn print trwm. Sylwer bod ymatebion anhysbys neu ar goll wedi'u heithrio o'r profion ystadegol.

- 5.36 Yn y ddwy set ddata, cyflawnwyd cyfraddau tebyg o ran canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y rhai a gofrestrwyd yn y llinynnau Ymgysylltu a Datblygu ill dau, tra bod canran uwch o'r rheiny a gofrestrodd yn y llinyn Cyflogaeth wedi cael cyrchfan gadarnhaol.
- 5.37 Wrth ddadansoddi cyfradd y canlyniadau cadarnhaol ymhlith cyfranogwyr anabl, mae'r datganiad ystadegol yn awgrymu eu bod ychydig yn llai tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl gyfranogwyr (58 y cant). Roedd hwn hefyd yn is ar gyfer y rheiny ag ADHD (40 y cant o'r 100 o gyfranogwyr a oedd wedi gorffen y rhaglen) a'r rheiny ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (47 y cant o'r 12 o gyfranogwyr a oedd wedi gorffen y rhaglen), gan sicrhau'r gyfradd dilyniant cadarnhaol isaf.⁴³
- 5.38 Mae'r ddwy set ddata yn dangos bod canrannau'r dynion a'r menywod a sicrhaodd ganlyniadau cadarnhaol yn gymharol debyg ar draws blwyddyn ariannol 2022–23 ac ni welwyd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.
- 5.39 Mae data a ddarparwyd gan Gontractwyr yn nodi po gynharaf y bydd unigolyn yn ymwneud â'r rhaglen, y mwyaf tebygol y maent o sicrhau canlyniad cadarnhaol, gyda 70 y cant o'r rhai 15 oed yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol.
- 5.40 Dengys gwybodaeth reoli'r Contractwyr hefyd fod y rheiny sydd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol a bod y rhai sydd eisoes â chymwysterau uwch hefyd yn fwy tebygol o gael canlyniad o'r fath.
- 5.41 Ymddengys bod hyd y cyfnod y mae person ifanc wedi bod yn NEET wedi dylanwadu ar sicrhau canlyniad cadarnhaol. Yn olaf, roedd dysgwyr a gymerodd ran yn y rhaglen gyda Choleg Sir Benfro yn llawer mwy tebygol o gyflawni canlyniad cadarnhaol na'r cyfranogwyr a oedd yn gweithio gyda Chontractwyr eraill.

⁴³ Data dysgwyr TSC+ yn ôl prif anabledd dysgu – data Ebrill 2022–Mawrth 2023.

Tabl 5.7: Canlyniadau cadarnhaol – Ebrill 2022–Mawrth 2023⁴⁴

Categori/nodwedd	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol – cyhoeddiad ystadegol Ebrill 2022–Mawrth 2023⁴⁵	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol – gwybodaeth reoli'r Contractwyr Ebrill 2022–Mawrth 2023⁴⁶	Gwybodaeth reoli'r Contractwyr (n)
Llinyn⁴⁷			
Llinyn Ymgysylltu	57%	57%	2,111
Llinyn Datblygu	59%	59%	1,168
Llinyn Cyflogaeth	76%	70%	37
Rhyw (≠)			
Dyn	59%	59%	1,768
Menyw	57%	57%	1,517
Arall	-	64%	14
Oedran adeg cofrestru			
15	-	70%(*)	99
16	-	57%	1,264
17	-	56%	1,179
18	-	62%	586
19	-	61%	187
Ethnigrwydd			
Gwyn	58%	58%	3,062
Du	61%	56%	42
Asiaidd	55%	46%	38
Cymysg	55%	50%	50
Arall	43%	44%	57

⁴⁴ Mae'r symbolau mewn cromfachau yn y tabl yn dynodi arwyddocâd ystadegol fel a ganlyn: ≠ = dim perthynas ystadegol arwyddocaol wedi'i nodi, * = arwyddocaol yn ystadegol i <5% i >1%, ** = arwyddocaol i <1% i >0.1%, *** = arwyddocaol i <0.1%.

⁴⁵ Yn eithrio canlyniadau niwtral.

⁴⁶ Yn eithrio canlyniadau niwtral.

⁴⁷ Ni chynhaliwyd unrhyw brofion ystadegol fesul llinyn, gan fod disgwyl y byddai nifer yr achosion o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer y carfannau hyn yn amrywio.

Categori/nodwedd	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol – cyhoeddiad ystadegol Ebrill 2022–Mawrth 2023⁴⁸	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol – gwybodaeth reoli'r Contractwyr Ebrill 2022–Mawrth 2023⁴⁹	Gwybodaeth reoli'r Contractwyr (n)
Yn ôl gallu siarad Cymraeg (***)			
Yn rhugl	-	59%(*)	264
Ddim yn rhugl	-	69%(***)	299
Ddim yn siarad Cymraeg	-	57%	2,753
Yn ôl cymhwyster uchaf (***)			
Lefel cyn mynediad	-	53%(***)	936
Lefel mynediad	-	54%	173
Lefel 1	-	55%(***)	850
Lefel 2	-	64%	1,331
Lefel 3	-	67%	24
Anabledd			
Dysgwyr ag anabledd ac/neu anhawster dysgu	-	53%	
Dysgwyr heb anabledd ac/neu anhawster dysgu	-	60%	
Hyd bod yn NEET (***)			
Llai na 6 mis	-	58%	1,027
6 mis neu fwy	-	50%(***)	803
Prif ofalwr (≠)			
Prif ofalwr	-	58%	128
Dim cyfrifoldebau gofalu	-	58%	3,161
Gweithiwr mudol (≠)			
Gweithiwr mudol/ffoadur	-	61%	21
Ddim yn weithiwr mudol/ffoadur	-	58%	3,169
Contractwr (***)			
Coleg Sir Benfro	-	79%(***)	379
ITEC	-	59%	836
GLIM	-	42%(***)	190
ACT	-	55%	1,911
Coleg Cambria	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol


Ffynhonnell: Ystadegau swyddogol Llywodraeth Cymru o Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2022 i Mawrth 2023; Gwybodaeth reoli'r Contractwyr

⁴⁸ Yn eithrio canlyniadau niwtral.

⁴⁹ Yn eithrio canlyniadau niwtral.

5.42 Mae Ffigur 5.7 isod yn dadansoddi cyfradd y canlyniadau cadarnhaol ymhlith y rhai a gwblhaodd y rhaglen yn ôl daearyddiaeth. Dengys y siart amrywiad mawr mewn llwyddiant, gyda 90 y cant o'r rhai sy'n byw yn Sir y Fflint yn sicrhau canlyniad cadarnhaol o gymharu â 27 y cant o'r rheiny ym Mlaenau Gwent.

Ffigur 5.7: Canran y cyfranogwyr a gwblhaodd raglen TSC+ a sicrhaodd ganlyniadau cadarnhaol yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022–Mawrth 2023




Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli'r contractwyr

5.43 Mae dadansoddiad dilynol o ddata perfformiad sydd gan Contractwyr y tu hwnt i fis Mawrth 2023, gan ganolbwyntio ar berfformiad o Ebrill 2022 i Hydref 2023, yn nodi cynnydd traws-rhaglen yn y canlyniadau cadarnhaol wrth iddo godi i 61 y cant (3,452/5,687) a dangosir hyn ymhellach yn y dadansoddiad o'r data perfformiad cyhoeddus yn Ffigur 5.8 isod. Er bod gostyngiad mewn canlyniadau cadarnhaol yn chwarter Ebrill–Mehefin 2023 i 46 y cant, dengys y siart bod uchafbwynt newydd o 68 y cant o ganlyniadau cadarnhaol wedi'i gyrraedd yn chwarter Gorffennaf–Medi. Yn yr un modd, roedd cyfran y cyfranogwyr a orffennodd eu rhaglen ddysgu ac wedi

cwblhau'r rhaglen wedi cyrraedd 76 y cant, sy'n cyfateb i'r perfformiad dros yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

- 5.44 Gyda'i gilydd, awgryma'r data y gall fod tueddiadau yn nata perfformiad y rhaglen, gydag uchafbwynt mewn perfformiad yn chwarter Gorffennaf-Medi ond isafbwynt yn y perfformiad yn y chwarter Ebrill-Mehefin blaenorol; fodd bynnag, mae angen pwyntiau data ychwanegol cyn y gellir profi unrhyw duedd.

Ffigur 5.8: Dadansoddiad o ddata perfformiad cyhoeddus fesul chwarter – Ebrill 2022–Medi 2023⁵⁰



Ffynhonnell: [Data perfformio TSC+](#) Llywodraeth Cymru

- 5.45 Mae Tabl 5.8 drosodd yn dadansoddi gwybodaeth reoli'r contractwyr ar ganlyniadau cadarnhaol gan ddefnyddio'r dull a nodir yn y mesurau perfformiad cyhoeddus ar gyfer TSC+. ⁵¹
- 5.46 Er nad oes unrhyw wahaniaeth mewn canlyniadau cadarnhaol rhwng dynion a menywod, mae'r tabl hefyd yn dangos bod 52 y cant o'r rhai sy'n nodi eu bod yn 'arall' wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol ar ôl cwblhau'r rhaglen, er ei bod yn bwysig nodi bod maint y sampl yn llawer llai ar gyfer y grŵp hwn, ac nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

⁵⁰ Amcangyfrifir data Ionawr–Mawrth 2023 oherwydd nid oes datganiadau chwarterol wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr ystod dyddiadau hwnnw (cyhoeddwyd datganiad blynyddol yn lle hynny). Cynhyrchwyd amcangyfrifon trwy dynnu swm y tri chwarter blaenorol o ddata'r datganiad ystadegol blynyddol.

⁵¹ Caiff dysgwyr sydd â chanlyniadau niwtral eu heithrio o'r enwadur wrth gyfrifo cyfraddau canlyniadau cadarnhaol.

- 5.47 Mae'r data hefyd yn nodi po gynharaf y bydd unigolyn yn cymryd rhan yn y rhaglen, y mwyaf tebygol y maent o sicrhau canlyniad cadarnhaol, gyda 75 y cant o'r rhai 15 oed a 63 y cant o'r rhai 16 oed yn cael canlyniadau cadarnhaol. Mae'r amrywio mewn canlyniadau cadarnhaol yn ôl oedran yn ystadegol arwyddocaol.
- 5.48 Mae'r data mwy diweddar ar ganlyniadau cadarnhaol yn ôl ethnigrwydd yn cyflwyno darlun cymysg o ran perfformiad, gyda 68 y cant o'r rhai a nododd eu bod o darddiad ethnig Du yn sicrhau canlyniad cadarnhaol o gymharu â 53 y cant o'r rhai a nododd eu bod o darddiad ethnig Asiaidd. Nid yw'r un o'r amrywiadau mewn perfformiad, fodd bynnag, yn cael eu hystyried yn ystadegol arwyddocaol.
- 5.49 Roedd y rheiny sydd â gallu yn y Gymraeg yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol a'r rheiny a oedd eisoes â chymwysterau uwch hefyd yn fwy tebygol o gael canlyniad o'r fath. Mae'r amrywiad hwn yn ystadegol arwyddocaol.
- 5.50 Ymddengys bod hyd y cyfnod y bu person ifanc yn ddi-waith wedi cael dylanwad bach (ond nid yn ystadegol arwyddocaol) ar y canlyniadau cadarnhaol, ac roedd y rhai a nododd eu bod yn weithiwr mudol neu'n ffoadur ychydig yn llai tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r cyfartaledd.

Tabl 5.8: Canlyniadau cadarnhaol – Ebrill 2022–Hydref 2023⁵²

Categori/nodweddion	Nifer y dysgwyr lle mae'r rhaglen wedi gorffen ⁵³	Canran a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol ⁵⁴
Yn ôl llinyn		
Llinyn Ymgysylltu	3,818	62%
Llinyn Datblygu	1,818	58%
Llinyn Cyflogaeth	51	67%
Rhyw (≠)		
Dyn	3,014	61%
Menyw	2,626	61%
Arall	25	52%
Yn ôl oedran adeg cofrestru (***)		
15	228	75% (***)
16	2,565	63%
17	1,758	57% (**)
18	892	60%

⁵² Mae'r symbolau mewn cromfachau yn y tabl yn dynodi arwyddocâd ystadegol fel a ganlyn: ≠ = dim perthynas ystadegol arwyddocaol wedi'i nodi, * = arwyddocaol yn ystadegol i <5% i >1%, ** = arwyddocaol i <1% i >0.1%, *** = arwyddocaol i <0.1%.

⁵³ Yn cynnwys y rheiny a gafodd ganlyniad niwtral.

⁵⁴ Yn eithrio canlyniadau niwtral.

Categori/nodweddion	Nifer y dysgwyr lle mae'r rhaglen wedi gorffen ⁵³	Canran a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol ⁵⁴
19	243	60%
Yn ôl ethnigrwydd (≠)		
Gwyn	5,213	61%
Du	92	68%
Asiaidd	83	53%
Cymysg	197	62%
Arall	106	45%
Anhysbys/gwrthod	86	71%
Yn ôl gallu siarad Cymraeg (***)		
Yn rhugl	471	64%(*)
Ddim yn rhugl	593	68%(***)
Ddim yn siarad Cymraeg	4,623	59%
Yn ôl cymhwyster uchaf (***)		
Lefel cyn mynediad	1,814	59%(***)
Lefel Mynediad	284	59%(*)
Lefel 1	1,310	56%(***)
Lefel 2	2,206	65%
Lefel 3	70	64%
Hyd bod yn NEET (≠)		
Llai na 6 mis	2,960	63%
6 mis neu fwy	2,628	58%
Prif ofalwr (≠)		
Prif ofalwr	191	61%
Dim cyfrifoldebau gofalu	5,460	61%
Gweithiwr mudol (≠)		
Gweithiwr mudol/ffoadur	47	57%
Ddim yn weithiwr mudol/ffoadur	5,499	61%
Contractwr (***)		
Coleg Sir Benfro	585	76%(***)
ITEC	1,600	63%
ACT	3,175	58%
GLIM	344	48%(***)
Coleg Cambria	amherthnasol	amherthnasol

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli'r contractwyr

Crynodeb o'r Adran

- Gwelir tueddiadau misol yn nifer y cyfranogwyr sy'n cofrestru ar raglen TSC+. Ymddengys bod dau uchafbwynt ym mis Gorffennaf a Hydref o ran y niferoedd sy'n cofrestru, gyda'r cynnydd sydyn ym mis Gorffennaf 2023 yn arbennig o amlwg.
- Er bod llwyth achosion cyfranogwyr TSC+ wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod 15 mis cyntaf y rhaglen, mae'r niferoedd wedi cynyddu ers yr uchafbwynt sydyn yn nifer y cofrestriadau a gafwyd ym mis Gorffennaf 2023.
- Amcangyfrifir bod TSC+, dros gyfnod o 12 mis, yn ymgysylltu â thua thraean o'r holl bobl ifanc NEET (16–18 oed) yng Nghymru.⁵⁵
- Mae amrywiad daearyddol eang yn y recriwtio i TSC+ o gymharu â'r boblogaeth 16-19 oed ar draws awdurdodau lleol. Amcangyfrifir bod person ifanc 16-19 oed sy'n byw yn Nhorfaen naw gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru ar y rhaglen nag yw un sy'n byw yn Sir y Fflint.
- Mae cyfranogiad yn TSC+ yn cael ei ddominyddu gan y rhai sydd wedi cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu, ac awgryma'r data diweddaraf bod bron i ddau draean (65 y cant) wedi cofrestru yn y llinyn hwnnw, gyda 34 y cant yn y llinyn Datblygu ac un y cant yn y llinyn Cyflogaeth.
- Ym mlwyddyn ariannol Ebrill 2022-Mawrth 2023 roedd y rhaglen ychydig yn is na'r targed, gan sicrhau cyfradd canlyniadau cadarnhaol o 58 y cant. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o chwarter diweddaraf y data cyhoeddedig (Gorffennaf – Medi 2023) yn dangos y gyfradd uchaf o ganlyniadau cadarnhaol (68 y cant) ers lansio'r rhaglen, sy'n rhagori ar y targed gwreiddiol.
- Mae gwybodaeth reoli yn dangos bod y rheiny sydd wedi cofrestru â Choleg Sir Benfro, y rheiny sy'n iau (yn benodol yn 15 oed), yn siarad Cymraeg, a'r rhai sydd eisoes â chymwysterau uwch (Lefel 2 neu Lefel 3) yn fwy tebygol o sicrhau canlyniadau cadarnhaol na chyfartaledd y garfan gymwys.
- Gwelir amrywiad daearyddol yn y recriwtio hefyd o ran canlyniadau cadarnhaol, gyda'r rhai sydd wedi cofrestru yn Sir y Fflint ddwywaith yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r rhai sydd wedi cofrestru yng Ngwynedd.

⁵⁵ Ac eithrio data Coleg Cambria.

6. Barn am y Model Cyflenwi

- 6.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r gweithredu a wneir ym mhob cam o TSC+, gan gynnwys atgyfeirio, cyn ymgysylltu, asesu, a darparu gwasanaeth. Rydym yn trafod safbwyntiau pob grŵp rhanddeiliaid, gan nodi cryfderau, heriau, a meysydd posibl ar gyfer gwella.

Hyrwyddo ac ymgysylltu

- 6.2 Nod ymgyrchoedd hyrwyddo TSC+ yw cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am y rhaglen. Targedwyd mwyafrif y deunyddiau marchnata at bobl ifanc. Soniodd un rhanddeiliad am ymgyrch ychwanegol a oedd yn ceisio annog cyfranogiad cyflogwyr yn y llinyn Cyflogaeth. Roedd enghreifftiau o ddulliau a rennir gan rhanddeiliaid yn cynnwys taflenni, hysbysebu ar fysiau, a chynnal sesiynau yn y cnawd mewn ysgolion. Yn yr ymatebion i gyfweiliadau awgrymwyd bod dulliau marchnata wedi bod yn llwyddiannus hyd yma, tra bod profion brand a gynhaliwyd gan asiantaeth ymgyrchu TSC+, Golley Slater, yn dangos lefelau rhyngweithio ac ymgysylltu uwch na'r cyffredin â'r brandio. Ymhellach, derbyniodd Golley Slater wobwr arian gan y Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus (CIPR) am yr ymgyrch, gan gydnabod bod ei heffaith ar godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen wedi cynyddu dros amser.⁵⁶
- 6.3 Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylai Contractwyr gynnal rhagor o sesiynau hyrwyddo mewn ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen. Teimlai un fod angen cael gwared ar y stigma mewn ysgolion sy'n gysylltiedig â chynlluniau dysgu seiliedig ar waith, a hynny ymhlith myfyrwyr yn ogystal â staff addysgu. Gallai gweithgareddau hyrwyddo mewn ysgolion wella argraffiadau am y rhaglen a lleihau unrhyw gysylltiadau negyddol a allai atal dysgwyr.
- 6.4 Gwelwyd bod clywed gan bobl eraill yn ffactor pwerus wrth annog pobl ifanc i gymryd rhan yn TSC+. Ymhlith y dysgwyr, daeth 50 y cant (74/149) o'r rhai a holwyd i wybod am TSC+ drwy rywun yn sôn amdano. Cafodd 37 y cant eu hatgyfeirio at TSC+ gan sefydliad, sy'n awgrymu bod sefydliadau eraill yn chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo'r rhaglen i bobl ifanc. Roedd ffynonellau eraill i ddod i wybod am y rhaglen a grybwyllwyd gan lai na phump y cant o ymatebwyr yn

⁵⁶ Nodiadau gan Dîm Cyfathrebu Llywodraeth Cymru.

cynnwys trwy'r ysgol/ coleg, gwasanaethau cymdeithasol, taflenni, neu ddarganfod y gwasanaeth ar-lein.

- 6.5 Roedd y Grŵp Cynghori ar Ymchwil o'r farn bod y deunyddiau marchnata yn arbennig o gynhwysol o ran amrywiaeth a theimlai fod y deunyddiau'n rhoi ymdeimlad clir bod y rhaglen yn cynnig ffordd i ennill sgiliau a hyder. Barn unfrydol y grŵp oedd mai'r fideos a'r wefan oedd y cynnwys mwyaf deniadol, gan ffafrio'r math hwnnw o gynnwys yn hytrach na thafleini a lluniau llonydd Instagram.
- 6.6 Gwnaed rhai awgrymiadau gan y Grŵp Cynghori ar Ymchwil ynghylch gwelliannau i ddeunyddiau hyrwyddo. Teimlwyd y gallai manteision hirdymor y rhaglen gael eu mynegi'n gliriach a bod peth o'r testun mewn ffilm fideo wedi sgrolio'n rhy gyflym. Yn ogystal, teimlwyd y gellid defnyddio sianeli mwy amrywiol ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys YouTube Shorts a TikTok, gan y teimlwyd mai dyma rai o'r dulliau mwyaf poblogaidd o ddefnyddio'r cyfryngau ymhlith pobl ifanc.

Atgyfeiriadau

- 6.7 Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae gan TSC+ ddau brif lwybr atgyfeirio (fe'u trafodir ymhellach yn yr adran hon): sef atgyfeiriadau drwy Cymru'n Gweithio ac atgyfeirio uniongyrchol. Mae llwybr atgyfeirio Cymru'n Gweithio wedi bod ar waith ers dechrau TSC+, ond teimlai rhanddeiliaid fod y dull cychwynnol hwn, nad oedd yn caniatáu atgyfeirio uniongyrchol gan gyfranogwyr, wedi esgor ar niferoedd atgyfeirio isel. O ganlyniad, cyflwynwyd y llwybr atgyfeirio uniongyrchol. Credai'r staff fod y newid hwn wedi arwain at gynnydd amlwg mewn atgyfeiriadau. Dywedodd staff Awdurdodau Lleol hefyd eu bod wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau pan oedd Contractwyr wedi dechrau darparu gwasanaethau mewn ardaloedd newydd, ac wrth i ymwybyddiaeth gyffredinol o'r rhaglen gynyddu dros amser.
- 6.8 Roedd rôl Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) mewn atgyfeiriadau yn amrywio'n ddaearyddol ac yn dibynnu i raddau helaeth ar gysylltiadau a pherthynas unigol. Dywedodd un Contractwr nad oedd wedi derbyn unrhyw atgyfeiriadau drwy'r Cydlynwyr, ac awgrymodd fod hyn oherwydd bod y Cydlynwyr yn gweithio gyda phobl sy'n arbennig o 'anodd eu cyrraedd' ac, felly, yn llai tebygol o ymgysylltu â TSC+.
- 6.9 Nododd rhai rhanddeiliaid fod y bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio i'r rhaglen drwy Cymru'n Gweithio yn elwa o dderbyn cyngor ac arweiniad diduedd er mwyn sicrhau

eu bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch pa wasanaeth i'w ddefnyddio. Mantais ychwanegol bod pobl ifanc yn cael cyngor diduedd ar wasanaethau gan staff Contractwyr yw y gall helpu i recriwtio'r bobl ifanc 'anoddaf eu cyrraedd' a all fod yn amharod i ymgysylltu â staff y maent yn eu hystyried yn gynrychiolwyr ysgol (gan gynnwys y rhai o Cymru'n Gweithio a staff eraill Gyrfa Cymru) ac, felly, gallant fod yn osgoi'r rhaglen yn sgil ei chysylltu â'r ysgol nad ydynt wedi bod yn ei mynychu. Nid awgrymodd unrhyw randdeiliaid fod unrhyw Gontractwyr wedi derbyn atgyfeiriadau uniongyrchol amhriodol, ond roedd yr holl randdeiliaid o'r farn bod cynnwys cynghorydd annibynnol, a oedd yn cael ei ystyried gan bobl ifanc yn 'wahanol' ac yn annibynnol ar yr ysgolion lle'r oeddent yn fyfyrwyr, yn cynyddu tryloywder, yn hyrwyddo buddiannau gorau pobl ifanc drwy eu hannog i rannu eu hamgylchiadau yn rhydd, ac yn lleihau'r achlysuron lle roedd atgyfeiriadau wedi gosod pobl ifanc yn y llinyn cymorth TSC+ anghywir.

- 6.10 Tueddai atgyfeiriadau trwy Cymru'n Gweithio hefyd i roi gwybodaeth fanwl i Gontractwyr i'w helpu i deilwra eu cymorth, wedi'i chasglu drwy asesiad yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio. Dywedodd nifer o randdeiliaid fod dysgwyr yn fwy tebygol o ddatgelu gwybodaeth am eu hanghenion os oeddent wedi cwblhau'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio llawn. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth well i Gontractwyr ar sut i gefnogi pob dysgwr unigol i lwyddo.

'Byddwn i'n dweud, trwy broses atgyfeirio Cymru'n Gweithio, eu bod nhw'n gallu treiddio'n ddyfnach i'w rhwystrau ac i'w profiadau neu sefyllfaoedd bywyd, eu bywyd cartref.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)

Atgyfeirio uniongyrchol

- 6.11 Roedd y mwyafrif helaeth o Gontractwyr TSC+ o'r farn fod cyflwyno atgyfeiriadau uniongyrchol yn ddefnyddiol, yn bennaf gan y teimlwyd bod hyn wedi cynyddu'n sylweddol nifer y bobl ifanc sy'n dod at y gwasanaeth. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru bod atgyfeiriadau uniongyrchol hefyd wedi cynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod at TSC+ o grwpiau 'anodd eu cyrraedd'. Teimlai rhanddeiliaid fod atgyfeiriadau uniongyrchol o'r fath yn rhoi llwybr symlach a chyflymach i ddarpar gyfranogwyr i'r rhaglen, gan leihau'r risg o ymddieithrio'n gynnar. I'r gwrthwyneb, teimlwyd bod diffyg llwybr atgyfeirio uniongyrchol ar y dechrau un o bosibl wedi creu rhwystr i ddarpar ddysgwyr oherwydd bod yn rhaid iddynt gael eu hailgyfeirio i Cymru'n Gweithio cyn cael mynd at TSC+. Nid oes data ar gael ynghylch a aeth y bobl hyn ymlaen i gael

mynediad i TSC+, ond roedd llawer o randdeiliaid yn pryderu y byddai pobl ifanc yn cael eu dieithrio gan y cam ychwanegol. Roedd caniatáu atgyfeiriadau uniongyrchol (gan gynnwys y rhai gan y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd) wedi dileu'r rhwystr hwn. Ar ben hynny, mae'n hybu pobl ifanc i fynd ati eu hunain i allu gweithredu drwy gydnabod eu gallu i ddewis y gwasanaeth cywir ar eu cyfer eu hunain heb fod angen cymorth proffesiynol.

- 6.12 Fodd bynnag, mae cyfyngiadau i'r llwybr atgyfeirio uniongyrchol, gan gynnwys y diffyg gwybodaeth gefndir i ddysgwyr a Chontractwyr. Yn ôl rhanddeiliaid, nid oedd gan rai dysgwyr a atgyfeiriwyd yn uniongyrchol ddealltwriaeth iawn o TSC+. Nid oedd gan Gontractwyr ychwaith wybodaeth gefndir am y dysgwyr hyn oherwydd casglu gwybodaeth anghyflawn trwy'r gwaith asesu anghenion a wnaed drwy atgyfeiriadau uniongyrchol. Er eu bod yn seiliedig ar y ddogfen Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, nid oedd yr asesiadau hyn bob amser yn cael eu cymhwyso'n llwyr ym mhob achos. O ganlyniad, roedd y diffyg gwybodaeth i Gontractwyr ac am gyfranogwyr weithiau'n ei gwneud yn anodd i Gontractwyr sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n briodol (a'u pennu'n briodol i'r llinyn priodol) gan Cymru'n Gweithio a Chontractwyr, ac iddynt osod nodau cyraeddadwy.
- 6.13 Cododd rhanddeiliaid rai meysydd posibl i'w gwella a allai gefnogi atgyfeiriadau TSC+ effeithiol drwy'r ddau lwybr. Awgrymodd rhai fod angen i ysgolion barhau i godi ymwybyddiaeth, yn enwedig i gyfleu'n well fanteision rhaglenni addysgol seiliedig ar waith i bobl ifanc. Teimlai eraill fod rhannu data ar draws pob sefydliad ac asiantaeth yn gyfyngedig, ac y gallai mwy o rannu gwybodaeth alluogi Contractwyr i deilwra cymorth yn well; fodd bynnag, mae'r tynhau diweddar ar y cyfyngiadau ynghylch rhannu data â sefydliadau preifat yn golygu y bydd yn anodd goresgyn hyn. Yn olaf, esboniodd un rhanddeiliad fod y broses atgyfeirio yn gymhleth ar gyfer pobl ifanc sydd heb ddull adnabod (tystysgrifau geni, pasbortau, neu rifau yswiriant gwladol, er enghraifft) neu ddogfennau pwysig eraill, a holwyd a ellid gwanhau rhai o'r gofynion hyn neu hyd yn oed eu dileu o'r broses atgyfeirio.

Cyn ymgysylltu

- 6.14 Roedd y gwelliannau i fodel TSC+ ym mis Ionawr 2023 yn cynnwys pwyslais penodol ar gryfhau'r gefnogaeth cyn ymgysylltu, sef cymorth sydd ar gael i gyfranogwyr TSC+ rhwng eu hatgyfeiriad cychwynol a'u cofrestru maes o law yn un o linyddau TSC+. Mae lefel y cymorth a gynigir yn amrywio yn dibynnu ar

anghenion unigol pobl ifanc. Efallai y byddant yn cael cymorth un-i-un wedi'i deilwra ac/neu'n cael cyfle i gymryd rhan yn Bydd Barod / Get Ready, sef rhaglen gweithgareddau cyfoethogi TSC+ y gellid ei chynnig ar unrhyw adeg o'r flwyddyn i ddarparu cymorth ychwanegol i'r bobl ifanc hynny y mae eu rhwystrau mor gryf fel y byddent yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn rhaglen ddysgu yn y llinyn Ymgysylltu. Mae'n rhoi modd i Contractwyr weithio'n llawer arafach i helpu i gyflwyno'r cyfranogwr i systemau gweithio gan ddefnyddio cyfuniad o weithgareddau cyfoethogi a chymorth anghenion unigol.

Ffocws ar iechyd meddwl

- 6.15 Teimlwyd bod pwysigrwydd gweithgareddau cyn ymgysylltu yn ymwneud yn bennaf ag iechyd meddwl (yn enwedig gorbryder) a diffyg cysylltiedig yn nulliau ymdopi ymhlith darpar gyfranogwyr TSC+. Yn ôl pob tebyg, roedd y rhain yn ymwneud ag anawsterau yn ymwneud â rhyngweithio cymdeithasol a sgiliau meddal eraill, a'r Contractwyr yn meddwl bod llawer ohonynt yn deillio o effeithiau andwyol cyfnodau COVID-19 a'r cyfyngiadau cymdeithasol cysylltiedig ar bobl ifanc. Soniodd Contractwyr am ddysgwyr nad oedd ganddynt unrhyw brofiad o dasgau o ddydd i ddydd fel darllen cloc analog neu deithio ar fws, tra bod eraill yn cyflwyno ag anghenion cymhleth yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael (e.e. digartrefedd neu ddefnyddio cyffuriau).
- 6.16 Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd ymateb i anghenion iechyd meddwl pobl ifanc ar bob cam, gan gynnwys yn ystod y cyfnod cyn iddynt ymuno â llinyn yn y rhaglen. Roedd nifer wedi ariannu gweithgareddau ychwanegol i gefnogi dysgwyr gyda'u hiechyd meddwl.

'Rydym yn gwneud ymwybyddiaeth ofalgar, mae gennym sesiynau llesiant, rydym yn cael sesiynau ar barchu eraill, perthynas iach, ymdopi â straen a'i reoli, delio â straen arholiadau, jyglo eich amser, rheoli amser [...] Ac rwy'n meddwl yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf ein bod ni wedi gweld y bobl ifanc sydd lleiaf abl o ran sgiliau personol a'r sgiliau meddalach hynny nag ydyn ni wedi'u gweld ers peth amser, felly rydyn ni wedi gorfod addasu hynny ar gyfer ein darpariaeth i wneud yn siŵr ein bod ni'n diwallu eu hanghenion ac yn meithrin y sgiliau hynny.' (Contractwr TSC+)

- 6.17 Mae cymorth cofleidiol ychwanegol a hyblygrwydd yn eu cyfranogiad ar gael i'r rheiny a fyddai fel arall yn cael trafferth cymryd rhan. Dywedodd contractwyr eu bod wedi cynnig Gweithwyr Cymorth Pontio a oedd yn rhoi 6-18 wythnos o gymorth cyn cynnal asesiad mynediad y person ifanc. Ar ddechrau'r cyfnod hwn, byddai staff yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu cynllun gweithredu i helpu i gael gwared ar rwystrau, megis gwneud atgyfeiriadau mewnol ar gyfer cymorth iechyd meddwl neu reoli dicter.
- 6.18 Roedd enghreifftiau o gymorth cofleidiol yn cynnwys trefnu cyfarfod cychwynnol ar gyfer y person ifanc gydag aelod o staff, ei gefnogi i edrych drwy'r cwestiynau asesu a'u deall cyn bod angen eu hateb. Credwyd bod hyn yn gwella'r profiad asesu yn ogystal â lefelau datgelu yn yr asesiad ffurfiol. Roedd rhai yn gallu cael un neu fwy o apwyntiadau cyn ymgysylltu gyda darparwr TSC+ i gael gwybod mwy am y rhaglen. Cefnogwyd eraill gyda'r pontio mewn ffyrdd ymarferol i'w helpu i deimlo'n fwy parod, megis cael eu cyflwyno i staff, mynd ar daith o amgylch yr adeilad, siarad am y cysylltiadau trafnidiaeth, neu ddangos iddynt ymhle'r oedd y siopau agosaf er mwyn iddynt allu prynu bwyd.
- 6.19 Roedd cynnig hyblygrwydd iddynt yn eu ffordd o gymryd rhan yn ffordd gyffredin o gefnogi dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl. Roedd hyn gan amlaf yn golygu caniatáu iddynt fynychu am nifer llai o ddiwrnodau'r wythnos. Mewn rhai achosion, roedd dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn ffordd wahanol i gynorthwyo â'u hanghenion iechyd meddwl, e.e. trwy gwblhau gwaith gartref yn hytrach nag yn y dosbarth.

Bydd Barod / Get Ready

- 6.20 Mae elfen Bydd Barod TSC+ yn cynnig rhaglen o weithgareddau cyfoethogi y gall dysgwyr ei mynychu cyn ymuno â'r llinyn Ymgysylltu. Cyflwynwyd yr elfen hon ym mis Ionawr 2023, a gellir ei chynnig am hyd at 12 wythnos yn dibynnu ar yr angen ar unrhyw adeg o'r flwyddyn. Fe'i cynigiwyd gan amlaf fel rhaglen yn ystod gwyliau'r haf i gynorthwyo ymgysylltu â TSC+. Roedd rhanddeiliaid yn hynod gadarnhaol am y cynnig cymorth ychwanegol hwn ac yn ei weld fel 'carreg gamu' effeithiol tuag at brif raglen TSC+. Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn profiadau newydd, fel gweithgareddau awyr agored, wedi helpu dysgwyr i dyfu mewn hyder, ennill sgiliau meddal a sgiliau ehangach ar gyfer bywyd bob dydd, ac mae wedi gwella eu hiechyd meddwl.

'Mae [Bydd Barod] wedi bod yn dda i rai o'r rheiny sydd efallai â phryder cymdeithasol ac sydd wedi bod ychydig yn fwy ynysig, felly rydym wedi gweld bod hynny wedi gweithio'n dda iawn gyda rhai pobl sydd naill ai wedi bod yn ynysu mwy oherwydd [COVID-19] neu'r rheiny sydd wedi dewis addysg gartref, yn hytrach na mynychu ysgol llawn, oherwydd bod ganddynt lai o sgiliau rhyngweithio cymdeithasol – mae ganddynt lai o ffrindiau.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)

- 6.21 Dywedwyd bod darparu gweithgareddau cyfoethogi wedi cynyddu ymgysylltiad a chael pobl ifanc i aros yn y rhaglen. Roedd iteriad yr haf o Bydd Barod yn arbennig o fuddiol o ran cynnal ymgysylltiad â dysgwyr dros wyliau haf ysgolion. Cynigiai rheolwaith a strwythur i bobl ifanc a oedd wedi gorffen addysg yn ddiweddar, ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddent yn dod yn fwy ynysig.
- 6.22 Roedd y gydnabyddiaeth nad oedd rhai pobl ifanc o bosibl yn barod ar gyfer y rhaglen heb dderbyn cymorth ychwanegol ymlaen llaw hefyd yn amlygu'r angen i TSC+ asio â gwasanaethau amgen i bobl ifanc. Dywedodd staff Awdurdodau Lleol fod y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn goruchwyllo'r gwaith o ddiwallu'r angen hwn ar gyfer y dysgwyr yr oeddent yn ymgysylltu â nhw. Roedd hyn yn aml yn cynnwys darparu cymorth un-i-un dros sawl mis i helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer rhaglen gyflogadwyedd fel TSC+.
- 6.23 Gan fod Bydd Barod yn ychwanegiad mwy diweddar at gynnig TSC+, ychydig o ddata sydd ar gael ar ei lwyddiant; fodd bynnag, mae'r cynnydd mawr mewn ymgysylltu â TSC+ yn haf 2023 yn awgrymu y gallai'r rhaglen fod wedi'i defnyddio'n eithaf eang. Bydd yn fuddiol archwilio data monitro elfen Bydd Barod (os yw gwybodaeth reoli yn casglu'r dystiolaeth hon) yn fanylach yng ngham dilynol y gwerthusiad (o ystyried y rôl bosibl sydd ganddi). Roedd y mwyafrif o'r staff i'w gweld yn awyddus i gael yr elfen hon i barhau yn seiliedig ar eu dealltwriaeth anecdotaidd o'r gwerth ychwanegol.

Y broses asesu

- 6.24 Roedd y dull atgyfeirio ac asesu yn gyson ar y cyfan ledled Cymru, ac roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid yn teimlo bod y prosesau'n gweithio'n dda. Dywedodd contractwyr a rhanddeiliaid ALI fod yr amseroedd aros rhwng y cyswllt cychwynol a'r asesiad yn fach iawn ac yn rhesymol (wythnos i bythefnos fel arfer). Un rheswm a roddwyd am yr amseroedd aros byr oedd bod dysgwyr yn cael eu hysbysu'n dda

am unrhyw baratodau neu ddogfennaeth y mae angen iddynt ddod gyda nhw i apwyntiadau. Soniwyd y gall ôl-groniad ddatblygu os yw Contractwyr yn llawn, e.e. pan fo dylifiad sydyn o ddysgwyr dros yr haf. Gellid mynd i'r afael â hyn drwy gael Contractwyr yn darparu capasiti ychwanegol ar adegau prysur, ond byddai goblygiadau ariannol, wrth gwrs, yn gysylltiedig â chynnig adnoddau ychwanegol. Gwelwyd ei bod yn ddefnyddiol i ddysgwyr gael bwloch byr rhwng y cyswllt cychwynnol a'u hasesiad er mwyn rhoi amser iddynt baratoi.

Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio (ARR)

- 6.25 Yn ogystal â'i rôl yn y broses atgyfeirio, cynigia'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio ddull cyson o nodi rhwystrau ac anghenion dysgwyr. Mae'r asesiad hwn yn helpu gweithwyr proffesiynol i bennu addasrwydd llinynnau TSC+ ar gyfer pobl ifanc o gymharu â llwybrau cyflogadwyedd amgen. Mae'r un wybodaeth yn bwydo drwodd i ddatblygu Cynllun Dysgu Unigol gyda'r person ifanc, a hwnnw'n helpu i ffurfio'r gefnogaeth a gânt. Teimlai rhanddeiliaid fod yr Adroddiad yn arf gwerthfawr ar gyfer creu darlun o ddysgwyr a'u hanghenion cymorth, gan alluogi Contractwyr i deilwra cymorth i bob unigolyn.
- 6.26 Er bod rhanddeiliaid yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, soniwyd ganddynt hefyd am feysydd y gellid eu gwella. Un broblem a gafodd rhai Contractwyr oedd asesiadau cychwynnol anghywir neu anghyflawn yn yr Adroddiad. Roedd y diffyg data fel arfer yn codi oherwydd nad oedd pobl ifanc yn gyfforddus nac yn gallu datgelu'r holl wybodaeth berthnasol yn ystod eu hasesiad cychwynnol. Mewn rhai achosion gall gymryd sawl sesiwn i staff fedru cael gwybodaeth bwysig. Weithiau byddai dysgwyr yn gwneud datgeliadau diweddarach ynghylch eu hanghenion cymorth ar ôl meithrin ymddiriedaeth rhyngddynt ac aelod o staff TSC+. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol bod dysgwyr yn datgelu gwybodaeth ychwanegol drwy gydol eu hymgysylltiad ac felly gweithient yn hyblyg i ddiwallu anghenion wrth iddynt godi.
- 6.27 Mewn rhai achosion, teimlai Contractwyr fod anghysondeb yn y modd y llenwid yr Adroddiadau Asesu ac Atgyfeirio a bod diffyg manylion. Weithiau ymddengys bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn dogfennau gwahanol a heb gael ei hadlewyrchu'n llawn yn yr Adroddiad. Ymhellach, awgrymodd un aelod o staff Awdurdod Lleol nad oedd Contractwyr yn adolygu'n llawn y wybodaeth a roddwyd iddynt.

'Rwy'n sôn am asesu yn yr ystyr ehangach, nid dim ond yr asesiad mewnol y maent yn ei wneud. Ond roedd ganddyn nhw bopeth y gallen nhw fod wedi'i ddymuno gan yr ysgol o ran y cofnodion ar gyfer y person ifanc hwnnw ac ni chafodd ei ddilyn na'i ystyried.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)

- 6.28 Os bydd aseswyr yn darparu llawer iawn o wybodaeth atodol heb ei chynnwys yn yr asesiad craidd, gallai'r anghysondeb a'r cymhlethdod cynyddol i ddehongli gwybodaeth atgyfeirio gynyddu'r tebygolrwydd y bydd Contractwyr TSC+ yn colli manylion hanfodol. Dylid mynd i'r afael ag unrhyw anghysondebau wrth gwblhau asesiadau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y broblem hon yn codi.
- 6.29 Cyflwynwyd cyfyngiadau cyfreithiol ar rannu data sydd bellach yn cyfyngu ar ddealltwriaeth Contractwyr o anghenion dysgwyr. Ni all contractwyr TSC+ gael mynediad at wybodaeth, megis data ysgolion, a allai fod yn sail i'r broses asesu, ac nid yw Cymru'n Gweithio, a allai gael y wybodaeth hon fel rhan o'r broses gofrestru, bellach yn cael trosglwyddo'r wybodaeth hon i gontractwyr. Mae mynediad cyfyngedig at ddata perthnasol yn creu mwy o heriau o ran atgyfeiriadau ac asesu anghenion.

Pennu i llinyn TSC+ yn seiliedig ar yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio

- 6.30 I bobl ifanc sydd wedi cael eu hatgyfeirio i TSC+, mae'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio yn rhoi gwybod ym mha elfen o'r rhaglen y cânt eu gosod. Mae'r penderfyniad cychwynol hwn, os caiff ei wneud gan Cymru'n Gweithio, yn cael ei wneud ar hyn o bryd drwy ddefnyddio offeryn asesu cyfrifiadurol. Gwneir atgyfeiriadau uniongyrchol ar sail barn broffesiynol aelod o staff. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o'r farn fod y dull hwn yn gweithio'n dda.
- 6.31 O bryd i'w gilydd roedd proses asesu Cymru'n Gweithio yn gosod dysgwyr mewn llinyn a oedd yn anaddas iddynt. Soniodd sawl rhanddeiliad am broblemau a grëwyd gan anhyblygedd dull yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio o osod dysgwyr yn llinynnau TSC+. Fodd bynnag, camddealltwriaeth yw hwn, a gall staff 'wrth-wneud' penderfyniad y system ar sail eu barn broffesiynol.
- 6.32 Soniodd rhai rhanddeiliaid fod symud rhwng llinynnau yn bosibl yn yr achosion hyn (e.e. drwy 'system frysbenneu' a oedd yn caniatáu ar gyfer croesgyfeirio rhwng llinynnau), ond nid ymddengys bod defnydd ar hyn ym mhob ardal. Credai Is-gontractwyr eraill nad oeddent yn gallu newid dyraniadau llinynnau heb orfodi

person ifanc i 'roi'r gorau iddi' ac ailddechrau'r broses asesu. Roedd hyn yn peri risg o ddieithrio dysgwyr rhag ailymuno â'r rhaglen, tra bod system atgyfeirio fewnol syml yn cael ei hystyried yn opsiwn gwell. O ganlyniad, mae angen canllawiau pellach i Is-gontractwyr hefyd i sicrhau eu bod yn deall y gellir defnyddio crebwyll a barn broffesiynol i adolygu pennu i linyddau lle bo angen, er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu cefnogi yn y ffordd sydd fwyaf perthnasol i'w hanghenion.

- 6.33 Roedd addasiadau a awgrymwyd i'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio yn cael eu bwydo i mewn i grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru i wneud gwelliannau o ran amser y gwaith maes ar gyfer cam hwn y gwerthusiad.

Dulliau asesu eraill

- 6.34 Ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol, datblygwyd fersiwn o'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio y gellir ei defnyddio hefyd i lenwi bylchau mewn asesiadau cychwynnol. Câi'r dulliau hyn eu datblygu'n lleol ond roeddynt yn seiliedig ar argymhellion a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb. Defnyddiwyd data a rennir gan staff Awdurdodau Lleol, Unedau Cyfeirio Disgyblion, neu asesiadau mewnol ychwanegol gan wahanol sefydliadau i wneud y mwyaf o wybodaeth am ddysgwyr sy'n dod i mewn. Mabwysiadodd rhai ddull anffurfiol o asesu llesiant, ac eraill wedi defnyddio dulliau ffurfiol (e.e. Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin [WEMWBS]). Mae'r ffaith bod sawl sefydliad wedi datblygu dulliau asesu ychwanegol ar wahân yn dangos bod angen casglu gwybodaeth ychwanegol yn fwy cyson.


Myfyrdodau cyffredinol ar ddarparu'r gwasanaeth

- 6.35 Pwynt allweddol a godwyd gan ddysgwyr a rhanddeiliaid oedd yr angen am staff wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd â set sgiliau amrywiol. Dywedodd bron i un o bob pump o ddysgwyr (17 y cant, 26/149) fod cydymdeimlad a chefnogaeth staff yn creu awyrgylch cadarnhaol a chymwynasgar. Roedd dysgwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am eu profiadau gyda staff, ond roedd rhai wedi sylwi ar anghysondebau rhwng aelodau tîm. Roedd positifrwydd yr adborth ar Gontractwyr yn amrywio'n rhanbarthol, gan awgrymu bod rhai ardaloedd lleol yn elwa ar dimau staff Contractwyr cryfach nag eraill. Dim ond tri y cant (3/93) o gyfranogwyr gweithredol a gredai y gallai staff fod wedi bod yn fwy cydymdeimladol neu gefnogol, o gymharu â 29 y cant (16/56) o 'ymadawyr cynnar'. Awgryma hyn fod dull gweithio staff yn rhan o gael dysgwyr i aros a dal ati.

Cymorth cychwynnol

- 6.36 Teimlai mwyafrif helaeth y dysgwyr a holwyd (93 y cant, 102/110) nad oedd unrhyw heriau o ran cael mynediad at TSC+ am y tro cyntaf. Roedd y nifer fach a soniodd am heriau gan fwyaf wedi cael problemau â thrafnidiaeth (tri y cant, 3/110) neu broblemau â mynediad ar-lein, megis rhyngrwyd araf neu ddata cyfyngedig (dau y cant, 2/110). Er mai nifer isel o ddysgwyr cofrestredig a soniodd am y rhwystrau penodol hyn, mae'n werth nodi ei bod hi'n bosibl bod y rhain yn dal i fod yn rhwystrau o bwys rhag cymryd rhan yn TSC+ i bobl ifanc eraill a allai wynebu'r rhwystrau hyn ac, felly, nad ydynt yn ymgysylltu â'r rhaglen. Gallai heriau megis pellter o leoliadau darparwyr neu bod â rhyngrwyd o ansawdd gwael fod wedi atal rhai pobl ifanc rhag cymryd rhan yn y rhaglen yn gyfan gwbl.
- 6.37 Ymysg y dysgwyr (cyfranogwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar), roedd 63 y cant (93/148) wedi defnyddio'r gwasanaeth yn bersonol yn y cnawd i ddechrau arni, a 30 y cant o bell naill ai dros y ffôn (16 y cant, 24/148) neu ar-lein (14 y cant, 20/148). Gallai dysgwyr a oedd yn byw ymhellach i ffwrdd o swyddfeydd Contractwr TSC+, neu rai a oedd ag ymrwymadau gofal plant neu ofal arall, rhai a oedd yn anabl neu yn cael problemau iechyd meddwl, fod wedi'i chael yn anodd gwneud y cyswllt cychwynnol â TSC+ yn y cnawd. Mae'r hyblygrwydd a gynnigir gan TSC+ o ran y dull cyswllt cychwynnol felly yn elfen ddefnyddiol ar hyblygrwydd y gwasanaeth ac mae'n cynyddu pa mor rhwydd yw ei ddefnyddio, gan gefnogi ymgysylltiad grwpiau 'anodd eu cyrraedd'.
- 6.38 Ymddengys fod gan y rhan fwyaf o'r dysgwyr a holwyd syniad realistig o beth i'w ddisgwyl gan TSC+ pan wnaethant ymgysylltu â'r rhaglen gyntaf, gyda'r rhan fwyaf o ymatebion yn ymwneud â chyflogaeth a datblygu sgiliau, cyngor ar yrfa, datblygiad personol, neu gymorth pontio o'r ysgol i'r gweithlu. Mae Ffigur 6.1 yn dangos y disgwyliadau mwyaf cyffredin sydd gan ddysgwyr. Fodd bynnag, roedd 12 y cant (27/218) o'r holl ddysgwyr a holwyd yn aneglur ynghylch yr hyn y gallent ei ddisgwyl gan y rhaglen. Awgrymodd contractwyr y dylai sefydliadau atgyfeirio roi esboniad gwell i ddysgwyr yn y cam atgyfeirio ac asesu.

Ffigur 6.1: Disgwyliadau mwyaf cyffredin am TSC+ yr oedd gan ddysgwyr



Ffynhonnell: TSC+ Yr arolwg i ddysgwyr

- 6.39 Roedd cyfranogwyr gweithredol yn fodlon ar y cyfan â'r gefnogaeth gychwynnol a gawsant, gan roi sgôr o 4.2 allan o 5 iddi ar gyfartaledd. Roedd bron i hanner (46 y cant, 43/93) wedi siarad am eu hamcanion personol a'u dyheadau gyrfya yn y sesiynau cychwynnol, a dywedodd bron i un o bob pump ohonynt (17 y cant, 16/93) fod cyfarfodydd cynnar wedi'u teilwra i'w hanghenion neu ddiddordebau unigol. Yn yr un modd, gofynnodd 31 y cant am gymorth ymarferol ar yr adeg hon i ddatblygu sgiliau ymgeisio am swydd fel ysgrifennu CV a thechnegau cyfweliad.
- 6.40 O blith yr holl ddysgwyr, dywedodd saith y cant ohonynt (10/148) eu bod wedi cael gwybodaeth am y cymorth llesiant sydd ar gael iddynt ar y cam hwn, er ei bod yn debygol bod llawer o atgyfeiriadau uniongyrchol wedi cael y wybodaeth hon yn ystod cam eu hasesiad neu cyn ymgysylltu, gan fod yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio neu brosesau asesu eraill wedi cael eu cefnogi gan ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar eu cwrmpas.

Cymorth ariannol

- 6.41 O ran cymorth ariannol, roedd 94 y cant (136/145) o'r cyfranogwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar yn cofio derbyn y lwfans hyfforddi. Soniodd llawer o'r dysgwyr a holwyd am bwysigrwydd y cymorth hwn, gan ei fod yn caniatáu iddynt gael mynediad at waith neu gyfleoedd addysgol ar yr un pryd â thalu am bethau hanfodol. Câi'r arian hwn ei wario amlaf ar fwyd, costau teithio, gwisg ysgol, neu ddillad/offer gwaith. Ymhlith cyfranogwyr gweithredol, dywedodd 82 y cant (62/76)

ei fod wedi lleihau'r pwysau ariannol arnynt yn rhannol o leiaf. Pan oedd pobl ifanc yn byw gyda rhieni neu warcheidwaid a oedd â thrafferthion ariannol, dywedodd rhanddeiliaid fod y lwfans yn galluogi pobl ifanc ddi-waith i gefnogi costau'r aelwyd. Ymhellach, eglurodd 26 y cant (20/76) o'r cyfranogwyr gweithredol eu bod yn hoffi'r rhyddid ariannol bychan a roddai hwn iddynt, gan awgrymu y gallai hefyd fod wedi chwarae rhan yn eu camau tuag at fyw'n annibynnol i ffwrdd o gartref y teulu. Credai rhanddeiliaid fod rhoi gwerth ar amser ac ymdrechion pobl ifanc fel hyn yn helpu i hybu eu hunan-barch.

- 6.42 Ymddengys bod y lwfans hyfforddi wedi chwarae rhan bwysig yn cynyddu diddordeb ac ymgysylltiad pobl ifanc yn y rhaglen. Dywedodd 76 y cant (98/129) o'r dysgwyr fod y lwfans wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ymgysylltu â TSC+ i ryw raddau o leiaf, a dywedodd 25 y cant (32/129) ei fod wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwn yn llwyr. Ar ben hynny, esboniodd rhanddeiliaid fod y cynnydd yn y lwfans yn gyffredinol wedi gwella'r nifer oedd yn cofrestru ac yn aros a'i fod yn golygu bod dysgwyr dan lai o bwysau i ruthro'n rhy gyflym i gyflogaeth am resymau ariannol.
- 6.43 Fodd bynnag, mynegodd nifer fach o rhanddeiliaid bryderon ynghylch effeithiau anfwriadol posibl y lwfans hyfforddi. Mynegodd un aelod o staff Awdurdod Lleol bryderon y gallai dysgwyr deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau ar ddechrau eu gyrfa yn seiliedig ar bwysau ariannol gartref.
- 'Rwy'n poeni'n fawr nad oes gan ein teuluoedd tlotaf ryddid i ddewis mwyach – mae'n rhaid iddynt ddilyn yr arian, nid dilyn eu breuddwydion mwyach. Wyddoch chi, dwi wir yn cael trafferth gyda hynny. Os yw person ifanc yn gallu gwneud Lefel A yn y coleg ond na allant fforddio cymryd y 40 punt o Lwfans Cynhaliaeth Addysg, mae'n rhaid iddo wneud TSC+ i gael y 60 punt.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)
- 6.44 Er nad yw hyn yn feirniadaeth ar TSC+ ei hun, mae'r sylw hwn yn tynnu sylw at yr angen i alinio'r holl lwybrau datblygu gyrfa ledled Cymru yn strategol, gyda dysgwyr o deuluoedd tlotach yn cael cynnig mynediad cyfartal i'r holl opsiynau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, a chymhellion tuag atynt.
- 6.45 Ail her a grybwyllwyd gan rai cyfranogwyr oedd y ffaith nad yw cymhelliant ariannol yn gyfystyr ag ymgysylltu ystyrllon a chyfranogiad gweithredol yn y rhaglen. Credai un dysgwr mai dim ond er mwyn cael eu lwfans hyfforddi y deuai tua hanner y

dysgwyr i'w cwrs hyfforddi, a'u bod yn tarfu yn y dosbarth ac yn ei gwneud yn anodd i eraill ganolbwyntio a llwyddo. Mae'n holl bwysig sylweddoli bod llawer o resymau mwy cymhleth pam y gall dysgwyr unigol ymddangos yn aflonyddgar yn y dosbarth. Fodd bynnag, mae'r sylw hwn yn codi pwynt ehangach am argraff dysgwyr o fanteision cymryd rhan.

Cynwysoldeb

- 6.46 Bwriedir i TSC+ fod yn gynhwysol i bob person ifanc cymwys sy'n byw yng Nghymru. Er y cydnabyddir nad yw'r rhaglen o reidrwydd yn addas i bob unigolyn, dylai fod mor gynhwysol a hygyrch â phosibl. Disgwylir i bob Contractwr benodi arweinydd iaith Gymraeg yn ogystal ag arweinydd ar gyfer gwaith gyda grwpiau ymylol, gan gynnwys pobl ddu, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, cymunedau LGBTQI+, pobl B/byddar a thrwm eu clyw, a phobl anabl. Disgwylir i gontractwyr ymgorffori llais y dysgwr wrth ddylunio gwasanaethau lleol a datblygu modelau.
- 'Ar frig ac ar waelod hyn mae'r bobl ifanc — nhw sydd wrth galon y rhaglen.'
(rhanddeiliad Llywodraeth Cymru)
- 6.47 Er gwaethaf y pwyslais hwn ar lais y dysgwr, ychydig iawn o wybodaeth a nododd Contractwyr (neu o leiaf ychydig o enghreifftiau a roddwyd) am holi barn dysgwyr wrth ddatblygu modelau cynhwysol. Dywedodd un ei fod wedi ymgynghori â siaradwyr Cymraeg ar y gwasanaethau a ddarperir a'i fod yn bwriadu cynnal arolwg i wella'r agwedd hon ar gyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol. Soniodd dau am grwpiau llais y dysgwr ar gyfer pobl anabl ond ni roddodd unrhyw fanylion am eu hymgysylltiad na'u hymgyngoriad.
- 6.48 Gofynnai'r arolwg gwestiwn agored i ddysgwyr gweithredol a chyflawnwyr am eu barn am gynhwysiant a hygyrchedd y rhaglen. Teimlai bron i naw o bob 10 (88 y cant, 140/160) fod y rhaglen yn foddhaol neu'n well o ran cynhwysiant a hygyrchedd. Roedd sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â natur unigol y cymorth a'r awyrgylch dysgu cadarnhaol. Pan oedd ymatebwyr yn llai bodlon, soniwyd am deimlo nad oedd croeso iddynt neu o gael eu diystyru, neu hygyrchedd ffisegol gwael yr adeiladau.

Y Gymraeg

- 6.49 Nod allweddol TSC+ yw hybu'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gan gefnogi Cymraeg 2050. Fel rhan o weithdrefnau contractio, rhaid i bob Contractwr ddangos tystiolaeth bod ganddynt ryw lefel o ddarpariaeth Gymraeg. Ar

y cyfan, fodd bynnag, adroddodd rhanddeiliaid mai ychydig o alw am ddarpariaeth Gymraeg a ddeuai o du'r dysgwyr. Adlewyrchwyd hyn yn y nifer fach iawn o ymatebwyr i'r arolwg a ddewisodd ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r 25 o ymatebwyr (o 149 a holwyd) a nododd eu bod yn siarad Cymraeg o blith y dysgwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar, dim ond pedwar oedd wedi penderfynu ei wneud yn Gymraeg. Ymhlith y pedwar hyn, defnyddiodd tri y gwasanaeth ar-lein, tra dewisodd un ei wneud dros y ffôn. Mae'r wybodaeth reoli yn Adran 5 yn dangos bod tua 11 y cant o weithgareddau dysgu TSC+ yn cynnwys rhyw fath o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 6.50 Ymddengys bod Contractwyr yn gwahaniaethu yn eu hymagwedd at hyrwyddo'r Gymraeg. Soniodd un Contractwr am roi pwyslais arbennig o gryf ar hybu'r Gymraeg, gan gynnwys creu byrddau arweinwyr Duolingo ar gyfer dosbarthiadau.

'Rydyn ni'n defnyddio [...] llawer o adnoddau gwahanol i wneud yn siŵr ein bod nid yn unig yn rhoi gweithgareddau Cymraeg diddorol iddyn nhw eu gwneud, ond hefyd yn eu herio a'u hystyngiadau ar y lefel maen nhw arni.' (Contractwr TSC+)

- 6.51 Roedd rhwystrau eraill i hyrwyddo'r Gymraeg yn ymwneud ag adnoddau. Eglurodd dau Contractwr eu bod wedi cael trafferth recriwtio tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith. Yn ogystal, nodwyd y gall darparu gwasanaeth dwyieithog arwain at gostau adnoddau ychwanegol, a hyn wedi cael mwy o effaith ar y dechrau ar rai Contractwyr nag eraill. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae Llywodraeth Cymru ers hynny wedi ychwanegu cyllid ychwanegol i gefnogi darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Dadansoddi cydraddoldebau

- 6.52 Bwriedir i TSC+ ymgorffori dull croestoriadol o ddarparu gwasanaethau. Mae croestoriadedd yn disgrifio sut mae nodweddion personol megis ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol, a rhywedd yn croestorri â'i gilydd ac yn gorgyffwrdd, gan greu profiadau penodol o wahaniaethu ac/neu ffrainc. Mewn ymarfer rheng flaen, rhaid i ddull croestoriadol fabwysiadu'r ffordd hon o feddwl gydag unigolion. At hynny, rhaid iddo sicrhau bod dulliau o ymgysylltu a chefnogi grwpiau lleiafrifol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael â'r rhwystrau cymdeithasol y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu.
- 6.53 Er bod tystiolaeth bod staff yn ceisio ymgysylltu â rhai grwpiau ymylol, nid oedd unrhyw arwydd clir o ymagwedd groestoriadol wrth wneud hynny. Eglurodd un o

randdeiliaid Llywodraeth Cymru fod hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar gael i Contractwyr drwy'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, ond efallai y byddai'n werth cynnal hyfforddiant manylach ar arferion croestoriadol yn ogystal â materion hygyrchedd/cynhwysiant ehangach i bob Contractwr.

Meysydd i'w gwella

- 6.54 Roedd argraff gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid bod y rhaglen yn gynhwysol oherwydd ei bod i bawb ac oherwydd y derbynnir pob atgyfeiriad.

'Wel, fe gredaf ei bod yn eithaf cynhwysol oherwydd nid wyf wedi dod ar draws unrhyw broblemau gan bobl ifanc nac unrhyw un o'r asiantaethau cymorth yn ymwneud â'r garfan hon. Mae'r holl bobl ifanc yn cael eu trin yn gyfartal, a dweud y gwir.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)

- 6.55 Rhannai llawer o randdeiliaid deimladau tebyg i'r rhai yn y dyfyniad uchod. Fodd bynnag, nid yw'r persbectif hwn yn adlewyrchu realiti cyflwyno gwasanaeth cynhwysol. Er gwaethaf tynnu sylw at rai enghreifftiau o arfer da (gweler paragraff 6.61), dangosodd yr ymatebion i gyfweiliadau mai ychydig iawn o randdeiliaid a oedd yn sylweddoli y dylai gwasanaethau TSC+, yn hytrach na thrin pob dysgwr yn gyfartal, fabwysiadu dull a arweinir gan degwch lle caiff dysgwyr eu cefnogi mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â rhwystrau penodol i'w cyfranogiad.

- 6.56 Daw'r dyfyniad canlynol o [Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (ARWAP) ac mae'n cyfleu'r pwynt hwn mewn perthynas â grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

'Yn aml, tybir mai 'darparu'r un peth i bawb' fydd y gwasanaeth mwyaf priodol. Ond mewn gwirionedd, dim ond drwy ystyried gwahaniaethau pobl (e.e. iaith, anghenion deietegol, gwisg, ac ati) y ceir gwasanaeth mwy sensitif, hygyrch ac effeithiol. Yn aml mae'r dull gweithredu lliwddall yn golygu bod pobl ethnig leiafrifol yn ei chael hi'n anodd cael swyddi, camu ymlaen, neu gael gwasanaethau sy'n addas i'w hanghenion.' (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol)

- 6.57 Mae angen i wasanaethau hysbysebu rhaglenni'n benodol i gymunedau 'nas clywir yn aml' (yn hytrach na dim ond fel rhai sydd 'ar gael i bawb'). Gall yr ail ddull arwain grwpiau lleiafrifol i amgyffred bod gwasanaethau'n rhy generig neu'n 'brif ffrwd', sy'n golygu na fydd eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu gan y gwasanaeth. Yn ôl y

broses gwneud cais/bidio, bydd gan bob Contractwr strategaethau ar waith i ymgysylltu â chymunedau ymylol.

- 6.58 Yn ogystal, nid yw diffyg adborth negyddol gan gymunedau ymylol yn golygu bod gwasanaeth yn gynhwysol nac yn hygyrch. Mae angen ymgynghori'n weithredol â grwpiau lleiafrifol er mwyn deall yn llawn pa mor dda y mae gwasanaeth yn gweithio a sut y gellid ei wella. Dylai contractwyr gynyddu llais y dysgwyr o'r grwpiau hyn er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth.

Anhyblygrwydd y system

- 6.59 Cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynychu rhai rhaglenni hyfforddi yn bersonol yn y cnauld. Gallai TSC+ geisio deall faint o bobl sy'n methu â mynychu cyrsiau yn y cnauld, a gallai ystyried darparu rhaglenni hyfforddi ar-lein Cymru gyfan, ond mae'n bwysig nodi y gall ymgysylltu ar-lein ag unrhyw garfan fod yn llawer anoddach na dosbarthiadau wedi'u cynnal yn y cnauld. Byddai angen dyluniad gofalus ar wasanaeth o'r fath i leihau heriau cynnal ar-lein.

Cryfderau

- 6.60 Er gwaethaf y meysydd hyn i'w gwella, adroddwyd yn anecdotaidd ei bod yn ymddangos bod TSC+ yn fwy cynhwysol a hygyrch i bobl ifanc na rhaglenni tebyg blaenorol mewn o leiaf un ardal leol.
- 6.61 Roedd enghreifftiau o arfer da yn cynnwys caniatáu ar gyfer defnyddio'r ystafell weddio ar adegau allweddol, a chynnig cymorth rhyw-benodol i ddysgwyr, pan oedd dysgwyr o'r farn bod cael cymorth o'r un rhyw yn ddiwylliannol bwysig. Soniodd un o randdeiliaid Llywodraeth Cymru hefyd am y [Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth](#) diweddar sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer pobl anabl, ac y bwriadir bellach ei gyflwyno ar raddfa fwy drwy'r rhwydwaith Contractwyr. Roedd enghreifftiau eraill o gynwysoldeb ar gyfer dysgwyr ag anabledd corfforol yn ymwneud â threfnu trafndiaeth a sicrhau bod ystafelloedd dosbarth ar y llawr gwaelod pan fo hynny'n angenrheidiol i ddysgwyr.
- 6.62 Ymddengys mai cefnogaeth i gymunedau LGBTQI+ oedd y mwyaf datblygedig, gydag un Contractwr yn ymgysylltu â sefydliad LGBTQ+ lleol i gynnal sesiynau cymorth pwrpasol i ddysgwyr o'r cymunedau hyn. Eglurodd sawl Contractwr hefyd eu bod yn gofyn i ddysgwyr pa enw a rhagenwau sydd orau ganddynt mewn sesiynau cychwynnol, a soniodd un am fonitro niferoedd recriwtio o gymunedau

LGBTQI+. Ymhellach, soniodd staff fod eu sefydliad yn cymryd rhan ym mis Pride bob blwyddyn.

- 6.63 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu i Gontractwyr gyflwyno hawliadau ariannol ar gyfer darparu offer neu fathau eraill o gymorth i helpu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr. Dywedodd 95 y cant o'r 21 o gyfranogwyr gweithredol a holwyd a nododd fod ganddynt anghenion hygyrchedd neu ofynion mynediad bod y gwasanaeth wedi bodloni'r anghenion ac/neu'r gofynion hyn. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol bod gwasanaethau'n bodloni'r rhan fwyaf o anghenion hygyrchedd pobl ifanc.

Llinynnau cymorth penodol

- 6.64 Yn absenoldeb gwybodaeth reoli sy'n nodi pa llinyn TSC+ y cofrestrodd cyfranogwr ynddo, ceisiai cwestiynau rhagarweiniol yn yr arolwg i ddysgwyr ganfod llinyn y dysgwr yn y rhaglen. Yn seiliedig ar y trafodaethau hynny, amcangyfrifir bod dau draen (69 y cant, 98/143) o'r dysgwyr a holwyd wedi'u cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu. Ychydig o dan chwarter (24 y cant, 34/143) ohonynt oedd wedi cofrestru yn y llinyn Datblygu, tra bod wyth y cant yn y llinyn Cyflogaeth.

Pontio rhwng llinynnau

- 6.65 Roedd hyd nodweddiadol yr amser a dreuliodd ym mhob llinyn yn amrywio'n fawr, gyda rhanddeiliaid yn nodi ar gyfartaledd unrhyw gyfnod yn para rhwng chwe wythnos a 12 mis. Tueddai'r rhan fwyaf o gyfranogwyr i gael o leiaf ychydig fisoedd o gymorth oherwydd maint neu gymhlethdod eu hanghenion. Roedd rhywfaint o awgrym bod dysgwyr weithiau'n treulio mwy o amser yn y llinyn Ymgysylltu oherwydd y naid sylweddol mewn disgwyliadau rhwng y llinynnau Ymgysylltu a Datblygu. Dywedwyd hefyd weithiau fod y llinyn Ymgysylltu yn un a oedd yn rhoi pwysau mawr ar ddysgwyr. Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai'r pontio rhwng llinynnau gael ei wneud yn 'ysgafnach' i wneud iddo deimlo'n haws a fwy hylaw, e.e. drwy gael cyfnod pontio o chwe wythnos (yn hytrach na newid a symud yn syth).
- 6.66 Yn hollbwysig, roedd diffyg eglurder amlwg o ran dilyniant personol yn TSC+. Nid oedd dysgwyr bob amser yn siŵr beth y dylent ei wneud er mwyn symud ymlaen, na phryd yr oeddent yn barod i gwblhau llinyn penodol. Esboniodd rhanddeiliaid nad oes angen i ddysgwyr wybod o reidrwydd ym mha llinyn y maent wedi'u rhoi ynddo. Fodd bynnag, nid oedd rhai dysgwyr a gyfwelwyd gennym yn gwybod a oeddent wedi cwblhau'r rhaglen neu wedi gadael yn gynnar ai peidio. Efallai mai'r rheswm

am hyn oedd bod y dysgwyr hyn wedi cael cyswllt llai rheolaidd â Contractwyr TSC+ ac, felly, nad oeddent yn gwbl gyfoes â'u taith ddysgu (fel y'i cynrychiolir gan eu Cynllun Dysgu Unigol). Mae'n ofynnol i contractwyr sicrhau cyfarfodydd Cynllun Dysgu Unigol rheolaidd gyda dysgwyr, ond adroddwyd bod rhai pobl ifanc wedi methu'r cyfarfodydd hyn ac nad oeddent wedi ymateb i ymdrechion Contractwyr i gael gafael arnynt.

- 6.67 Un ateb posibl yma yw i Contractwyr nodi staff a allai ganolbwyntio eu gwaith ar gyrraedd y dysgwyr na ellir cysylltu â nhw/dysgwyr nad ydynt yn ymateb er mwyn nodi'r rhesymau dros yr ymddieithrio cychwynnol hwnnw a nodi ffyrdd y gellid ei unioni.

Y Llinyn Ymgysylltu

- 6.68 Roedd y farn am y llinyn Ymgysylltu yn hynod gadarnhaol. Elwodd dysgwyr yn sylweddol ar welliannau yn eu hiechyd meddwl, eu lefelau hyder, eu sgiliau meddal, eu sgiliau cymdeithasol, a'u sgiliau bywyd, yn ogystal â chyflogadwyedd. Nodwyd natur unigolyddol y llinyn hwn i fod yn gryfder arbennig, a hynny oherwydd fod gan staff yr hyblygrwydd mwyaf i ddarparu gwasanaeth a oedd yn bodloni anghenion dysgwyr yn fwy manwl gywir.
- 6.69 Roedd y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yr ymgynghorwyd â nhw yn fwyaf cyfarwydd â'r llinyn Ymgysylltu, ac yn aml prin oedd eu gwybodaeth am y llinynnau eraill. Roeddent o'r farn mai buddiol oedd y gallu i gynnal y llinynnau ymgysylltu a datblygu ar gyflymder amrywiol i weddu i ddysgwyr unigol. Gwelwyd bod y dull hwn, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn osgoi 'gosod hwy i fethu'. Ar y llaw arall, mynegodd nifer fach o randdeiliaid bryderon ynghylch y siawns y gallai dysgwyr aros yn y llinyn Ymgysylltu yn rhy hir.
- 6.70 Roedd un Contractwr wedi cyflwyno ei llinyn 'Ymgysylltu+' ei hun i gydnabod y ffaith bod dysgwyr yn ymuno â'r rhaglen ar adegau mor wahanol, a bod eu lefelau anghenion yn dra gwahanol. Ymddengys bod y dull hwn hefyd yn helpu i gydnabod y cyflawniadau sylweddol y mae dysgwyr yn aml yn eu gwneud er gwaethaf aros yn y llinyn Ymgysylltu am fisoedd lawer.

Y Llinyn Datblygu

- 6.71 Er bod y llinyn Datblygu wedi cael llai o atgyfeiriadau na'r llinyn Ymgysylltu, roedd rhanddeiliaid yn credu'n fras bod y llinyn yn gweithio'n dda. Ystyriwyd bod ychwanegu cyfleoedd i gwblhau cymwysterau Lefel 2 yn rhywbeth cadarnhaol i

ddysgwyr, yn enwedig oherwydd y credid bod cyflogwyr yn ystyried cymwysterau â thystysgrif yn fwy cadarnhaol na chysiau heb dystysgrif neu gysiau anffurfiol.

- 6.72 Wrth fyfyrio ar y llinyn Datblygu, soniodd nifer o randdeiliaid am uwchsgilio dysgwyr ar gyfer sectorau penodol. Rhannodd un rhanddeiliad enghraifft benodol o lwyddiant trwy gydlynw ag adrannau yn yr Awdurdod Lleol oedd yn brin o staff, ac yna byddai unrhyw ddysgwr a enillai gymhwyster ffitrwydd yn awtomatig yn cael cyfweiliad â gwasanaethau hamdden yr ALI lleol, gan ei fod wedi bod yn cael anawsterau wrth gyflogi tîm llawn o staff. Yn ogystal, roedd awgrym y gallai cysiau a chymwysterau gael eu teilwra hyd yn oed yn fwy i gefnogi gyrfaoedd pobl ifanc drwy ganolbwyntio ar sgiliau i ddiwallu anghenion diwydiant yn y dyfodol, megis sgiliau technegol ar gyfer cefnogi'r pontio i Sero Net. Gallai fod yn effeithiol hyrwyddo cymwysterau sydd â bylchau sgiliau yn lleol a chenedlaethol, nid yn unig i hyrwyddo rhagolygon cyflogadwyedd dysgwyr, ond hefyd i helpu i ddiwallu anghenion presennol y diwydiant.

Y Llinyn Cyflogaeth

- 6.73 Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn ei chael hi'n anodd gwneud sylwadau ar y llinyn Cyflogaeth, gan fod cyn lleied o ddysgwyr wedi cymryd rhan ynddo. Nid oeddent yn hyderus eu bod yn gwybod pa elfennau oedd wedi gweithio'n dda neu beth y gellid ei wella. Nododd rhai brinder cyflogwyr â diddordeb, yn enwedig yn ystod camau cynharach y rhaglen. Roedd gobair y byddai ymgyrch farchnata TSC+ a gyflwynwyd yn ystod 2023 yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth cyflogwyr o'r llinyn, ac yn galluogi Contractwyr yn fuan i gynnig ystod ehangach o gyfleoedd gwaith i ddysgwyr.
- 6.74 Fodd bynnag, y prif reswm dros fod diffyg defnydd ar y llinyn Cyflogaeth oedd nad oedd mwyafrif helaeth y dysgwyr yn barod ar gyfer y llinyn hwn. Awgrymodd rhai fod angen adolygu a mireinio'r model i gynyddu niferoedd, tra bod eraill yn meddwl ei bod yn rhy gynnar i ddweud. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr yn dechrau treiddio trwodd o'r llinynnau eraill yn raddol wrth i'r gwaith barhau ac wrth i'r rhaglen ddod yn fwy sefydledig mewn ardaloedd lleol.
- 6.75 Ymddengys mai anghyson oedd y gefnogaeth i ddysgwyr gan Contractwyr yn ystod lleoliadau gwaith. Er bod rhai yn teimlo eu bod yn gallu cael cymorth gan staff pryd bynnag yr oedd ei angen arnynt, roedd eraill yn ei chael yn anodd cysylltu â Contractwyr tra oeddent ar leoliad. Roedd pryder ymhlith rhanddeiliaid nad oedd y

llynyn Cyflogaeth wedi'i gynllunio i gynnwys digon o gymorth cofleidiol i ddysgwyr. Gwnâi'r ymatebion hi'n glir bod angen darpariaeth gwasanaeth mwy cyson yn ystod lleoliadau. Er y gallai'r dysgwyr hyn fod yn cymryd camau mawr tuag at gyflogaeth annibynnol, dylent yn dal allu cael cymorth o ansawdd uchel gan Gontractwyr drwy gydol y llynyn Cyflogaeth petai ei angen.

Bodlonrwydd â'r cymorth

- 6.76 Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn yr arolwg yn teimlo eu bod wedi elwa o gymryd rhan yn TSC+ mewn rhyw ffordd. Ar y cyfan, roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol. Dywedodd yr holl gyfranogwyr gweithredol a holwyd bod y cymorth yn iawn ar eu cyfer nhw (n=69). Roedd hyd yn oed mwyafrif yr ymadawyr cynnar (85 y cant, 35/41) yn cytuno bod cefnogaeth TSC+ wedi bod yn iawn iddyn nhw. O'r 35 hyn, roedd 13 (neu 38 y cant) wedi gadael i fynd i gwrs hyfforddi neu addysg arall a chafodd wyth (neu 35 y cant) swydd neu brentisiaeth.
- 6.77 Ffactor allweddol o ran bodlonrwydd dysgwyr â'r cymorth oedd staff yn ystyried anghenion unigol ac yn darparu gwasanaeth penodol wedi'i deilwra. Roedd pedwar o bob pump (81 y cant, 131/161) o'r cyfranogwyr gweithredol a'r cyflawnwyr yn credu bod TSC+ yn sicrhau bod eu hanghenion personol yn cael eu hadlewyrchu yn y mathau o gefnogaeth a gawsant gan y rhaglen. Roedd adborth anecdotaidd hefyd yn nodi bod cynnwys y cwrs, cymarebau staff-i-gyfranogwyr, a lleoliad darpariaeth y gwasanaeth yn effeithio ar lefelau bodlonrwydd dysgwyr.
- 6.78 Nododd y cyfranogwyr fod ganddynt amseroedd teithio llawer hirach mewn ardaloedd mwy anghysbell. Awgrymodd un rhanddeiliad y dylid ystyried diwygio'r strwythur ariannu i ganiatáu ar gyfer cwmpas daearyddol mwy gwasgaredig a gwella hygyrchedd i bobl mewn ardaloedd gwledig.
- 6.79 Dywedodd tua naw o bob 10 (89 y cant, 193/218) fod y cymorth wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau. Rhoddodd y rhai a oedd yn dal i gymryd rhan yn y rhaglen esboniadau amrywiol ynghylch pam a sut roedd y cymorth yn bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau o gymryd rhan. Teimlai rhai fod y gefnogaeth wedi cyfrannu at ddatblygiad eu gyrfa, tra bod eraill yn credu bod cyfathrebu a chynghor gan staff yn glir, neu fod staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol.
- 6.80 Roedd bron i dri chwarter (72 y cant, 156/217) o'r dysgwyr a holwyd yn teimlo nad oedd unrhyw ffordd y gellid gwella TSC+. Y newid a awgrymwyd amlaf, fel yr argymhellwyd gan chwech y cant o ddysgwyr, oedd darparu cymorth mwy

unigolyddol. Awgrymodd eraill y dylid treulio mwy o amser ar gymorth datblygiad addysgol a phroffesiynol megis sgiliau ysgrifennu CV a chyfweld, ac awgrymodd tri y cant y dylid cynyddu'r hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth am y rhaglen.

- 6.81 Roedd rhanddeiliaid Awdurdodau Lleol o'r farn bod ychwanegu TSC+ at y rhwydwaith o wasanaethau wedi helpu i lenwi bylchau yn narpariaeth gwasanaethau lleol, yn enwedig o ran darparu dewis amgen i ddarpariaeth gwasanaethau 'prif ffrwd'. Tynnwyd sylw hefyd, fodd bynnag, at yr angen am ddull mwy strategol o gysylltu TSC+ â gwasanaethau eraill i sicrhau bod y rhaglen yn cysylltu ag opsiynau cymorth eraill sydd ar gael i bobl ifanc.
- 6.82 Awgrymodd rhanddeiliaid rai meysydd posibl eraill ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Un ohonynt oedd ychwanegu cymorth dilynol pellach i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl i ddysgwyr nad ydynt o reidrwydd yn 'barod am swydd' ar ôl cwblhau'r rhaglen. Gellid codi'r pwynt olaf hwn hefyd i dynnu sylw at yr angen i TSC+ gysylltu â gwasanaethau lleol ehangach a allai ddarparu cymorth dilynol, e.e. y Ganolfan Waith.

'Mae angen iddyn nhw gofio unwaith y byddan nhw yn TSC nad yw'n golygu bod popeth yn hyfryd ac yn berffaith ac y byddan nhw'n iawn. Maen nhw'n mynd i dal fod angen cymorth a dyna yw ei bwrpas – i'w cael nhw gam yn nes at waith.' (Rhanddeiliad o Awdurdod Lleol)

Crynodeb o'r Adran

- Teimlai rhanddeiliaid fod marchnata a hyrwyddo TSC+ wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan a bod ymwybyddiaeth o'r rhaglen wedi cynyddu dros amser. Cafwyd awgrymiadau y gellid cryfhau'r hyrwyddo mewn ysgolion, a defnyddio mwy o amrywiaeth o sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Teimlwyd yn eang bod cyflwyno atgyfeirio uniongyrchol i'r rhaglen wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y cofrestriadau, gyda gweithgarwch cyn-ymgysylltu megis Bydd Barod / Get Ready yn arbennig o effeithiol o ran lefelau cofrestru uwch a gofnodwyd yn y wybodaeth reoli.
- Rhoddai atgyfeiriadau drwy Cymru'n Gweithio ddealltwriaeth ddefnyddiol drwy'r Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio ar gyfer asesu cyfranogwyr. Roedd atgyfeiriadau uniongyrchol yn llwybr mwy syml i'r rhaglen ond roeddent yn dibynnu'n fwy ar gyfranogwyr i hunan-adrodd neu Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd fanylu ar unrhyw anghenion ychwanegol neu rwystrau penodol y gallent fod yn eu hwynebu.

- Teimlwyd bod pwysigrwydd gweithgareddau cyn ymgysylltu yn ymwneud yn bennaf ag iechyd meddwl (yn enwedig gorbryder) a diffyg cysylltiedig ym mecanweithiau ymdopi darpar gyfranogwyr TSC+. Croesawyd yn eang y ddarpariaeth cyn ymgysylltu gan randdeiliaid.
- Roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am raglen TSC+, yn ei chael yn hawdd ei defnyddio a'r staff yn gydymdeimladol ac yn gefnogol.
- Roedd bron i ddau o bob tri o'r dysgwyr wedi mynd yn y cnawd i'r gwasanaeth i ddechrau arni, gyda'r gweddill wedi defnyddio'r gwasanaeth o bell naill ai dros y ffôn neu ar-lein, a'r cyfranogwyr yn bennaf wedi disgwyl cael cymorth i sicrhau swydd neu brentisiaeth.
- Ymysg cyfranogwyr gweithredol, teimlai 82 y cant o ddysgwyr a ymatebodd fod y lwfans o leiaf yn rhannol wedi lleddfu'r pwysau ariannol oedd arnynt. Ymhellach, roedd ganddo ran bwysig wrth gynyddu diddordeb ac ymgysylltiad pobl ifanc yn y rhaglen. Credai rhanddeiliaid bod rhoi gwerth ar amser ac ymdrechion pobl ifanc fel hyn yn helpu i hybu eu hunan-barch.
- Prin yw'r dystiolaeth fe ymddengys o Gontractwyr yn gweithio gyda grwpiau ymylol wrth ddylunio modelau cymorth cynhwysol. Wedi dweud hynny, teimlai bron naw o bob 10 dysgwr fod y rhaglen yn foddhaol neu'n dda o ran cynhwysiant a hygyrchedd.
- Soniodd rhanddeiliaid mai ychydig o alw oedd yna am ddarpariaeth drwy'r Gymraeg gan ddysgwyr, tra bod dau Gontractwr wedi cael trafferth recriwtio tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith, ac ystyriwyd bod costau adnoddau ychwanegol yn rhwystr i ddarpariaeth Gymraeg (er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau ychwanegol ers hynny ar gyfer darpariaeth Gymraeg).
- Er gwaethaf rhai o'r pryderon ynghylch deall croestoriadedd a chynhwysedd a'r modd y caiff ei gymhwyso gan Gontractwyr wrth gynnal y rhaglen, roedd TSC+ yn dal i gael ei ystyried yn fwy cynhwysol a mwy hygyrch i bobl ifanc nag oedd rhaglenni blaenorol o natur debyg, a sonnir yn Adran 4 am y cymorth penodol amrywiol wedi'i dargedu at grwpiau ymylol a'r ehangu ar ddulliau atgyfeirio.
- Roedd hyd y gefnogaeth i gyfranogwyr yn amrywio'n fawr, yn enwedig ymhlith y rheiny yn y llinyn Ymgysylltu; fodd bynnag, croesawyd yn eang y dull hwn o roi cymorth i ddysgwyr mewn ffordd sy'n seiliedig ar hyblygrwydd ac anghenion.

- I'r rheiny a oedd wedi cofrestru yn y llinyn Datblygu, holai rhanddeiliaid a ellid ystyried targedau mwy sectoraidd o ran cymorth sgiliau i ymateb i anghenion diwydiant yn y dyfodol.
- Ymhlith y cyfranogwyr, teimlai naw o bob 10 fod y cymorth wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau, tra bod tri chwarter yn teimlo nad oedd unrhyw ffordd y gellid gwella'r rhaglen.
- Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod TSC+ yn llenwi bwlch yn y gwasanaethau a ddarperir yn lleol ond efallai fod angen integreiddio mwy o gymorth gan wasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau cymorth ar gael i bobl ifanc.

7. Canlyniadau / Effeithiau'r Cymorth

- 7.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio canlyniadau ac effeithiau rhaglen TSC+, gan gynnwys ar gyfer dysgwyr yn ogystal â chyflogwyr sy'n cynnig swyddi neu leoliadau.

Argraff am fuddion ac effaith y cymorth


- 7.2 Soniodd dysgwyr am fuddion eang a chanlyniadau cadarnhaol yn sgil cymryd rhan yn TSC+. Eglurodd rhai fod cymryd rhan mewn rhaglen strwythuredig yn arbennig o ddefnyddiol. Mae'r ddau ddyfyniad isod yn nodi'r effaith a gafodd y rhaglen ar rai dysgwyr.

'Cefais fy nghicio allan o [ddau sefydliad addysgol gwahanol]. Maen nhw wedi newid fy mywyd – es i yno ac fe wnaethon nhw roi trefn ar fy mywyd.' (Dysgwr)

'Roedd yn anhygoel. Roedd y gefnogaeth ges i ar gyfer fy iechyd meddwl yn dda iawn. Mae gennyf ADHD. Fe wnaethant fy nghefnogi pan doeddwn i ddim yn gallu mynd i [wasanaeth arall] hefyd. Bydden nhw'n cwrdd â mi mewn caffi ac fe wnaethon nhw fy annog i gyfeiriad Gyrfa Cymru. Mi ges i gymwysterau Agored, llunio fy CV ac adeiladu fy hyder, fe wnes i fy nghwrs barista hefyd. Fe wnaethon nhw roi llawer o gyfleoedd i mi a gwthio fi allan o'r ffiniau oedd yn gyfforddus i fi. Roedd yna bob amser ystafell lle gallwn i siarad â rhywun.' (Dysgwr)

- 7.3 Teimlai llawer o ddysgwyr fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon i gael swydd, gan gynnwys y rhai a adawodd yn gynnar. Mae Ffigur 7.1 yn cymharu'r effeithiau a adroddwyd gan gyfranogwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar yn y maes hwn. Er bod ymadawyr cynnar yn llai tebygol o gael y canlyniadau cadarnhaol hyn na chyfranogwyr gweithredol, mae'n werth nodi bod llawer yn dal wedi gweld gwelliannau yn hyn o beth.

Ffigur 7.1: Effeithiau cymryd rhan yn TSC+ ar ragolygon swyddi cyfranogwyr gweithredol ac ymadawyr cynnar



Ffynhonnell: Yr arolwg i ddysgwyr


7.4 Dywedodd cyfranogwyr gweithredol fod y gefnogaeth hefyd wedi dylanwadu ar eu dealltwriaeth o ddatblygiad gyrfa a'u hagwedd tuag at ddatblygu gyrfa mewn sawl maes. Adroddodd y mwyafrif am yr effeithiau ar eu dealltwriaeth o'r swydd neu lwybr gyrfa yr oeddent am ei ddilyn (83 y cant, 76/92), eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth o'r opsiynau hyfforddiant a chyflogaeth sydd ar gael (74 y cant, 67/91), eu cymhelliant i ystyried cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant (67 y cant, 62/92), a'u dull cyffredinol o fynd ati i chwilio am waith neu swydd (67 y cant). Nododd rhai hefyd fod y rhaglen wedi eu helpu i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol.

'Maen nhw wedi cael lle i fi efo CAMHS⁵⁷ ac wedi rhoi help i mi gael sgiliau cymdeithasol a rhoi llawer o hyder i mi ac mi wnes i adael gyda llais. Roedd fy nghyngorydd hyfforddi yn anhygoel. Bues i yno am dros flwyddyn, ac mi wnes i adael yn gynnar gan fy mod i wedi dod o hyd i waith.' (Dysgwr)

⁵⁷ Ystyr CAMHS yw Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac mae'n cynnwys gwasanaethau'r GIG sy'n asesu ac yn trin pobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl.

7.5 Roedd llawer o ddysgwyr wedi gweld effeithiau cadarnhaol ar eu hiechyd meddwl neu eu lles. Dywedodd mwy na hanner (55 y cant, 82/149) y cyfranogwyr fod y rhaglen wedi gwella eu hyder. Wrth gymharu sut roedden nhw'n teimlo nawr â sut y teimlent cyn iddyn nhw gymryd rhan yn TSC+, adroddodd y rhan fwyaf o ddysgwyr am nifer o newidiadau cadarnhaol yn eu llesiant, fel y gwelir yn Ffigur 7.2.

Ffigur 7.2: Canran y dysgwyr a ymatebodd i ddatganiadau cadarnhaol ynghylch newidiadau i'w hiechyd meddwl neu eu llesiant o gymharu â chyn cymryd rhan yn TSC+



Ffynhonnell: Yr arolwg i ddysgwyr

7.6 Ymhellach, roedd 95 y cant o'r cyflawnwyr (54/59) yn meddwl bod TSC+ wedi cynyddu eu siawns o ddod o hyd i waith boddhaol, a 93 y cant (53/59) yn credu bod cymryd rhan yn TSC+ wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y tebygolrwydd y gallent gael cyflogaeth barhaol.

7.7 Roedd mwyafrif y dysgwyr, o leiaf yn rhannol, yn priodoli canlyniadau i TSC+. Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedd TSC+ wedi rhoi cyfleoedd neu brofiadau newydd iddynt. O'r 110 a ddewisodd ateb y cwestiwn hwn, nid oedd 76 y cant (84) yn meddwl y byddent wedi cyflawni neu gael profiad o'r un pethau pe na baent wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Mae hyn yn dangos bod cymorth TSC+ wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynhyrchu canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr.


Cyrchfannau

7.8 Dywedodd Contractwyr fod TSC+ wedi llwyddo i ddod â dysgwyr yn agosach at y farchnad lafur. Rhannodd grwpiau rhanddeiliaid amrywiol sawl enghraifft o ganlyniadau cyflogaeth cadarnhaol. Roedd rhai dysgwyr yn gallu cael prentisiaethau neu gontractau cyflogaeth ar ôl mynd ar leoliad gwaith.

- 7.9 Eto i gyd, esboniodd staff hefyd fod angen mwy o amser ar lawer o ddysgwyr i gael cyflogaeth. Felly ceisiodd rhanddeiliaid gydnabod gwahanol fathau o nodau ac amcanion tymor byr addas ar eu cyfer (o ystyried eu hanghenion cymorth amrywiol a rhwystrau parhaus i waith). Yn ogystal â'r canlyniadau tymor byr hyn, byddai'n ddefnyddiol meithrin dealltwriaeth o deithiau dysgwyr ac effeithiau hirdymor cwblhau'r rhaglen.
- 7.10 O blith y dysgwyr hynny a holwyd nad oeddent bellach yn cael cymorth gan y rhaglen, roedd tua thri o bob 10 ohonynt (31 y cant, 39/125) mewn cyflogaeth ar adeg ateb ein harolwg, ac roedd pump o gyflawnwyr eraill wedi bod mewn cyflogaeth ar ryw adeg o'r blaen ar ôl gorffen TSC+. Roedd ein harolwg yn cynnwys cwestiwn i'r cyflawnwyr cyflogedig presennol ynghylch eu cyfleoedd i symud ymlaen. O'r 16 a atebodd y cwestiwn hwn, dywedodd 10 fod cyfleoedd dilyniant yn eu rôl.
- 7.11 Ni ddylid tanbriso'r ffaith fod 31 y cant o'r cyflawnwyr ac ymadawyr cynnar (39/125) yn gyflogedig ar adeg eu cyfweld, yn enwedig o ystyried lefel yr anghenion cymorth a nodwyd ar gyfer y garfan.⁵⁸ Mae'n bwysig, fodd bynnag, nodi o'r 18 o gyflawnwyr a oedd mewn cyflogaeth, roedd llai na hanner ohonynt ar gytundebau parhaol neu benagored (saith), a dim ond pedwar oedd yn gweithio'n llawn amser. Y cyflog blynyddol canolrifol ar gyfer y grŵp hwn oedd £7,800 a £10,656 ar gyfer y rhai a weithiai'n llawn amser (sy'n debygol o gael ei ddatchwyddo oherwydd bydd rhai o'r cyfranogwyr hyn yn dilyn prentisiaethau).
- 7.12 Ar ôl cymryd rhan yn TSC+, roedd llai na hanner (42 y cant, 52/125) y cyfranogwyr yn yr arolwg mewn addysg neu hyfforddiant. Roedd ychydig llai na thraean ohonynt (31 y cant, 39/125) yn gyflogedig neu mewn prentisiaeth, roedd 18 y cant yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, ac roedd dau y cant mewn rôl wirfoddol neu ddi-dâl.

⁵⁸ I gymharu, bu cynnydd o 37 y cant ymhlith cyfranogwyr di-waith ac anweithgar y Fenter Cyflogaeth Iuenctid o gymharu â'r llinell sylfaen chwe mis ar ôl ymyriad y rhaglen — [Gwerthusiad y Fenter Cyflogaeth Iuenctid](#) (2016–19). O ran y rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, ar Flaenoriaeth 3 (sydd â'r nod o ostwng nifer y bobl ifanc 16–24 mlwydd oed sy'n NEET), roedd 50 y cant o'r rhai a gymerodd rhan wedi cael mynediad i swydd (Mai 2015–Mawrth 2023), [Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni](#).

Ffigur 7.3: Sefyllfa bresennol unigolion nad ydynt bellach yn cael cymorth gan y rhaglen



Ffynhonnell: Yr arolwg i ddysgwyr

- 7.13 Dywedodd dros hanner (61 y cant, 35/57) yr unigolion a holwyd a adawodd cyn cwblhau eu gweithgareddau dysgu TSC+ eu bod wedi gadael am resymau cadarnhaol — 21 y cant i fynd i addysg, 21 y cant i gyflogaeth, 12 y cant i brentisiaeth, pedwar y cant i gwrs hyfforddi arall, a phedwar y cant i fynd ar leoliad gwaith. Yr ail reswm a roddwyd amlaf dros adael yn gynnar oedd oherwydd amgylchiadau personol, e.e. salwch (19 y cant, 11/57). Gadawodd cyfanswm o naw y cant oherwydd nad oedd cymorth TSC+ yn addas ar eu cyfer neu na allai'r Contractwr ddod o hyd i'r cymorth iawn (e.e. lle na ellid nodi cyfleoedd mewn diwydiant penodol). Roedd tri y cant wedi'u hanfon o'r rhaglen, a gadawodd tri y cant am resymau eraill.
- 7.14 Roedd adroddiadau anecdotaidd gan randdeiliaid yn nodi bod rhai dysgwyr wedi gadael TSC+ oherwydd eu bod yn cael trafferth cydbwysu'r rhaglen â'u cyfrifoldebau gofalu. Yn anffodus, soniodd rhanddeiliaid am achosion lle teimlai'r cyfranogwyr bod yn rhaid iddynt adael cyn mynd i gyflogaeth oherwydd ofnau y gallai eu haelwyd teulu golli budd-daliadau cyfredol yr oedd eu hangen arnynt i dalu am bethau hanfodol.

- 7.15 Cafwyd nifer fach o awgrymiadau anecdotaidd gan randdeiliaid bod cyfranogwyr a atgyfeiriodd eu hunain yn fwy tebygol o adael y rhaglen; yn y pen draw, fodd bynnag, credent fod diffyg data monitro da am y rhesymau pam yr oedd dysgwyr wedi gadael y rhaglen. Awgrymodd un Contractwr y dylid monitro'n agosach y rhai yr ystyrir eu bod mewn perygl o ymddieithrio, e.e. y rheiny â chyfraddau presenoldeb isel, gan y byddai hyn yn ddefnyddiol i helpu i ddarparu dull mwy ymatebol o fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad.
- 7.16 Nid oedd tri chwarter (75 y cant, 43/56) o'r rhai a adawodd TSC+ cyn cwblhau eu gweithgareddau dysgu yn meddwl y gellid bod wedi gwneud unrhyw beth i'w helpu i gwblhau'r rhaglen.

Safbwynt cyflogwyr

- 7.17 Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr sy'n cymryd rhan yn y llinynnau Datblygu a Chyflogaeth i fynd ar leoliadau gwaith a sicrhau cyflogaeth (gyda chwe mis cyntaf y gyflogaeth honno wedi'i sybsideiddio gan TSC+). Cynhaliwyd gwaith maes â chyflogwyr i gasglu rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae elfen hon y rhaglen yn gweithredu.
- 7.18 Ymhlith y 24 o gyflogwyr a gymerodd ran yn y gwerthusiad, roedd 13 o ymatebwyr yn ficrofusnes (0-9 o weithwyr), 10 yn fusnes bach (10-49 o weithwyr), ac un yn fusnes canolig ei faint (50-249 o weithwyr).
- 7.19 O'r cyflogwyr hynny, roedd 17 wedi cynnig lleoliadau i ddysgwyr, pump wedi rhoi swydd, a dau wedi cynnig y ddau opsiwn. Roedd naw cyflogwr wedi cymryd rhan yn un o iteriadau blaenorol rhaglen Twf Swyddi Cymru. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros gymryd rhan yn y rhaglen oedd eisiau cefnogi pobl ifanc (20/24), er mwyn bodloni anghenion/heriau recriwtio (7/24), neu am resymau ariannol (7/24).
- 7.20 Awgrymodd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru fod yr argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu busnesau i gynnig rolau. Ymhellach, mynegwyd pryderon ganddynt fod y cynnydd cenedlaethol diweddar mewn gweithio o bell wedi ei gwneud yn anos cefnogi dysgwyr yn iawn. Fodd bynnag, esboniodd cyflogwyr a holwyd fod y cymhorthdal wedi eu galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen a'i fod yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cyflogaeth â chymhorthdal (i ddechrau). Dywedodd rhai na fyddent wedi gallu cymryd aelod o staff ymlaen fel arall.

- 7.21 Gofynnwyd i gyflogwyr am y cymorth a gawsant gan Gontractwyr TSC+ yn ystod eu cyfranogiad yn y rhaglen. Dywedodd ugain (o'r 24) eu bod wedi cael eu cefnogi'n dda â thasgau gweinyddol cychwynol (fel llunio rhestr fer o ymgeiswyr a threfnu hyfforddiant/gwiriadau DBS). Fodd bynnag, dywedodd llai o gyflogwyr eu bod wedi cael cymorth gan Gontractwyr yn dilyn yr ymgysylltiad cychwynol, gyda thri yn nodi holi cyson sut oedd pethau gyda'r cyflogwyr, a soniodd tri bod TSC+ yn darparu adolygiadau cynnydd ar gyfer dysgwyr. Wedi dweud hynny, roedd y mwyafrif helaeth (21/24) o gyflogwyr yn teimlo bod y cymorth hwn wedi bodloni eu hanghenion. Gwnaeth rhai awgrymiadau ar gyfer gwella, megis Contractwyr yn gosod nodau gyda'r bobl ifanc, gwella prosesau ymsefydlu i leihau oedi, a gwella cyfathrebu.
- 7.22 O ran eu canfyddiad o'r dysgwyr a benodwyd ganddynt i rolau yn eu sefydliadau, roedd cyflogwyr yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd 14 o'r 24 o gyflogwyr fod safon ymgeiswyr TSC+ o leiaf cystal, os nad gwell, na'r disgwyl. Er bod wyth yn cydnabod bod angen mwy o gefnogaeth ar ymgeiswyr nag ar staff eraill, teimlai 10 ohonynt fod yr ymgeiswyr wedi dod â sgiliau neu rinweddau cadarnhaol i'r rôl (er gwaethaf eu diffyg profiad gwaith). Drwyddi draw, dywedodd 19 ohonynt fod cyfranogwyr TSC+ wedi perfformio'n dda neu'n dda iawn yn eu sefydliad, gyda dim ond chwech wedi cael problemau yn ymwneud â pherfformiad. Disgrifiodd pedwar o'r chwe chyflogwr hyn heriau o ran presenoldeb neu brydlondeb dysgwyr.
- 7.23 Holwyd cyflogwyr hefyd am yr effaith a gafodd cymryd rhan yn TSC+ ar eu busnes. Dywedodd 20 o'r 24 bod mwy o gapasiti, a dim ond pedwar ddywedodd fod llwyth gwaith cynyddol ar staff eraill. Nododd tri gynnydd mewn elw, a dywedodd pump yn benodol fod cymryd rhan yn y rhaglen wedi helpu i wella eu cysylltiadau â chwsmeriaid neu gleientiaid.
- 7.24 Yn sgil cymryd rhan yn y rhaglen, effaith ychwanegol ar gyflogwyr oedd eu barn am recriwtio yn y dyfodol. Disgrifiodd y mwyafrif helaeth newid cadarnhaol yn eu hagwedd tuag at gynnig swyddi neu leoliadau gwaith i bobl ifanc (21/24). Dywedodd nifer tebyg (22) y byddent yn cymryd rhan mewn rhaglen sgiliau, hyfforddiant neu gyflogaeth Llywodraeth Cymru eto yn y dyfodol.

Heriau wrth fesur canlyniadau ac effeithiau

- 7.25 Mater allweddol a nodwyd gan randdeiliaid oedd yr anallu i gipio a chofnodi canlyniadau cymhleth, unigoledig a gyflawnwyd gan ddysgwyr. Er mai'r gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol i un person ifanc o bosibl yw mynediad i addysg, i berson arall efallai mai'r gwahaniaeth yw ennill sgiliau bywyd ymarferol newydd, ac i eraill gallai fod yn sgiliau cymdeithasu i wrthweithio effeithiau pandemig COVID-19. Nododd y contractwyr pa mor anodd oedd hi i feintoli canlyniadau ansoddol mor bellgyrhaeddol drwy orfod defnyddio un dull cyffredinol o gofnodi data monitro. Byddai coladu astudiaethau achos manwl yn gallu cefnogi deall arwyddocâd a natur yr effeithiau ar ddysgwyr.
- 7.26 Y prif awgrym a wnaed gan randdeiliaid ar gyfer gwella monitro oedd symud o fesur canlyniadau 'caled' i gipio'r pellter a deithiwyd, yn enwedig o ran sgiliau meddal ac iechyd meddwl.
- 'Nid yw mesurau caled mor ddefnyddiol â hynny pan mai'r cam mwyaf ymlaen iddynt yw eu cael i gerdded drwy'r drws a mynychu'n rheolaidd.'
- (Contractwr TSC+)
- 7.27 Roedd un Contractwr wedi dechrau llenwi 'Matrics Gwerth Ychwanegol' gyda dysgwyr bob pedair wythnos i helpu i gael tystiolaeth o newid. Yn yr un modd, awgrymodd un rhanddeiliad yn Llywodraeth Cymru y dylid diwygio meincnodau perfformiad i fod yn fwy realistig, o ystyried y gwaith paratoi hirdymor sydd ei angen i ddod â llawer o ddysgwyr yn nes at y farchnad lafur.
- 7.28 Soniodd sawl rhanddeiliad hefyd fod y diffyg rhannu data yn her wrth gasglu tystiolaeth o ddilyniant neu ddealltwriaeth o'r hyn sy'n cynhyrchu canlyniadau ac effeithiau cadarnhaol i ddysgwyr. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth am ba ddata y gellir ei rannu'n gyfreithiol, yn ogystal â diffyg adnoddau i goladu gwybodaeth o ffynonellau lluosog. At hynny, awgrymwyd y dylid rhannu mwy o ddata ac adborth ar atgyfeiriadau gyda sefydliadau atgyfeirio i helpu i gynyddu eu dealltwriaeth o'r elfennau sy'n galluogi llwyddiant a'r hyn sy'n rhwystrau i lwyddo.

Crynodeb o'r Adran

- Soniodd dysgwyr am fuddion eang a chanlyniadau cadarnhaol yn sgil cymryd rhan yn TSC+. Teimlai llawer o ddysgwyr fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon i gael swydd, gan gynnwys y rhai a adawodd y rhaglen yn gynnar.
- Roedd y gefnogaeth wedi cynyddu dealltwriaeth y cyfranogwyr o ddatblygiad gyrfa a'u hymagwedd ato, gan roi dealltwriaeth gliriach o'u llwybrau gyrfa, rhoi gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, a chynyddu eu cymhelliant i ddilyn y cyfleoedd hynny. Credai cyfanswm o 95 y cant fod TSC+ wedi cynyddu eu siawns o ddod o hyd i waith, a 93 y cant yn teimlo ei fod wedi cynyddu eu tebygolrwydd o gael cyflogaeth barhaol.
- O ganlyniad i gymryd rhan yn TSC+, cyfeiriodd 82 y cant o gyfranogwyr at welliannau yn eu bodlonrwydd â bywyd.
- Roedd rhanddeiliaid yn cytuno â chyfranogwyr ynghylch effaith y cymorth yn dod â chyfranogwyr yn nes at y farchnad lafur; fodd bynnag, roedd y cymhlethdodau a wynebai cyfranogwyr yn golygu bod angen cymorth mwy parhaus arnynt i gael cyflogaeth.
- Roedd mwy na chwarter (31 y cant) o'r holl ddysgwyr yn yr arolwg mewn cyflogaeth ar adeg yr arolwg; fodd bynnag, roedd llai na hanner y rhain ar gontractau parhaol neu benagored neu mewn cyflogaeth amser llawn.
- Roedd cyfranogwyr a adawodd y rhaglen yn gynnar yn aml yn gwneud hynny am resymau cadarnhaol (i ryw fath o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant); fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, teimlai rhanddeiliaid fod angen cryfhau gwybodaeth reoli'r Contractwyr er mwyn deall yn well resymau ymadawyr cynnar.
- Dywedodd cyflogwyr fod y cymhorthdal wedi'u galluogi i gymryd rhan yn y rhaglen ac i rai roedd wedi'u galluogi i gyflogi aelod o staff. Er ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o amrywiaeth yn natur y cymorth a gynnigir i gyflogwyr, teimlai mwyafrif helaeth y cyflogwyr fod y cymorth yn bodloni eu hanghenion.
- Cododd nifer o randdeiliaid bryderon ynghylch y ffaith nad oes modd yn y system fonitro bresennol i gipio a chofnodi'r canlyniadau cymhleth, unigoledig a gyflawnir gan ddysgwyr a'r effeithiau arnynt. Tynnwyd sylw at yr angen i symud o fesur canlyniadau caled i gipio a dangos y pellter a deithiwyd, yn enwedig o ran sgiliau meddal ac iechyd meddwl.

8. Crynodeb o'r Canfyddiadau ac Argymhellion

Dyluniad a chyd-destun y rhaglen

- 8.1 Sail dyluniad rhaglen TSC+ oedd yr hyn a ddysgwyd drwy iteriadau blaenorol o Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Hyfforddeiaethau. Mae'r addasiadau wedi helpu i gynyddu hyblygrwydd a chynwysoldeb, gyda chymorth cofleidiol yn atgyfnerthu ac yn helpu i gael cyfranogwyr i aros a gwneud cynnydd cadarnhaol (waeth beth fo'u cefndir). Mae cynllun a dull TSC+ yn cyd-fynd yn agos â pholisiau allweddol y llywodraeth ac yn eu cefnogi, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â'r Warant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.
- 8.2 Fodd bynnag, cynlluniwyd y rhaglen cyn y pandemig ac, o'r herwydd, ni allai fod wedi rhagweld yr effaith ar bobl ifanc a ddeilliodd o'r pandemig neu'r argyfwng costau byw dilynol a'r heriau ychwanegol a roddwyd ar bobl ifanc.
- 8.3 Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru gyda Chontractwyr a'r parodrwydd a'r ymatebolrwydd i addasu'r model gwasanaeth yng ngoleuni'r heriau hyn yn adlewyrchiad o'r dull cydweithredol, 'gallu gwneud' a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru wrth reoli a llywodraethu'r rhaglen.
- 8.4 Er bod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n fawr ar broffil a natur pobl ifanc NEET, mae rhai tueddiadau ymhlith y garfan hon yn rhagflaenu mis Mawrth 2020. Ers 2016 bu cynnydd cyson sydd bron â dyblu yn nifer y menywod 16-18 oed sy'n NEET, ac mae'r data diweddaraf yn dangos, am y tro cyntaf ers casglu'r data, bod mwy o fenywod yn NEET na dynion yn y garfan oedran honno. Mae sefyllfa'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu dosbarthu yn NEET hefyd wedi newid, gydag anweithgarwch economaidd (yn hytrach na bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith) yn llawer mwy cyffredin ymhlith y garfan, wedi'i ysgogi'n arbennig gan lefelau cynyddol o salwch hirdymor (gan gynnwys cyflyrau iechyd meddwl).

Addasiadau i fodel y gwasanaeth

- 8.5 Mae'r addasiadau i fodel y gwasanaeth wedi cael eu croesawu'n eang gan Gontractwyr. Ymddengys fod gwella ar y gweithgareddau cyn ymgysylltu mewn ymateb i rwystrau sy'n gysylltiedig â phryder, iechyd meddwl, a rhyngweithio cymdeithasol wedi bod yn hynod lwyddiannus, yn enwedig y ddarpariaeth 'Bydd Barod / Get Ready' (sydd fel petai wedi ysgogi ymgysylltiad sylweddol yn ystod misoedd yr haf).

Argymhelliad 1

Byddai o fudd archwilio'n fanylach y data monitro ar yr elfen Bydd Barod / Get Ready (os yw'r wybodaeth reoli yn casglu'r dystiolaeth hon) ynghyd â chael gwaith maes wedi'i dargedu yng ngham dilynol y gwerthusiad i ddeall yn well rôl yr elfen hon wrth ysgogi ymgysylltiad.

- 8.6 Mae caniatáu ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol i'r rhaglen o Hydref 2023 ymlaen wedi cynyddu'n sylweddol y niferoedd yn y rhaglen, gan ddangos rôl bosibl y llwybr hwn i'r rhaglen. Amcangyfrifir bod bron i hanner y cyfranogwyr sydd bellach yn cofrestru ar y rhaglen yn hunanatgyfeirio.
- 8.7 Ymddengys hefyd fod addasiadau i'r model ariannol wedi dylanwadu'n fawr ar yr ymgysylltu. Mae addasiadau i'r ffi ymsefydlu i Gontractwyr a'r lwfans hyfforddi i gyfranogwyr wedi bod yn arbennig o allweddol wrth gynyddu cyfraddau ymgysylltu dros y misoedd diwethaf.
- 8.8 Fodd bynnag, nid yw'r addasiadau hyn heb eu heriau. Mae cyfyngiadau ar rannu data yn golygu bod asesu cyfranogwyr sydd wedi hunanatgyfeirio yn fwy cymhleth, gyda rhai sefydliadau rhanddeiliaid (gan gynnwys y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd a'r Contractwyr) yn datblygu dulliau asesu gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru.
- 8.9 Mae'r addasiadau i strwythur taliadau'r Contractwr wedi rhoi mwy o bwyslais (talau) ar gofrestriadau a faint o ymgysylltu a wneir. Gan fod yr addasiadau hyn yn cael eu cyplysu â'r angen am ymgysylltu mwy parhaus â chyfranogwyr (o ystyried eu rhwystrau ychwanegol), mae hyn yn debygol o fod â chyfraddau gwariant sylweddol uwch fesul cyfranogwr.
- 8.10 Mae'r cynnydd yn y lwfans hyfforddi yn cryfhau cymhelliant y cyfranogwr i gofrestru ac, yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw, ymddengys ei fod yn mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi unigolion a chartrefi. Mae risg, fodd bynnag, y gallai'r cynnig gymell pobl ifanc i bontio o addysg neu hyfforddiant i elwa ar y gyfradd lwfans uwch honno (effeithiau cyfnewid). Ymhellach, mae pryderon bod hyn yn dylanwadu ar y sbardun dros ymgysylltu â'r gwasanaeth ymhlith cyfranogwyr. Teimlai rhai rhanddeiliaid, fodd bynnag, fod y lwfans hyfforddi uwch yn effeithiol o ran rhoi gwerth ar amser ac ymdrechion person ifanc, gan felly helpu i hybu eu hunan-barch.

Argymhelliad 2

Dylai gwerthuswyr gael mynediad at wariant y rhaglen dros amser ac adolygu'r gwariant hwnnw i asesu cost-ffeithiolrwydd a chost-ffeithlonrwydd yn erbyn rhaglenni eraill sy'n ceisio ymgysylltu â grŵp targed tebyg.

Argymhelliad 3

Dylid casglu manylion eraill yng ngham nesaf y gwerthusiad ar sefyllfa cyfranogwyr cyn cymryd rhan yn TSC+ ynghyd â'u holi am rôl y lwfans hyfforddi yn eu penderfyniad i gofrestru.

Cynnydd a pherfformiad

- 8.11 Roedd nifer y cofrestriadau misol yn gymharol gyson dros 10-12 mis cyntaf y rhaglen, er bod ychydig o adegau prysurach ym mis Gorffennaf a Hydref. Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ers Ebrill 2023 yn awgrymu cynnydd sylweddol yn y misoedd hyn, ac ers mis Gorffennaf mae cyfradd ymgysylltu fwy parhaus ac uwch yn amlwg yn y rhaglen. Mae'r lefelau cofrestru uwch yn eu tro wedi arwain at yr hyn sy'n ymddangos yn llwyth achosion uwch yn y rhaglen ers mis Gorffennaf 2023.
- 8.12 Mae'r rhaglen yn gynyddol lwyddiannus wrth ennyn cyfranogwyr, a hynny yn ôl pob tebyg oherwydd y gwelliannau a gynigir ac wrth iddi ennill ei phlwyf yn well fel ymyriad. Yn wir, amcangyfrifir bod tua thraean o'r holl rai hynny sy'n 16–18 oed⁵⁹ sy'n NEET yng Nghymru wedi ymgysylltu â TSC+ yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae amrywiad daearyddol eang yn y cyfraddau ymgysylltu, gan fod person ifanc 16-19 oed sy'n byw yn Nhorfaen ychydig o dan wyth gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru yn TSC+ na'r rhai sy'n byw ym Mhowys.

Argymhelliad 4

Dylid archwilio ymhellach y dylanwadau ar y gwahaniaethau daearyddol yn y rhaglen trwy ddadansoddi pellach ar broffiliau cyfranogwyr a llwybrau atgyfeirio yn ôl daearyddiaeth a Chontractwr.

- 8.13 Mae cymryd rhan yn TSC+ wedi'i ddominyddu gan y rheiny sydd wedi cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu. Awgryma'r data diweddaraf fod bron i ddeuparth y cyfranogwyr wedi'u gosod yn y llinyn hwnnw, tra bod un y cant wedi'u cofrestru yn y llinyn Cyflogaeth.

⁵⁹ Cafodd y grŵp oedran oedd yn gymwys ar gyfer TSC+ ei ymestyn i 19 oed ym mis Ionawr 2023.

- 8.14 Mae data perfformiad TSC+ yn cynnig cymysgedd o ddangosyddion, gan gynnwys rhaglenni a gwblhawyd, rhaglenni a orffennwyd, ac yna amrywiol ganlyniadau cadarnhaol. Ar hyn o bryd nid yw'n glir mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddedig beth mae rhaglenni yn ei olygu neu beth yw'r gwahaniaeth rhwng rhaglenni a orffennwyd a rhaglenni a gwblhawyd.

Argymhelliad 5

Dylid ychwanegu diffiniadau cliriach at ddata perfformiad cyhoeddedig er mwyn i'r cyhoedd ddeall yn well beth mae'r derminoleg sy'n gysylltiedig â 'rhaglenni' yn ei olygu.

- 8.15 Mae'r data cyhoeddedig yn dangos bod y rhaglen ychydig yn fyr o'i darged ar gyfer canlyniadau cadarnhaol ym mlwyddyn ariannol 2022–23 (58 y cant o'r cyflawnwyr yn sicrhau canlyniad cadarnhaol o gymharu â tharged o 60 y cant). Fodd bynnag, mae data cyhoeddedig o'r chwarter diweddaraf yn dangos rhai o'r cyfraddau uchaf o ran canlyniadau cadarnhaol ers i'r rhaglen ddechrau, sy'n golygu bod TSC+ yn rhagori ar ei darged.
- 8.16 Nid yw'r data perfformiad cyffredinol, ac yn benodol y targed allweddol o 60 y cant o gyfranogwyr i ganlyniadau cyrchfan cadarnhaol, yn cynnwys canlyniadau niwtral wrth ddadansoddi perfformiad. Mae cyfran y canlyniadau niwtral, fodd bynnag, yn amrywio'n sylweddol fesul lleoliad a Contractwr ac, felly, mae'n cuddio amrywiad mewn perfformiad.

Argymhelliad 6

Dylid ystyried proffil pob canlyniad cyrchfan (boed yn gadarnhaol, niwtral a negyddol) wrth asesu perfformiad ar lefel rhaglen, ac yn ôl Contractwr ac ardal ddaearyddol.

- 8.17 Mae data cyhoeddedig hefyd yn dangos bod dros un o bob pump o'r cyfranogwyr yn sicrhau cyflogaeth ar ôl gadael y rhaglen, tra bod yr arolwg i ddysgwyr sy'n gyflawnwyr ac yn 'ymadawyr cynnar' wedi nodi bod mwy na chwarter y cyfranogwyr bellach yn cael eu cyflogi. Awgryma hyn fod cyfranogwyr yn cael cyflogaeth heb fod angen cymryd rhan yn y llinyn Cyflogaeth, ac o bosibl felly yn bwrw amheuaeth ar gynllun y rhaglen.

Argymhelliad 7

Dylid parhau â'r gwaith monitro agos ar ymgysylltu yn ôl y gwahanol linyddau, yn enwedig er mwyn deall faint o gyfranogiad a geir yn y llinyn Cyflogaeth, a deall patrymau'r ymgysylltu yn y llinyddau ac unrhyw resymau dros hynny.

Argymhelliad 8

Dylid ailadrodd yr arolwg i gyfranogwyr gan fynd ati'n well i dargedu'r rheiny sydd wedi cwblhau'r rhaglen er mwyn deall cyrchfannau'r holl gyfranogwyr yn well (y tu hwnt i'r amserlen bedair wythnos ar gyfer cofnodi canlyniadau drwy'r rhaglen).

- 8.18 Mae data gwybodaeth reoli yn dangos bod y rheiny a oedd wedi cofrestru yn TSC+ ar oedran iau (yn benodol yn 15–16 oed), y rheiny sy'n siarad Cymraeg, a'r rheiny sydd eisoes â chymwysterau uwch (Lefel 2 neu Lefel 3) yn ystadegol arwyddocaol yn fwy tebygol o sicrhau canlyniadau cadarnhaol na'r cyfranogwr TSC+ 'cyffredin'.
- 8.19 Mae ychydig o amrywiad negyddol ym mherfformiad y rhan fwyaf o'r grwpiau ymylol sydd wedi cofrestru ar y rhaglen, gydag achosion ynysig lle ceir mwy o amrywiad sylweddol mewn perfformiad (sef y rhai o darddiad ethnig Asiaidd, a'r rhai sy'n datgan anabledd, yn enwedig ADHD neu awtistiaeth).
- 8.20 Fodd bynnag, mae'r amrywio mewn perfformiad yn fwyaf amlwg ar lefel ddaearyddol. Er enghraifft, mae'r rhai sydd wedi'u cofrestru yn TSC+ yn Sir y Fflint fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r rhai sydd wedi cofrestru ym Mlaenau Gwent.

Argymhelliad 9

Fel rhan o gam nesaf y gwerthusiad, dylid edrych ymhellach ar wybodaeth reoli fanwl a'i dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig a lleoliad, yn ogystal â chynnal gwaith maes wedi'i dargedu i ddeall ysgogwyr perfformiad daearyddol yn well.

Barn am y Model Cyflenwi

- 8.21 Roedd staff cyflenwi, rhanddeiliaid ehangach, a chyfranogwyr i gyd yn gadarnhaol iawn am y model darparu gwasanaeth ac yn enwedig yr addasiadau a wnaed i'w ddyluniad. Cododd rhai bryderon bod TSC+ yn anhyblyg, yn enwedig y dull defnyddio Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio i osod dysgwyr yn llinyddau TSC+. Roedd nifer o ragdybiaethau anghywir ymhlith staff Contractwyr ac Is-gontractwyr mai cyfyngedig oedd y cyfle i staff 'ddiystyru' y system ar sail eu barn broffesiynol.

Credai eraill nad oedd Contractwyr yn gallu newid y penodi i linyddau heb orfod gwneud i'r person ifanc i 'adael' ac yna ailddechrau'r broses asesu. Roedd hyn yn peri risg o ddiethrio dysgwyr rhag ailymuno â'r rhaglen, tra bod system atgyfeirio fewnol syml yn cael ei hystyried yn opsiwn gwell.

Argymhelliad 10

Dylid archwilio pryderon ynghylch anhyblygrwydd, a dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod negeseuon yn cyrraedd staff er mwyn sicrhau bod barn broffesiynol yn cael ei defnyddio'n gyson ar draws y rhaglen, gan gynnwys ymhlith Contractwyr ac unrhyw Is-contractwyr.

Argymhelliad 11

Dylid adolygu'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig â materion gadael, ailddechrau, a'r defnydd o ddisgresiwn Contractwr, a hynny er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y dulliau gweithredu, gan alluogi cyfranogwyr i ailgysylltu â'r gwasanaeth yn haws, yn enwedig yn achos absenoldeb dros dro.

- 8.22 Tybiwyd mai llwyddiannus ar y cyfan oedd y gweithgarwch marchnata a hyrwyddo a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen, er bod rhai rhanddeiliaid wedi sôn am yr angen i gryfhau gweithgarwch hyrwyddo mewn ysgolion, i ddefnyddio mwy o amrywiaeth o sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, ac i sicrhau ffocws parhaus ar gysondeb y negeseuon (yn enwedig yng ngoleuni newidiadau polisi sy'n effeithio ar gyflenwi TSC+).

Argymhelliad 12

Dylid mynd ati'n rheolaidd i adolygu cysondeb negeseuon marchnata er mwyn sicrhau aliniad llawn â newidiadau polisi TSC+, yn enwedig i sicrhau bod Contractwyr, Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd, a phobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r rhaglen, yn deall nodweddion cyfredol yr hyn a gynnigir yn llawn.

- 8.23 Roedd cyfranogwyr o'r farn bod cofrestru ar y rhaglen yn gadarnhaol, a chredent fod TSC+ yn hygyrch a'r staff yn garedig ac yn gefnogol.
- 8.24 Er bod y rhaglen yn cael ei hystyried yn gynhwysol, nid ymddengys bod llawer o dystiolaeth bod Contractwyr wedi gweithio gyda grwpiau ymylol i ddylunio modelau cymorth cynhwysol. Wedi dweud hynny, teimlai bron i naw o bob 10 dysgwr fod y rhaglen yn foddhaol neu'n dda o ran cynhwysiant a hygyrchedd.

- 8.25 Soniodd rhanddeiliaid mai ychydig o alw oedd yna am ddarpariaeth drwy'r Gymraeg gan ddysgwyr, tra bod dau Gontractwr wedi cael trafferth recriwtio tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith. Ystyriwyd hefyd bod costau adnoddau ychwanegol yn rhwystr i ddarpariaeth Gymraeg (roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol ers hynny ar gyfer darpariaeth Gymraeg).
- 8.26 Ymhlith y cyfranogwyr, teimlai naw o bob 10 ohonynt fod y cymorth wedi bodloni neu ragori ar eu disgwyliadau, tra bod tri chwarter yn teimlo nad oedd unrhyw ffordd y gellid gwella'r rhaglen.
- 8.27 Dim ond tri y cant (3/93) o'r cyfranogwyr gweithredol a gredai y gallai staff fod wedi bod yn fwy cydymdeimladol neu gefnogol, o gymharu â 13 y cant (16/56) o'r ymadawyr cynnar. Awgryma hyn fod dull gweithio'r staff yn chwarae rhan wrth gael dysgwyr i aros.
- 8.28 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod TSC+ yn llenwi bwlch yn y gwasanaethau a ddarperir yn lleol ond efallai y bydd angen integreiddio mwy o gymorth gan wasanaethau eraill er mwyn sicrhau bod yr holl opsiynau cymorth ar gael i bobl ifanc.

Argymhelliad 13

Dylai'r gwerthusiad archwilio natur a graddau gweithgarwch cydweithredu neu atgyfeirio TSC+ er mwyn deall yn well i ba raddau y mae gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio â darpariaeth cymorth arall, yn enwedig wrth i nifer y gweithgareddau a gynhelir ag adnoddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) gynyddu.

Canlyniadau/Effeithiau'r Cymorth

- 8.29 Soniodd dysgwyr am fuddion eang a chanlyniadau cadarnhaol yn sgil cymryd rhan yn TSC+. Teimlai llawer o ddysgwyr fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu rhagolygon i gael swydd, gan gynnwys y rhai a adawodd y rhaglen yn gynnar. Roedd 95 y cant yn meddwl bod TSC+ wedi cynyddu eu siawns o ddod o hyd i waith, a 93 y cant yn teimlo ei fod yn cynyddu eu tebygolrwydd o gael cyflogaeth barhaol. Ymhellach, cyfeiriodd 82 y cant o gyfranogwyr at welliannau yn eu bodlonrwydd â bywyd yn ogystal â dangosyddion llesiant eraill ers cymryd rhan yn y rhaglen.
- 8.30 Cododd nifer o randdeiliaid, fodd bynnag, bryderon ynghylch y ffaith nad oes modd yn y system fonitro bresennol i gipio a chofnodi'r canlyniadau cymhleth, unigoledig a

gyflawnir gan ddysgwyr a'r effeithiau arnynt. Tynnwyd sylw ganddynt at yr angen i symud o fesur canlyniadau caled i gipio a dangos y pellter a deithiwyd, yn enwedig o ran sgiliau meddal ac iechyd meddwl.

Argymhelliad 14

Dylid casglu dangosyddion llesiant yn fwy cyson fel rhan o broses gofrestru cyfranogwyr TSC+. Bydd hyn yn helpu i gofnodi'r gwerth cymdeithasol a enillwyd trwy gymryd rhan yn y rhaglen.

Argymhelliad 15

Dylid mabwysiadu dull gweithredu cyson ar draws y rhaglen ar gyfer cofnodi'n electronig y rhwystrau sydd gan gyfranogwyr rhag cofrestru ac yna olrhain a mesur canlyniadau meddal i helpu i ddarlunio effaith cymorth TSC+.

- 8.31 Cydsyniai rhanddeiliaid ar effaith y cymorth ond, o ystyried y cymhlethdodau a wyneba cyfranogwyr, sylweddolir bod angen cymorth mwy parhaus arnynt i gael cyflogaeth. Pan adawai cyfranogwyr y rhaglen yn gynnar, roeddent yn aml yn gwneud hynny am resymau cadarnhaol (yn nodweddiadol i ryw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth); fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o'r rhai a holwyd a oedd wedi sicrhau cyflogaeth gan amlaf yn gysylltiedig â chontractau ansicr (dros dro neu ddim oriau).
- 8.32 Mae'r data gwybodaeth reoli a gedwir gan Gontractwr yn rhoi manylion am sefyllfaoedd cyfranogwyr (ymadawyr cynnar, cyflawnwyr, ac a yw eu canlyniadau yn gadarnhaol, yn niwtral neu'n negyddol). Dylai'r manylyn hwn lywio natur y ffrâm sampl ar gyfer gwaith maes dilynol gyda chyfranogwyr (yn enwedig i ddeall yn well y rhai a gofnodwyd i fod â chanlyniadau negyddol ac i gael cipolwg pellach ar sefyllfaoedd ymadawyr cynnar a chyflawnwyr dros y tymor hwy).

Argymhelliad 16

Dylid cael gwybodaeth reoli adnabyddadwy trwy Gontractwyr i fod yn sail i ffrâm y sampl ar gyfer gwaith maes.

Adran Cyfeiriadau

Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (2022) 'Youth Employment Initiative Leavers Survey Report 2016-2019'. Ar gael yn: [European Social Fund and Youth Employment Initiative Leavers Survey Report 2016-2019 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/european-social-fund-and-youth-employment-initiative-leavers-survey-report-2016-2019.pdf).

Brown, C. *et al.* (2021) 'Introduction to the special issue: a conceptual framework for researching the risks to early leaving', *Journal of Education and Work*, 34(7–8), tt. 723–739. Ar gael yn: <https://doi.org/10.1080/13639080.2021.2003007>.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2023) *Cymru Can: ein Gweledigaeth a'n Pwrpas*. Ar gael yn: <https://www.futuregenerations.wales/cy/work/cymru-can/> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Estyn (2023) *Rhaglen ieuencid Twf Swyddi Cymru+: mewnwelediadau Hydref 2023*. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/rhaglen-ieuencid-twfwyddi-cymru-mewnwelediadau-hydref-2023> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Gyrfa Cymru (2023) *Hynt disgyblion | Gyrfa Cymru*. Ar gael yn: <https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/hynt-disgyblion> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) 'Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir: Dull Asesu Effaith Lles Meddyliol. Crynodeb Gweithredol'. Ar gael yn: [Canlyniadau chwilio - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gov.wales/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/canlyniadau-chwilio-lechyd-cyhoeddus-cymru-gig.cymru.pdf)

Llywodraeth Cymru (2013) 'Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid: Cynllun Gweithredu'. Ar gael yn: [Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid: cynllun gweithredu | LLYW.CYMRU](https://www.gov.wales/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/fframwaith-ymgysylltu-a-datblygu-ieuencid-cynllun-gweithredu-llyw.cymru.pdf) (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2015) *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr Hanfodion*. Ar gael yn: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](https://www.gov.wales/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html-llyw.cymru.pdf) (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2016) *Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-twfwyddi-cymru> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2017a) 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr'. Ar gael yn: [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: yr hanfodion \[HTML\] | LLYW.CYMRU](https://www.gov.wales/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion-html-llyw.cymru.pdf)

Llywodraeth Cymru (2017b) 'Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru'. Ar gael yn: <https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Ffyniant-i-bawb.pdf> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2018) 'Cynllun Cyflogadwyedd'. Ar gael yn: [Cynllun cyflogadwyedd 2018 | LLYW.CYMRU](https://www.gov.wales/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/103442/cynllun-cyflogadwyedd-2018-llyw.cymru.pdf) (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2019) *Gwerthusiad o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-hyfforddeiaethau> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2020a) *Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru 2*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-twff-swyddi-cymru-2> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2020b) *Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/deall-y-gwahanol-ffynonellau-ystadegau-ar-bobl-ifanc-nad-ydynt-mewn-addysg-cyflogaeth-na-hyfforddiant-neet-yng-nghymru> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2021a) *Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2021b) *Rhaglen lywodraethu: diweddariad*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2022a) 'Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol'. Ar gael yn: [Cynllun cyflogadwyedd 2018 | LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol)

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-strategol-anabledd-dysgu-2022-i-2026-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2022c) *Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2022d) *Cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol: Cymru wrth-hiliol*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cydraddoldeb-hiliol-cymru-wrth-hiliol> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2022e) *Cymru gryfach, decach a gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-cynllun-cyflogadwyedd-sgiliau> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2022f) *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid: Trosolwg*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/fframwaith-ymgysylltiad-chynnydd-ieuenctid-trosolwg> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023a) *Fframwaith Credydau a Chymwysterau (CQFW)*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/fframwaith-credydau-chymwysterau> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023b) *Manyleb Rhaglen Twf Swyddi Cymru+*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/manyleb-rhaglen-twff-swyddi-cymru-plws> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023c) *Ystadegau Twf Swyddi Cymru+: Ebrill 2022 i Mawrth 2023*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-twff-swyddi-cymru-ebryll-2022-i-mawrth-2023-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023d) *Cynllun treialu anogwr cyflogaeth gefnogol Twf Swyddi Cymru+ (gwerthusiad): 2021 i 2022*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-treialu-anogwr-cyflogaeth-gefnogol-twf-swyddi-cymru-plws-2021-i-2022> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023e) *Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg ac yn y farchnad lafur: 2021 a 2022 (dros dro)*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cyfranogiad-pobl-ifanc-mewn-addysg-ac-yn-y-farchnad-lafur-2021-2022-dros-dro-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Llywodraeth Cymru (2023f) *Rhaglen Adnewyddu a Diwygio – Mentrau Cymorth Prosiectau Ôl-16 a Phontio: asesiad effaith integredig*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/rhaglen-adnewyddu-diwygio-mentrau-cymorth-prosiectau-ol-16-phontio-asesiad-effaith-integredig-html> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).


Llywodraeth Cymru (2024) *Gwerthusiad o Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy: perfformiad a gwerth am arian y rhaglenni*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-cymunedau-am-waith-cymunedau-am-waith-mwy-perfformiad-gwerth-am-arian-y-rhaglenni> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (2024) *Briff: Ystadegau'r Farchnad Lafur, Mawrth*. Ar gael yn: [Labour Market Statistics, March 2024 | Institute for Employment Studies \(IES\) \(employment-studies.co.uk\)](https://www.employment-studies.co.uk) (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Sefydliad Resolution (2024) 'We've only just begun', 26 Chwefror. Ar gael yn: <https://www.resolutionfoundation.org/publications/weve-only-just-begun/> (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023) *Cyfrifiad 2021*. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/census>. Hawlfraint y Goron (Aethpwyd iddo: 13 Mai 2024).

Atodiad A – Theori Newid



Atodiad B – Canllaw Trafod – Cyfweiliadau Cwmpasu

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

1. Rhowch amlinelliad o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau mewn cysylltiad â TSC+.
2. Eglurwch sut mae TSC+ yn gweithredu yn eich ardal neu mewn perthynas â'ch rôl. Nid ydym eisiau gwybod am effeithiolrwydd ac ati am y tro. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r ffocws ar hyn o bryd ar ddeall sut mae'r rhaglen yn gweithio ac yn gweithredu.
3. Pa mor gryf yw'r rhesymeg dros TSC+ a'r gefnogaeth y mae'r rhaglen yn ei darparu?
 - a) Pa ffactorau, os o gwbl, allai ddylanwadu ar y rhesymeg dros y rhaglen?
 - b) I ba raddau y bydd yr amodau economaidd presennol yn dylanwadu ar y rhesymeg?
4. A oeddech wedi bod yn rhan o ddylunio TSC+? Os oeddech:
 - a) Beth oedd y prif faterion a dylanwadau a ystyriwyd wrth ddylunio'r rhaglen?
 - b) Pa opsiynau gafodd eu hystyried?
 - c) Pan gafodd opsiynau eu diystyru, beth oedd y prif resymau dros y penderfyniadau hynny?
 - d) I ba raddau yr oedd nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) yn flaenorol), a model cymdeithasol o anabledd wedi'u hystyried wrth ddylunio rhaglen TSC+?
5. A ydych chi'n ymwneud â chasglu data am y rhaglen? Os ydych, eglurwch:
 - a) Pa ddata a gasglwyd gennych
 - b) Pryd y casglwyd y data
 - c) A fyddai'n bosibl rhannu'r data â'r tîm gwerthuso
 - d) Unrhyw brosesau sy'n gysylltiedig â'r uchod
6. Beth yw cryfderau a gwendidau'r ffordd y sefydlwyd TSC+ y gallai fod angen i'r gwerthusiad eu harchwilio? *[sef elfennau hynny'r rhaglen sydd o fewn rheolaeth y rhai sy'n rheoli ac yn cynnal y rhaglen]*
7. Sut byddwn yn gwybod bod TSC+ wedi bod yn llwyddiannus? [Nid oes angen cyfyngu eich hun i unrhyw ddangosyddion perfformiad sydd gan y rhaglen wrth ymateb i'r cwestiwn hwn.]
8. Yn eich barn chi, beth yw'r heriau wrth fynd i'r afael â'r agenda anghydraddoldeb drwy TSC+? A sut y dylid mesur llwyddiant yn y maes hwn?

9. Er mwyn llywio ein ffordd o feddwl a datblygu'r fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad, beth yw'r ffactorau allweddol y dylem eu hystyried wrth farnu gwerth ychwanegol TSC+?
10. Beth ydych chi'n ei ragweld yw'r cyfleoedd i'r rhaglen? [*Ffactorau allanol a allai ddylanwadu'n gadarnhaol ar ei llwyddiant, y rheolaeth arni a'i chynnal*]
11. Ac wedyn, beth ydych chi'n ei ragweld yw'r bygythiadau i'r rhaglen? [*Unwaith eto, ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar ei llwyddiant, y rheolaeth arni a'i chynnal, ond y tro hwn mewn ffordd negyddol*]
12. Rydym yn cynnig sefydlu Grŵp Cynghori ar Ymchwil (RAG) fel rhan o werthuso'r rhaglen. Bydd hwn yn grŵp o ddysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid a fydd yn rhoi cyngor i'r broses werthuso, gan gyfarfod o bryd i'w gilydd i archwilio materion sy'n cynnwys cynllunio ymchwil a chasglu data. Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar y cynnig hwn ac, yn benodol, eich barn ar sut y gellir recriwtio dysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid yn aelodau o'r grŵp.
13. A oeddech chi'n disgwyl i mi holi ynghylch unrhyw beth arall nad ydym wedi ei drafod?
14. A oes unrhyw beth arall y dylem fod yn ymwybodol ohono neu yr hoffech inni ganolbwyntio arno'n benodol fel rhan o'r gwerthusiad?

Atodiad C – Canllaw Trafod – Cyfweiliad dros y ffôn â chyfranogwr (Cyfranogwyr gweithredol)

Cwestiynau ar gyfer trafodaeth

Cam 1: i'w arwain gan y sawl a gaiff ei gyfsweld

1. Mae ein cofnodion yn dangos eich bod wedi gweithio gyda [Enw'r Darparwr], a oedd wedi eich cefnogi drwy raglen Twf Swyddi Cymru+. A fydddech cystal â dweud wrthym am eich profiad o Twf Swyddi Cymru+ a'r cymorth yr ydych wedi'i gael?

Nodiadau i'r cyfwelydd:

Peidiwch â thorri ar eu traws — arhoswch am y coda (arwydd naturiol eu bod wedi gorffen)

Peidiwch ag awgrymu beth rydych chi'n chwilio amdano

Ar ôl y coda gofynnwch: 'A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrtha i?'

Cam 2: Cwestiynau gosod — gofynnwch y cwestiwn os nad yw wedi'i ateb eisoes yn Ngham1.

2. Dywedwch wrtha i sut daethoch chi i wybod am raglen TSC+.
3. Dywedwch wrtha i sut y gwnaethoch y cyswllt cyntaf â TSC+.

Cadarnhewch a oedd yn y cnawd, ar-lein neu'n gymysgedd

Os mai sefydliad a oedd wedi trefnu mynediad, cadarnhewch enw'r sefydliad neu ai Cymru'n Gweithio oedd wedi'i drefnu

4. A oedd unrhyw heriau o ran cael mynediad at TSC+?

Gan gynnwys heriau logistaidd wrth gael mynediad i Gontractwr / swyddfa TSC+, problemau mynediad ar-lein (fel materion TG neu gysylltedd), cysylltu dros y ffôn, etc.

5. A oedd gennych unrhyw anghenion hygrychedd/gofynion mynediad pan ymunoch â rhaglen TSC+?
 - a. Os atebwyd *Oedd*, a gafodd yr anghenion/gofynion hyn eu bodloni yn ystod eich cysylltiad â TSC+?
 - b. Os naddo, beth oedd y problemau?
 - i. Beth sydd angen ei wella i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn i chi?

6. Ydych chi'n siarad Cymraeg? *Ydw/Nac ydw*

7. (Os Nac ydw ewch i Cwestiwn 8) A wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg?

Os na wnaethon nhw, ydyn nhw eisiau'r gwasanaeth yn Gymraeg? Os ydyn nhw, pam na wnaethant? A oedd unrhyw rwystrau i gael y gwasanaeth yn Gymraeg?

Os oeddent yn cyrchu'r gwasanaeth yn Gymraeg, a oedd unrhyw rwystrau? Pa mor rhwydd ydoedd?

Os oedd yn anodd, a fyddech cystal â dweud mwy wrthym pam yr oedd gwasanaeth TSC+ yn y Gymraeg yn anodd i chi ei gael.

8. Beth oeddech chi'n ei ddisgwyl o TSC+?

A wnaeth TSC+ fodloni eich disgwyliadau? A wnaeth y gwasanaeth ddarparu mwy na'r disgwyl neu lai na'r disgwyl?

9. Sut gwnaeth staff TSC+ siarad â chi am eich anghenion neu'ch dymuniadau o'r rhaglen?

Pa fath o bethau wnaethoch chi ddweud wrthyn nhw?

A allwch chi ddweud wrtha i pa mor ddefnyddiol oedd hynny a pham yr ydych yn dweud hynny?

10. A ydych chi'n gwybod ym mha llinyn wnaethoch chi ymuno gyntaf ynddo yn rhaglen TSC+? Os ydych, pa un?

Pa llinyn TSC+ wnaethon nhw ddechrau ynddo? [Ticiwch un yn unig]

Llinyn Ymgysylltu TSC+	Llinyn Datblygu TSC+	Llinyn Cyflogaeth TSC+
Help i benderfynu pa lwybr gyrfa i'w ddilyn neu gael mwy o help i gymryd rhan mewn cyflogaeth ac addysg.	Help i gael cymwysterau neu gymorth i gael swydd neu eu rhoi ar lwybr gyrfa sydd eisoes mewn golwg, gan gynnwys cael sgiliau newydd.	Help i gael gwaith oherwydd eu bod eisoes yn barod i ddechrau gweithio ac yn gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud.

Ddim yn gwybod/Ansicr

11. Os Nac ydw/Ddim yn gwybod/Ansicr, a allwch ddweud ychydig wrthyf am y pethau cyntaf a wnaethoch? *Defnyddiwch y blychau uchod i gysylltu'r atebydd â llinyn.*

12. Ydych chi'n cofio cael lwfans hyfforddi gan Twf Swyddi Cymru+?

Ydw *Nac ydw (Ewch i gwestiwn 18)* *Ddim yn gwybod (Ewch i gwestiwn 18)*

13. Os Ydw, ar gyfer beth wnaethoch chi ddefnyddio'r lwfans?

14. I ba raddau yr oedd cael y lwfans wedi dylanwadu ar eich penderfyniad i ymuno â Twf Swyddi Cymru+?

Yn llwyr I ryw raddau Dim o gwbl Ddim yn gwybod

15. I ba raddau yr oedd swm y lwfans wedi dylanwadu ar eich penderfyniad i ymuno â rhaglen Twf Swyddi Cymru+?

Yn llwyr I ryw raddau Dim o gwbl Ddim yn gwybod

16. I ba raddau yr oedd cael y lwfans wedi dylanwadu ar eich penderfyniad i aros ar raglen Twf Swyddi Cymru+?

Yn llwyr I ryw raddau Dim o gwbl Ddim yn gwybod

17. I ba raddau wnaeth cael y lwfans leihau unrhyw bwysau ariannol arnoch chi?

Yn llwyr I ryw raddau Dim o gwbl Ddim yn gwybod

Os 'Yn llwyr', 'I ryw raddau' neu 'Dim o gwbl', gofynnwch: 'Pam ydych chi'n dweud hynny?'

18. Pa ffordd arall wnaeth TSC+ eich cefnogi?

Gallai hyn fod, er enghraifft, i gael mynediad at hyfforddiant neu i ennill hyder, sgiliau cyflogadwyedd neu help i ddychwelyd i'r gwaith. Efallai y byddant yn sôn am weithio gyda gweithiwr allweddol. Gofynnwch am y pethau a wnaethant gyda'r gweithiwr allweddol. Gofynnwch pa mor aml yr oeddent wedi cysylltu/rhyngweithio.

19. A oedd y cymorth hwn yn bodloni'r disgwyliadau a oedd gennych, fel yr ydych wedi'i ddisgrifio i mi yn barod?

20. A oedd y cymorth yn bodloni'r anghenion yr oeddech wedi siarad amdanynt ag aelod o staff TSC+?

A allwch chi ddweud wrtha i pam yr ydych yn dweud hynny?

21. A wnaethoch chi fanteisio ar yr holl gymorth a gynigiwyd i chi drwy TSC+? *Do/Naddo*

22. [Os *Naddo* yng Nghwestiwn 21] Dywedwch mwy wrtha i pam na wnaethoch chi fanteisio ar y cymorth?

23. [Os *Do* yng Nghwestiwn 21] A oeddech chi wedi gallu cael mynediad at y cymorth hwnnw ar unwaith neu a oedd oedi?

24. [Os *Do* yng Nghwestiwn 21] Pwy oedd wedi rhoi'r cymorth?

[Os *Do* yng Nghwestiwn 21] Oeddech chi'n teimlo mai'r llinyn hwn oedd y peth iawn i chi?

25. [Os *Do* yng Nghwestiwn 21] A fydddech chi wedi gwneud y pethau hynny/wedi cael y profiadau hynny pe bydddech chi ddim wedi bod ar y rhaglen TSC+? Esboniwch eich ateb.

26. A wnaethoch chi symud i llinyn arall rhaglen TSC+? [*NODYN I'R CYFWELYDD: Efallai fod rhai cyfranogwyr wedi symud i llinyn is wrth i anghenion gael eu nodi.*]

[*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*]

Llinyn Ymgysylltu TSC+	Llinyn Datblygu TSC+	Llinyn Cyflogaeth TSC+
Help i benderfynu pa lwybr gyrfa i'w ddilyn neu gael mwy o help i gymryd rhan mewn cyflogaeth ac addysg.	Help i gael cymwysterau neu gymorth i gael swydd neu eu rhoi ar lwybr gyrfa sydd eisoes mewn golwg, gan gynnwys cael sgiliau newydd.	Help i gael gwaith oherwydd eu bod eisoes yn barod i ddechrau gweithio ac yn gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud.
Ddim yn gwybod/Ansicr		

27. Beth oedd eich barn am y symud/newid?

- a. Ydych chi'n gwybod pam wnaethoch chi symud llinyn?
- b. Oeddech chi'n cytuno â'r symud?
 - i. Pam oeddech chi'n cytuno neu ddim yn cytuno â'r symud?

28. [Os *Naddo* yng Nghwestiwn 27] A oes rheswm pam na wnaethoch chi symud i llinyn arall?

29. Ydych chi'n gallu dweud ychydig ynghylch beth rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

[*Cyflogaeth, addysg/hyfforddiant, gwirfoddoli, di-waith...*]

[*Holwch a ydyn nhw'n dal gyda TSC+ neu raglen arall — yn debygol os ydynt yn 19 oed neu hŷn.*]

30. Wrth feddwl yn ôl nawr am y gefnogaeth gan TSC+, yn gyffredinol, pa effaith, os o gwbl, fydddech chi'n dweud bod ymgysylltu â TSC+ wedi'i chael arnoch chi a'r hyn rydych chi'n ei wneud nawr?

31. A wnaeth y gefnogaeth ddylanwadu ar unrhyw un o'r canlynol?

- a) Eich dealltwriaeth o'r swydd neu lwybr gyrfa yr ydych am ei dilyn?
- b) Eich ffordd o fynd ati i chwilio am waith ac/neu swydd? Os *Do*, eglurwch.
- c) Eich cymhelliant i ystyried cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant? Os *Do*, eglurwch.
- d) Eich gwybodaeth a'ch ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant a'r gyflogaeth sydd ar gael i chi? Os *Do*, eglurwch.
- e) Canfod neu newid eich swydd/cyflogaeth? Os *Do*, eglurwch.

Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud â sut mae eich teimladau am agweddau ar eich bywyd wedi newid ers ymwneud â TSC+. Nid oes atebion cywir nac anghywir.

32. Ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn hoffwn i chi roi ateb ar sut mae'r pethau hyn wedi newid i chi.

a) Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi gyda'ch bywyd heddiw o'i gymharu â sut oeddech chi'n teimlo cyn cymryd rhan yn TSC+?

Rwy'n llawer mwy bodlon â fy mywyd nawr.

Rwyf ychydig yn fwy bodlon â fy mywyd nawr.

Yr un fath.

Rwyf ychydig yn llai bodlon â fy mywyd nawr.

Rwy'n llawer llai bodlon â fy mywyd nawr.

b) Yn gyffredinol, o ran pa mor werth chweil ydych chi'n teimlo yw'r pethau rydych chi'n eu gwneud mewn bywyd, pa mor wahanol ydych chi'n teimlo heddiw o gymharu â sut oeddech chi'n teimlo cyn cymryd rhan yn TSC?

Rwy'n teimlo bod y pethau rwy'n eu gwneud yn fy mywyd ...

Yn llawer mwy gwerth chweil nawr

Ychydig yn fwy gwerth chweil nawr

Yr un fath

Ychydig yn llai gwerth chweil nawr

Yn llawer llai gwerth chweil nawr

c) Yn gyffredinol, pa mor hapus ydych chi'n teimlo heddiw o gymharu â sut oeddech chi'n teimlo cyn cymryd rhan yn TSC+?

Rwy'n teimlo ...

Yn llawer hapusach nawr

Ychydig yn hapusach nawr

Yr un fath

Ychydig yn llai hapus nawr

Yn llawer llai hapus nawr

d) Yn gyffredinol, pa mor bryderus ydych chi'n teimlo heddiw o gymharu â pha mor bryderus oeddech chi'n teimlo cyn cymryd rhan yn TSC+?

Rwy'n teimlo ...

Yn llawer llai pryderus nawr

Ychydig yn llai pryderus nawr

Yr un fath

Ychydig yn fwy pryderus nawr

Yn llawer mwy pryderus nawr

NODYN I'R CYFWELYDD: Os bydd y sawl sy'n cael ei gyfweld yn dweud bod unrhyw fesurau uchod *wedi gwaethygu'n fawr*, dywedwch wrthyn nhw: 'Dylet ti gysylltu ag [Enw'r Darparwr], gan y byddan nhw'n gallu dy helpu di â hynne. Neu, gallet ti gysylltu ag unrhyw un o'r rhain:

- **C.A.L.L. Helpline**, llinell gymorth iechyd meddwl ar gyfer Cymru (ffonia 0800 132 737 neu tecstio 'help' i 81066 neu cer i www.callhelpline.org.uk)
- **Llinell Gymorth MEIC** Cymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed, maen nhw ar agor rhwng 8 y bore a hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos. Gelli gysylltu â nhw heb dalu drwy ffonio 080880 23456, anfon neges destun at 84001, neu gael sgwrs ar-lein ar eu gwefan yn: <https://www.meiccymru.org/cym/>

Mae'r gwasanaethau canlynol ar gael 24/7:

- Galw Iechyd Cymru / NHS Direct ar 111
- Y Samariaid 0808 164 0123 (y llinell Saesneg yw 116 123)
- Childline ar 0800 1111

33. A yw ymwneud â TSC+ wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffordd rydych chi'n teimlo am eich bywyd? Esboniwch eich ateb.

34. A oes unrhyw ffyrdd y teimlwch y gellid gwella TSC+?

35. *[Gofynnwch i bawb]* Beth yw eich barn am TSC+ o ran cynhwysiant a hygyrchedd?

a. A oes unrhyw ffyrdd y gellid gwella TSC+ o ran cynhwysiant a hygyrchedd?

[Gofynnwch os na thrafodwyd eisoes yng Nghwestiwn 28 uchod.]

b. I ba raddau oeddech chi'n teimlo y gallech gwyno os teimlech eich bod yn cael eich trin yn annheg neu y gwahaniaethwyd yn eich erbyn am unrhyw reswm? *[Yn llwyr, I ryw raddau, Ychydig, Dim o gwbl]*

i. *[Os Ychydig neu Dim o gwbl, ydych chi'n gallu egluro'n fyr pam rydych yn dweud hynny?]*

1. A ydych yn gwybod am drefn gwyno eich Contractwr?

c. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod TSC+ yn sicrhau bod eich anghenion yn cael eu hadlewyrchu yn y mathau o gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi gan y rhaglen? *[Yn llwyr, I ryw raddau, Ychydig, Dim o gwbl]*

- i. [Os *Ychydig* neu *Dim o gwbl*, ydych chi'n gallu egluro'n fyr pam rydych yn dweud hynny?]

36.A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu ynghylch eich profiad o TSC+?

Atodiad D – Canllaw Trafod – Arolwg Cyrchfan Cyfranogwyr (Cyflawnwyr TSC+)

Eich ymwneud â Twf Swyddi Cymru+

1. Gaf i gadarnhau eich bod wedi ymuno â Twf Swyddi Cymru+ yn y lle cyntaf gyda [Enw'r Darparwr] yn [Mis/Blwyddyn]?
 - a. A yw hwn yn gywir? [*Ydi/Nac ydi*]
 - b. [Os atebwyd *Nac ydi* i Gwestiwn 1A] Fedrwch chi gadarnhau pa fis a blwyddyn wnaethoch chi ymuno gyntaf â Twf Swyddi Cymru+? [*Mis/Blwyddyn*]
2. Pa un o linyrnau cymorth TSC+ wnaethoch chi gymryd rhan ynddynt?

[Ticiwch bob un sy'n berthnasol]

Llinyn Ymgysylltu TSC+	Llinyn Datblygu TSC+	Llinyn Cyflogaeth TSC+
Help i benderfynu pa lwybr gyrfa i'w ddilyn neu gael mwy o help i gymryd rhan mewn cyflogaeth ac addysg.	Help i gael cymwysterau neu gymorth i gael swydd neu eu rhoi ar lwybr gyrfa sydd eisoes mewn golwg, gan gynnwys cael sgiliau newydd.	Help i gael gwaith oherwydd eu bod eisoes yn barod i ddechrau gweithio ac yn gwybod beth maen nhw eisiau ei wneud.
Ddim yn gwybod/Ansicr		

3. A allwch chi gadarnhau eich bod wedi cwblhau eich rhaglen Twf Swyddi Cymru+ o gael cymorth?

Do (Ewch i gwestiwn 4)

Naddo, rwy'n dal yn cael fy nghefnogi gan TSC+ (Ewch i gwestiwn 6)

Naddo, mi wnes adael y rhaglen yn gynnar (Ewch i gwestiwn 5)

4. A allwch chi gadarnhau pa fis a blwyddyn y gwnaethoch chi gwblhau eich rhaglen Twf Swyddi Cymru+/cymorth? [*Mis/Blwyddyn*] (Ewch i gwestiwn 6)

5. A allwch chi gadarnhau pa fis a blwyddyn y gwnaethoch chi adael rhaglen Twf Swyddi Cymru+/cymorth? [*Mis/Blwyddyn*] (Ewch i gwestiwn 6)

6. A wnewch chi ddweud wrthym am eich profiad o Twf Swyddi Cymru+ a'r gefnogaeth a gawsoch?

Nodiadau i'r cyfwelydd:

Peidiwch â thorri ar eu traws — arhoswch am y coda (arwydd naturiol eu bod wedi gorffen)

Peidiwch ag awgrymu beth rydych chi'n chwilio amdano

Ar ôl y coda gofynnwch: 'A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrtha i?'

7. Beth oeddech chi'n ei ddisgwyl o TSC+?

A wnaeth TSC+ fodloni eich disgwyliadau? A wnaeth y gwasanaeth roi mwy na'r hyn roeddech chi'n ei ddisgwyl neu lai nag oeddech chi'n ei ddisgwyl?

8. A oes unrhyw ffyrdd y teimlwch y gellid gwella TSC+?

9. *[Gofynnwch i bawb]* Beth oedd eich barn a'ch profiad o TSC+ o ran cynhwysiant a hygyrchedd?

a. A oes unrhyw ffyrdd y gellid gwella TSC+ o ran cynhwysiant a hygyrchedd
[Gofynnwch hyn os nad yw wedi cael sylw yng Nghwestiwn 8 uchod]

b. I ba raddau y teimlwch y gallech chi gwyno os oeddech chi'n teimlo eich bod chi'n cael eich trin yn annheg neu bod gwahaniaethu yn digwydd eich erbyn tra oeddech ar raglen TSC+ am unrhyw reswm? *[Yn llwyr, I ryw raddau, Ychydig, Dim o gwbl]*

i. *[Os Ychydig neu Dim o gwbl, ydych chi'n gallu egluro'n fyr pam rydych yn dweud hynny?]*

1. A oeddech chi'n ymwybodol o'r drefn gwyno ar gyfer eich contractwr?

c. I ba raddau ydych chi'n teimlo bod TSC+ yn sicrhau bod eich anghenion yn cael eu hadlewyrchu yn y mathau o gefnogaeth sydd ei hangen arnoch chi gan y rhaglen? *[Yn llwyr, I ryw raddau, Ychydig, Dim o gwbl]*

i. *[Os Ychydig neu Dim o gwbl, ydych chi'n gallu egluro'n fyr pam rydych yn dweud hynny?]*

Sefyllfa ers ymuno â'r rhaglen

10. Pa un o'r canlynol fydddech chi'n ei ddweud yw eich prif weithgaredd nawr?

Nodyn i'r cyfwelydd: Darllenwch yn uchel y codau a'r cod sengl.

Os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth neu'n aros i ddechrau swydd newydd, yna rhowch y cod 'Cyflogedig gan gynnwys gan aelod o'r teulu, neu ar brentisiaeth'. Os yw'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn aros i gwrs hyfforddi ddechrau neu ar TSC+, yna rhowch y cod 'Mewn addysg neu hyfforddiant'.

- Mewn cyflogaeth gan gynnwys wedi fy nghyflogi gan aelod o'r teulu, neu ar brentisiaeth
- Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith
- Mewn addysg neu hyfforddiant
- Yn gweithio mewn rôl wirfoddol, yn ddi-dâl neu interniaeth
- Ddim mewn cyflogaeth nac yn chwilio am waith cyflogedig (er enghraifft, gofalu am blant neu berthnasau, wedi ymddeol), neu hyfforddiant

- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Arall
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn gwybod

Mewn cyflogaeth

11. [Os dewiswyd *Cyflogaeth* ar gyfer Cwestiwn 10] Ai dyma'r swydd a gawsoch trwy gymryd rhan yn rhaglen TSC+? [*Ie/Nage*]

12. Os *Nage*, ydych chi'n dal yn gweithio gyda'r un sefydliad/cwmni ag yr oeddech chi'n gweithio ynddo/wedi cael lleoliad gwaith gydag ef trwy raglen TSC+?

13. Beth yw teitl eich swydd a beth yw eich prif ddyletswyddau neu gyfrifoldebau?

Teitl y swydd:

Prif ddyletswyddau/cyfrifoldebau:

14. Pryd wnaeth eich swydd bresennol ddechrau? [*Mis/Blwyddyn*]

15. A yw'r swydd:

- Ar gontract parhaol neu benagored
- Ar gontract cyfnod penodol sy'n para 12 mis neu hirach
- Ar gontract cyfnod penodol sy'n para llai na 12 mis
- Dros dro neu achlysurol
- Ar gontract dim oriau
- Arall (manylwch)

16. Sawl awr yr wythnos ydych chi'n eu gweithio fel arfer ar gyfartaledd, heb gyfrif seibiant ar gyfer prydau bwyd ond gan gynnwys unrhyw oramser â thâl?

Nodyn i'r cyfwelydd: PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL codau, cod sengl.

- Llai na 16 awr
- 16 i 30 awr
- 31 i 39 awr
- 40 awr neu fwy
- Ddim yn gwybod

a. [Os dewiswyd *Llai na 16 awr* yn Cwestiwn 16: Dywedoch chi eich bod chi'n gweithio'n rhan-amser. A fyddai'n well gennych weithio'n llawn amser?

[*Byddai/Na fyddai/Ddim yn gwybod*]

17. A allwch ddweud wrtha i beth yw eich cyflog gros, gan gynnwys unrhyw oramser, bonysau, comisiynau neu gildyrnau ond CYN unrhyw ddiidyniadau ar gyfer treth, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn, ac ati?

Nodyn i'r cyfwelydd: Holwch fel y bo raid.

- Os nad yw'n glir, gofynnwch: 'A yw hynny am bob blwyddyn, mis neu wythnos?'
- Os ydynt yn rhoi ffigwr tâl am awr o waith gofynnwch: 'Felly beth fyddai cyfanswm hwnnw mewn wythnos arferol?'
- Os ydynt yn dweud Ddim yn gwybod/gwrthod gofynnwch: 'Ydych chi'n gallu rhoi rhyw syniad bras i mi, y flwyddyn, mis neu wythnos?'

Blynyddol	Misol	Wythnosol	
Llai na £2,000	Llai na £166	Llai na £38	1
£2,000–£3,999	£166–£333	£38–£76	2
£4,000–£4,999	£334–£396	£77–£91	3
£5,000–£5,999	£397–£499	£92–£114	4
£6,000–£7,999	£500–£666	£115–£153	5
£8,000–£9,999	£667–£832	£154–£192	6
£10,000–£11,999	£833–£999	£193–£230	7
£12,000–£14,999	£1,000–£1,249	£231–£289	8
£15,000–£17,999	£1,250–£1,499	£290–£346	9
£18,000–£20,999	£1,500–£1,749	£347–£403	10
£21,000–£23,999	£1,750–£1,999	£404–£461	11
£24,000–£26,999	£2,000–£2,249	£462–£519	12
£27,000–£29,999	£2,250–£2,499	£520–£577	13
£30,000+	£2,500+	£578+	14
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn gwybod			15
PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Gwrthod dweud			16

18. A oes cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad neu symud ymlaen ymhellach yn eich swydd bresennol? [Oes/Nac oes/Ddim yn gwybod]

Mewn addysg neu hyfforddiant

19. [Os dewisir *Mewn addysg neu hyfforddiant* ar gyfer Cwestiwn 10] A ydych chi'n dal yn yr addysg/hyfforddiant a gafodd TSC+ i chi? [Ydw/Nac ydw]

20. [Os dewisir *Mewn addysg neu hyfforddiant* ar gyfer Cwestiwn 10] Pa rai o'r mathau canlynol o addysg neu hyfforddiant ydych chi'n eu gwneud ar hyn o bryd? Ydych chi'n...?

Nodyn i'r cyfwelydd: Darllenwch y codau a'r cod sengl.

- Yn yr ysgol
- Yn y coleg llawn amser — 16 awr neu fwy yr wythnos
- Yn y coleg rhan-amser — llai na 16 awr yr wythnos
- Ar gwrs wrth fod yn gweithio hefyd
- Ar linyr TSC+

- YCHWANEGWCH OS OES ANGEN: Yn gyffredinol mae'r rhain yn golygu bod unigolion yn treulio o leiaf ychydig wythnosau gyda busnesau neu sefydliadau eraill i gael profiad gwaith ymarferol cyn dechrau gwaith cyflogedig yn rheolaidd.
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Yn y brifysgol
- Arall (MANYLWCH)
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn gwybod

Gweithgarwch arall

21. Ac eithrio'r gweithgaredd yr ydym wedi eisoes wedi sôn amdano ([yr ateb i Gwestiwn 10]), ers i chi ymuno â TSC+ yn [Mis/Blwyddyn] a ydych wedi cael cyfnodau yn gwneud pethau eraill fel [yr atebion eraill i Gwestiwn 10]?

DARLLENWCH YN UCHEL. COD SENGL.

- Naddo, dim ond y gweithgaredd/gweithgareddau a grybwyllwyd am yr holl amser
- Do, wedi cael cyfnod yn gwneud pethau eraill
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL: Ddim yn cofio

22. [Os dewiswyd *Naddo, dim ond y gweithgaredd/gweithgareddau a grybwyllwyd am yr holl amser* yng Nghwestiwn 20] Ydych chi'n gallu cadarnhau ym mha fis/blwyddyn y dechreuodd y cwrs/cyflogaeth? [Mis/Blwyddyn]

23. [Os dewiswyd *Do, wedi cael cyfnod yn gwneud pethau eraill* yng Nghwestiwn 20] Felly cyn [cwrs/cyflogaeth — eu sefyllfa bresennol] a oedd eich prif weithgaredd yn waith â thâl, addysg neu hyfforddiant, bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, neu dim un o'r rhain?

- Gwaith â thâl
- Addysg neu hyfforddiant
- Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith
- Dim un o'r rhain
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL:
Ddim yn gwybod

24. [Os dewiswyd *Do, wedi cael cyfnod yn gwneud pethau eraill* yng Nghwestiwn 21] A phryd ddechreuodd hyn? [Mis/Blwyddyn]

a. A than pryd wnaeth e bara? [Mis/Blwyddyn]

Yn ddi-waith a ddim yn chwilio am waith

25. [Os dewiswyd *Yn ddi-waith a ddim yn chwilio am waith* yng Nghwestiwn 10] Wnaethoch chi sôn gynnau nad ydych chi'n chwilio am waith ar hyn o bryd. A ydych chi ddim yn chwilio am waith oherwydd un o'r rhesymau canlynol?

Nodyn i'r cyfwelydd: Darllenwch y cod yn uchel, sawl cod.

- Problem iechyd hirdymor neu anabledd
- Wedi ymddeol
- Gwneud gwaith gwirfoddol di-dâl
- Ddim eisiau nac angen cyflogaeth
- Ddim yn chwilio am waith, gan nad oes swyddi ar gael
- Neu a oes rheswm arall pam nad ydych yn chwilio am swydd? (Manylwch)
- PEIDIWCH Â'I DDARLLEN YN UCHEL:
Ddim yn cofio

Ddim yn gweithio/ gwirfoddoli a ddim wedi ymddeol

26. Pa rai o'r pethau canlynol, os o gwbl, sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi ddod o hyd i waith ar hyn o bryd? [*Ticiwch bob un sy'n berthnasol*]

- Ddim yn meddu ar y cymwysterau cywir
- Ddim yn meddu ar y sgiliau cywir
- Dim profiad gwaith perthnasol
- Methu dod o hyd i ofal plant (e.e. oriau cywir ddim ar gael neu dim lle ar gael)
- Methu fforddio gofal plant
- Bod â chyfrifoldebau gofalu
- Problemau iechyd
- Bod â nam corfforol
- Eich oedan
- Dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau
- Bod â chofnod troseddol
- Dim swyddi addas lle rydych chi'n byw
- Anodd cael gwaith addas
- Dim swydd ar gael gyda'r oriau gwaith dymunol (e.e. efallai eisiau amser llawn ond dim ond yn gallu dod o hyd i waith rhan-amser/aros am swydd llawn amser)
- Dim swydd ar gael yn fy newis iaith, sef Cymraeg
- Credu na fyddai eich sefyllfa ariannol yn well mewn gwaith

- A oedd unrhyw reswm arall i esbonio pam ei bod yn anodd i chi ddod o hyd i waith?
(MANYLWCH)
- Ddim yn gwybod
- Dim un o'r rhain

Adfyfrio

27. Atebwch y cwestiynau canlynol ynghylch sut rydych yn teimlo am y materion canlynol gan ddefnyddio graddfa o '0' i '10', lle mae '0' yn 'ddim yn gadarnhaol o gwbl' a '10' yn 'hynod gadarnhaol'.

- Fy sgiliau cysylltiedig â gwaith
- Fy rhagolygon gwaith yn gyffredinol
- Sicrwydd fy swydd (e.e. y tebygolrwydd o gael swydd barhaol)
- Fy siawns o ddod o hyd i waith boddhaol
- Fy rhagolygon cyflog yn y dyfodol
- Fy syniadau ar beth i'w wneud mewn bywyd

28. [*Os rhoddwyd sgôr cadarnhaol, h.y. rhwng 6 a 10, yng Nghwestiwn 27*] I ba raddau ydych chi'n meddwl bod cymryd rhan yn Twf Swyddi Cymru+ wedi cyfrannu at ba mor gadarnhaol rydych chi'n teimlo am y pethau hyn? [*I raddau helaeth, I ryw raddau, Dim o gwbl, Ddim yn gwybod*]

- Eich sgiliau cysylltiedig â gwaith
- Eich siawns o ddod o hyd i waith boddhaol
- Eich rhagolygon gwaith yn gyffredinol
- Sicrwydd eich swydd (e.e. y tebygolrwydd o gael swydd barhaol)
- Rhagolygon cyflog yn y dyfodol
